# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Hydref 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00-09:30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09:30

## 2 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 2

09:30-10:30 (Tudalennau 1 - 32)

Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru

Jeremy Miles AS, Cwnsler Cyffredinol

Christopher Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru

James Gerard, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Trawsnewid a Datganoli Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru

**CLA(5)-29-20 - Papur briffio**

**CLA(5)-29-20 - Papur 1** - Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 28 Awst 2020

**CLA(5)-29-20 - Papur 2** - Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 23 Gorffennaf 2020

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**CLA(5)-29-20 – Papur 3** – Llythyr gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, 7 Gorffennaf 2020

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:30-10:40

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**3.1 SL(5)623 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 33 - 66)

**CLA(5)-29-20 – Papur 4** – Adroddiad

**CLA(5)-29-20 – Papur 5** – Rheoliadau

**CLA(5)-29-20 – Papur 6** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-29-20 – Papur 7** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 28 Medi 2020

**CLA(5)-29-20 – Papur 8** – Datganiad ysgrifenedig, 28 Medi 2020

**3.2 SL(5)628 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020**

(Tudalennau 67 - 79)

**CLA(5)-29-20 – Papur 9** – Adroddiad

**CLA(5)-29-20 – Papur 10** – Rheoliadau

**CLA(5)-29-20 – Papur 11** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-29-20 – Papur 12** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 2 Hydref 2020

**CLA(5)-29-20 – Papur 13** – Datganiad ysgrifenedig, 1 Hydref 2020

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**3.3 SL(5)625 – Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020**

(Tudalennau 80 - 148)

**CLA(5)-29-20 – Papur 14** – Adroddiad

**CLA(5)-29-20 – Papur 15** – Rheoliadau

**CLA(5)-29-20 – Papur 16** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-29-20 – Papur 17** – Datganiad ysgrifenedig, 29 Medi 2020

**3.4 SL(5)626 – Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020**

(Tudalennau 149 - 166)

**CLA(5)-29-20 – Papur 18** – Adroddiad

**CLA(5)-29-20 – Papur 19** – Rheoliadau

**CLA(5)-29-20 – Papur 20** – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**3.5 SL(5)627 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020**

(Tudalennau 167 - 182)

**CLA(5)-29-20 – Papur 21** – Adroddiad

**CLA(5)-29-20 – Papur 22** – Rheoliadau

**CLA(5)-29-20 – Papur 23** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-29-20 – Papur 24** – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 30 Medi 2020

**CLA(5)-29-20 – Papur 25** – Datganiad, 29 Medi 2020

**3.6 SL(5)629 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020**

(Tudalennau 183 - 196)

**CLA(5)-29-20 – Papur 26** – Adroddiad

**CLA(5)-29-20 – Papur 27** – Rheoliadau

**CLA(5)-29-20 – Papur 28** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-29-20 – Papur 29** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 2 Hydref 2020

**CLA(5)-29-20 – Papur 30** – Datganiad, 2 Hydref 2020

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

10:40-10:45

**4.1 SL(5)619 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020**

(Tudalennau 197 – 201)

**CLA(5)-29-20 – Papur 31** – Adroddiad

**CLA(5)-29-20 – Papur 32** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.2 SL(5)621 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020**

(Tudalennau 202 – 204)

**CLA(5)-29-20 – Papur 33** – Adroddiad

**CLA(5)-29-20 – Papur 34** – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

10:45-10:50

**5.1 C(5)042 – Gorchymyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Cychwyn) 2020**

(Tudalennau 205 – 208)

**CLA(5)-29-20 – Papur 35** – Adroddiad

**CLA(5)-29-20 – Papur 36** – Gorchymyn

**CLA(5)-29-20 – Papur 37** – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 28 Medi 2020

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

10:50-10:55

**6.1 WS-30C(5)167 – Rheoliadau yr Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 209 – 212)

**CLA(5)-29-20 – Papur 38** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-29-20 – Papur 39** – Sylwebaeth

**6.2 WS-30C(5)168 – Rheoliadau Maeth (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 213 – 216)

**CLA(5)-29-20 – Papur 40** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-29-20 – Papur 41** – Sylwebaeth

## 7 Papurau i'w nodi

10:55-11:00

### 7.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Gwaith dilynol i sesiwn graffu'r Pwyllgor ar 21 Medi 2020

(Tudalennau 217 - 218)

**CLA(5)-29-20 - Papur 42** - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 5 Hydref 2020

### 7.2 Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bil Marchnad Fewnol y DU

(Tudalen 219)

**CLA(5)-29-20 - Papur 43** - Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 3 Hydref 2020

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11:00

## 9 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth

11:00-11:10 (Tudalennau 220 - 229)

**CLA(5)-29-20 - Papur 44** - Nodyn cryno ar ymarfer ymgysylltu

## 10 Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020: Trafod yr adroddiad drafft

11:10-11:20 (Tudalennau 230 - 241)

**CLA(5)-29-20 - Papur 45** - Adroddiad drafft

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cam-Drin Domestig: Trafod yr ohebiaeth

11:20-11:30 (Tudalennau 242 - 247)

**CLA(5)-29-20 - Papur 46** - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 6 Hydref 2020

**CLA(5)-29-20 - Papur 47** - Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestri) (Rhif 2): Trafod y materion allweddol

11:30-11:40 (Tudalennau 248 - 254)

**CLA(5)-29-20 – Papur 48** – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**CLA(5)-29-20 – Papur 49** – Nodyn cyngor cyfreithiol

## 13 Rheoliadau Covid-19: Trafod yr ohebiaeth

11:40-11:50 (Tudalen 255)

**CLA(5)-29-20 – Papur 50** – Llythyr gan y Llywydd, 8 Hydref 2020

## Dyddiad y cyfarfod nesaf – 19 Hydref 2020

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw MS
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

28 Awst 2020

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Gorffennaf a'ch gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar 12 Hydref fel rhan o ymchwiliad parhaus y Pwyllgor, "Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru". Edrychaf ymlaen at fod yn bresennol.

Mae’ch llythyr hefyd yn cyfeirio at ail adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Gallaf gadarnhau y byddwn yn trefnu dadl ar yr adroddiad, ac mae swyddogion yn chwilio am ddyddiad ar ei gyfer.

Yn gywir,

Mark

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

seneddLJC@senedd.cymru

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Mick

**Ymchwiliad Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru – data ar fynediad i gyfiawnder**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 19 Mehefin ynglŷn ag ymchwiliad y pwyllgor i wneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno gyda'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ei bod yn bwysig i sicrhau bod data ystadegol wedi'u gwahanu ar gyfiawnder yng Nghymru mor hygyrch â phosibl. Trafododd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru a Phrif Ystadegydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hyn ar sawl achlysur yn 2019 a chytunwyd bod angen dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod y data ar gael lle bynnag y bo'n bosibl, a'u bod ar gael yn hygyrch ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ceisio rhoi data yn ymwneud â Chymru inni ar gais, ond nid yw'r data bob amser ar gael i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y ffurf yr ydym eu heisiau, a hyd yn oed pan fydd ar gael gall gymryd amser i weithredu ar geisiadau.

Mae blaenoriaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'u heffeithio gan gynnydd sylweddol parhaus yn y llwyth gwaith, a ddechreuodd yr haf diwethaf ac, fel Llywodraeth Cymru, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi'i effeithio gan y pandemig coronafeirws. Mae adnoddau dadansoddol wedi'u hailgyfeirio i ddeall ac ymateb i'r coronafeirws.

Er gwaethaf yr anawsterau yr ydym wedi'u cydnabod, rydym yn dal i gredu bod angen gwneud mwy i ddarparu data i Gymru ar y sail a nodwyd yn adroddiad Comisiwn Thomas. Mae'r pwynt hwn wedi cael ei gyfleu yn glir i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn rhagweld y bydd trafodaethau am ddata ystadegol yn ailddechrau rhwng Llywodraeth Cymru a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder dros y misoedd i ddod, yn amodol ar hynt y pandemig yn y DU.

Datblygiad pwysig eleni oedd y cyllid a gyhoeddwyd gan Administrative Data Research UK i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y prosiect Data First. Bydd y gwaith hwn yn rhoi llwyfan ar gyfer cysylltu data ar draws y system gyfiawnder i’n helpu ni i ddeall profiadau pobl, gan gynnwys pobl o Gymru, a bydd hefyd yn rhoi gwell mynediad diogel at ddata i ymchwilwyr yng Nghymru.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

Ministry of Justice

**Alex Chalk MP**
Parliamentary Under-Secretary of State for Justice

Mick Antoniw MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardif Bay
Cardiff
CF99 1SN

**MoJ ref:** ADR79396

7 July 2020

Dear Mick,

**INQUIRY INTO MAKING JUSTICE WORK IN WALES – DATA ON ACCESS TO JUSTICE**

Thank you for your letter of 19 June to the Lord Chancellor, regarding the inquiry into Making Justice work in Wales and in particular, user needs for Welsh justice data.

As you have noted, the Justice in Wales Working Group recommended that we should undertake a review of how data collection and publishing practices reflect the distinctiveness of Wales, where possible disaggregating data to give a clear picture of how justice in Wales functions. Disaggregation of Welsh data is a matter that we have been seeking to resolve for some time, particularly the challenges involved in categorising Welsh individuals in the justice system, but I am pleased to say that we have made considerable progress.

HMCTS in Wales currently collects data on existing legacy Case Management Systems at Court and Tribunal venue level for all jurisdictions. This data can be aggregated at a local reporting level e.g. Local Justice Area or Local Family Justice Board areas, and then summarised in a top level HMCTS Wales data set, which can be used in Wales for performance monitoring against workloads and all Key Performance measures. The Ministry of Justice aggregate the data for the Office for National Statistics, which are released Quarterly.

When considering changes to the court and tribunal estate, HMCTS will always assess local data for a particular court and the surrounding area. They will consider the workload and operating costs of the court but also, through an equalities assessment, local populations and their characteristics. They will assess local journeys to court by public transport to make sure that any likely future journeys meet HMCTS' access to justice principles.

Legal Aid Provider Statistics provide legal aid data at national/regional level, so data for Wales can be isolated from the overall data for England and Wales. This is based on the provider location, not the client location. The published statistics give the type of work undertaken, covering both civil and crime billing data for completed claims. This dataset includes data from 2011/12 onwards.

**T** +4420 3334 3555
**F** +44870 761 7753
**E** https://contact-moj.dsd.io/
www.gov.uk/moj
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

With respect to family justice, we publish data at a regional level, which can be found here: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/895002/Family_Data_2020_Q1.zip. This data set includes:

- The number of cases started/finishing by region and by case type (with ‘count’ referring the number of applications/orders etc depending on the start/end selection)
- The timeliness by region and case type and legal representation status (note that those without representation are where representation isn’t recorded, rather than specifically being litigants in person)

Whilst your request does not cover prisons and probation, I thought you would find it helpful to know that HMPPS currently provides published statistics on how offender management services in the community and in custody are delivered. These statistics include key statistics relating to offenders, staff and performance against agreed service levels and measures. Where possible, for prisons, the statistics are disaggregated to the establishment level, including prisons in Wales. Similarly, statistical publications relating to community supervision are disaggregated to a regional level, including Wales. A narrative account of HMPPS in Wales, reflecting the devolved structure of the organisation and activities is provided in HMPPS Annual Report and Accounts.

One important development this year, however, has been the funding announced by Administrative Data Research to the Ministry of Justice for the Data First project. This work will provide a platform to link together data from across the justice system to help our understanding of people’s experiences, including people from Wales, and will also provide greater secure access to data for researchers in Wales.

I hope this information is helpful and I would be happy to answer any follow up questions you may have in relation to the inquiry.

Thank you again for getting in touch.

Yours sincerely,



**ALEX CHALK MP**

# SL(5)623 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Mae Adran 81 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") ac Atodlen 29 iddi yn darparu amddiffyniad rhag troi allan drwy gynyddu'r cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlord ei roi i denant wrth geisio meddiant.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn tan 31 Mawrth 2021 y cyfnod pan fydd yn rhaid rhoi mwy o hysbysiad i denantiaid sy'n cael tenantiaethau o dan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 a 1996. Y dyddiad terfyn blaenorol oedd 30 Medi 2020.

Ar ben hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfnod hysbysu y mae'n rhaid ei roi ar gyfer y rhan fwyaf o hysbysiadau a roddir mewn perthynas â thenantiaethau gwarchodedig a statudol, tenantiaethau diogel, tenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd, o dri mis i chwe mis. Mae hyn yn golygu bod y tenantiaethau hynny'n cyd-fynd â'r cyfnod hysbysu o chwe mis y mae'n rhaid ei roi eisoes mewn perthynas â thenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr.

Fodd bynnag, yn achos pob tenantiaeth, mae'r Rheoliadau'n gohirio'r cyfnodau hysbysu hwy y mae'n rhaid eu rhoi o dan Atodlen 29 i Ddeddf 2020 mewn perthynas ag achosion lle mae'r sail neu'r rheswm dros roi'r hysbysiad yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig.

Mae adran 88(1) o Ddeddf 2020 yn darparu pŵer i awdurdod cenedlaethol perthnasol (Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn) wneud rheoliadau i atal gweithrediad unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf honno dros dro. Caniateir gwneud rheoliadau hefyd i adfer darpariaeth a ataliwyd dros dro (adran 88(3)), a chaniateir i'r darpariaethau yn 88(1) a (3) gael eu defnyddio fwy nag unwaith (gweler adran 88(4)).

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi cael ei thorri mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn (hynny yw, y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym). Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Rebecca Evans, yn darparu esboniad am dorri'r rheol mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 28 Medi 2020:

> *Mae angen brys o hyd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartrefi, er mwyn parhau i gyfyngu ar y Coronafeirws, lleihau'r baich ar staff rheng flaen, a sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth priodol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud cyfraniad pwysig at ddiwallu'r angen brys hwnnw. Er mwyn sicrhau bod darpariaethau Atodlen 29 yn dal yn berthnasol ar ôl 30 Medi, daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Medi 2020.*

Yn yr un modd, mae paragraff 2.1 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

> *Mae angen brys i sicrhau bod y cyfnod perthnasol yn cael ei ymestyn y tu hwnt i 30 Medi. Rhaid cadw nifer y bobl sydd mewn perygl uniongyrchol o gael eu troi allan o'u cartrefi yn isel, er mwyn parhau i gyfrannu at yr ystod o fesurau sydd ar waith er mwyn ymateb i'r feirws. Felly, daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Medi 2020 ac nid ydynt yn dilyn y confensiwn na ddylai Rheoliadau ddod i rym am o leiaf 21 diwrnod ar ôl eu gosod.*

Er ein bod yn cydnabod y bu'n rhaid rhoi nifer o fesurau ar waith ar frys yn ystod pandemig y Coronafeirws, nid yw'n glir i ni pam y bu'n rhaid i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar gymaint o frys fel eu bod yn torri'r rheol 21 diwrnod. Ers y ddarpariaeth debyg a wnaed ym mis Gorffennaf gan Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau blaenorol"), bu cyfnod o ddau fis i Weinidogion Cymru ystyried a rhoi darpariaeth ar waith y tu hwnt i 30 Medi. Er hyn, gwnaed y Rheoliadau hyn ar 25 Medi, fe'u gosodwyd ar 28 Medi a daethant i rym ar 29 Medi. Gwnaethom nodi yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau blaenorol, fod gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau o'r fath ers 25 Mawrth 2020 (pan basiwyd Deddf 2020).

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1"). Yn ôl A1P1:

*Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law and by the general principles of international law.*

*The preceding provisions shall not, however, in any way impair the right of a State to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties.*

Mae'r Rheoliadau’n ymestyn, mewn rhai achosion, y cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlord ei roi i denant, o dri mis i chwe mis ar ôl 29 Medi 2020. Effaith y Rheoliadau yw cyfyngu ar ddefnydd a mwynhad landlord o'i eiddo am y cyfnod ychwanegol hwn. Mae A1P1 yn hawl amodol ac felly caniateir rheoli defnydd y landlord o'i eiddo os bernir bod hynny’n angenrheidiol er budd cyffredinol.

Wrth ystyried a oes modd cyfiawnhau ymyrraeth, rhaid i’r Wladwriaeth ddangos bod gan y rheoliadau nod cyfreithlon sy’n ddigonol i gyfiawnhau cyfyngu hawliau landlordiaid, bod y rheoliadau wedi’u cysylltu’n rhesymol â’r nod hwnnw, na ellir bod wedi defnyddio mesur llai ymwthiol, a bod perthynas resymol o gymesuredd rhwng y modd a ddefnyddir i gyflawni’r nod dan sylw, a’r nod y ceisir ei gyflawni.

Yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau blaenorol, fe wnaethom nodi nad oedd dadansoddiad ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru o hawliau A1P1 landlordiaid a sut y gellir cyfiawnhau ymyrryd â'r hawliau hyn. Ni roddodd ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau blaenorol hynny unrhyw fanylion am y rhesymeg dros benderfyniad y Llywodraeth.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r effaith ar hawliau dynol ychwaith. O'r herwydd, nid yw'n bosibl i ddarllenydd y Rheoliadau ddeall sut mae'r Llywodraeth wedi pwyso a mesur hawliau cystadleuol landlordiaid, tenantiaid a'r cyhoedd yn ehangach.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n ystyried bod y rheoliadau hyn yn cydymffurfio ag A1P1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Mae paragraff 2.3 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn trafod mater ôl-weithredol:

*Er bod y Rheoliadau’n berthnasol yn y dyfodol (hy ar y dyddiad y daw’r diwygiadau i rym, neu ar ôl hynny) mae elfen ôl-weithredol yn perthyn i’r Rheoliadau oherwydd bod y cyfnodau rhybudd mewn tenantiaethau presennol yn cael eu newid dros dro. Fodd bynnag, bydd y cyfnod rhybudd estynedig yn berthnasol i rybuddion a gyflwynir ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, neu ar ôl hynny.*

Er ein bod yn sylweddoli y bydd y Rheoliadau'n gymwys yn y dyfodol, yn yr ystyr mai dim ond hysbysiadau a roddir ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym a gaiff eu heffeithio gan y darpariaethau, bydd y Rheoliadau'n gymwys i denantiaethau presennol a wnaed rhwng landlordiaid a thenantiaid.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 6.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn egluro nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol meintioledig, ond bod y Memorandwm Esboniadol yn darparu disgrifiad ansoddol o effeithiau tebygol y Rheoliadau. Fodd bynnag, gosodwyd y Rheoliadau hyn ar 28 Medi 2020 a daethant i rym ar 29 Medi 2020 gan roi dim ond ychydig oriau o rybudd i landlordiaid a rhanddeiliaid eraill o'r newid sylweddol hwn i'r gyfraith a'u hawliau.

O ran effeithiau economaidd posibl y Rheoliadau ar landlordiaid, mae paragraff 6.11 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> *...er y byddai landlordiaid yn dal yn gallu adennill meddiant os bydd tenant yn peidio â thalu rhent neu'n torri telerau ei denantiaeth fel arall, a bydd y sefydliad sydd wedi rhoi'r benthyciad yn dal yn gallu adennill meddiant os bydd y landlord yn peidio â thalu'r morgais, ond mae costau ychwanegol posibl iddynt yn deillio o ganlyniad i gyfnodau rhybudd hwy. Fodd bynnag, gallai'r amser ychwanegol i landlordiaid, tenantiaid ac asiantaethau cymorth weithio gyda'i gilydd i bennu a chytuno ar drefniadau i gefnogi tenantiaid i reoli eu harian yn well ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent wrthbwyso'r effaith ariannol. Felly, dylai unrhyw effaith economaidd negyddol fod yn fach iawn.*

Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y diffyg ymgynghori a'r ffaith na wnaed asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i feintioli yn ei gwneud hi'n anoddach darganfod a yw'r Rheoliadau'n cynrychioli ymateb cymesur gan Lywodraeth Cymru. Bu cyfnod o ddau fis hefyd ers i'r Rheoliadau blaenorol gael eu gwneud, a allai fod wedi rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru asesu effeithiau'r darpariaethau ymhellach.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Hydref 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1044 (Cy. 233)

# TAI, CYMRU

# Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020, ac yn atal gweithrediad darpariaethau penodol yn yr Atodlen honno dros dro. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Hysbysiadau Ymadael etc. (Gwybodaeth a Ragnodir) 1988.

Mae Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Atodlen 29") yn addasu darpariaethau statudol amrywiol sy'n ymwneud â hysbysiadau y mae angen eu rhoi er mwyn ceisio adennill meddiant o anheddau.

Cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, effaith yr addasiadau a wnaed gan Atodlen 29 oedd, yng Nghymru, ei bod yn ofynnol i landlordiaid roi o leiaf 3 mis o hysbysiad cyn gwneud cais am orchymyn adennill meddiant pan fo anheddau wedi eu gosod o dan denantiaethau gwarchodedig neu denantiaethau statudol Deddf Rhenti 1977, tenantiaethau diogel, tenantiaethau rhagarweiniol neu denantiaethau isradd. Ar gyfer tenantiaethau byrddaliadol sicr, roedd o leiaf 6 mis o hysbysiad yn ofynnol ar gyfer hysbysiadau o dan adran 21 o Ddeddf Tai 1988, ac ar gyfer tenantiaethau sicr, roedd o leiaf 6 mis o hysbysiad yn ofynnol oni bai bod yr hysbysiad yn pennu Sail 7A neu 14 (os felly, roedd o leiaf 3 mis o hysbysiad yn ofynnol).

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r addasiadau a wnaed gan Atodlen 29 mewn perthynas â hysbysiadau a roddir ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cyfnod hysbysu sy'n ofynnol er mwyn adennill meddiant o annedd a osodir ar denantiaethau gwarchodedig neu denantiaethau statudol y Ddeddf Rhenti, tenantiaethau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

diogel, tenantiaethau sicr, tenantiaethau rhagarweiniol neu denantiaethau isradd wedi ei gynyddu i 6 mis. Gwneir eithriadau ar gyfer hysbysiadau sy'n pennu seiliau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig (ac, yn yr achosion hynny, mae'r cyfnod hysbysu yn dychwelyd i'r sefyllfa a oedd yn gymwys cyn i Atodlen 29 ddod i rym).

Mae rheoliad 4 yn diwygio Atodlen 29 i'r graddau y mae'n addasu'r cyfnod hysbysu sy'n ymwneud â thenantiaethau gwarchodedig Deddf Rhenti 1977. Mae'n estyn y cyfnod hysbysu sy'n ofynnol o dan hysbysiad ymadael a roddir o dan adran 5(1) o Ddeddf Gwarchodaeth Rhag Troi Allan 1977 i 6 mis, oni bai bod yr hysbysiad ymadael yn pennu bod y landlord yn credu bod Achos 2 yn Atodlen 15 i Ddeddf Rhenti 1977 yn gymwys (ymddygiad sy'n peri niwsans neu aflonyddwch, neu annedd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion anfoesol neu anghyfreithlon). O dan yr amgylchiadau hynny, rhaid rhoi o leiaf 4 wythnos o hysbysiad.

Mae rheoliad 16 yn diwygio Rheoliadau Hysbysiadau Ymadael etc. (Gwybodaeth a Ragnodir) 1988. Pan fo hysbysiad ymadael yn cael ei roi lai na 6 mis cyn y dyddiad y mae i gael effaith, rhaid i'r hysbysiad ymadael bennu bod y landlord yn credu bod yr amgylchiad yn Achos 2 yn gymwys. Mae'r gofyniad yn gymwys o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym hyd at 31 Mawrth 2021.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Atodlen 29 i'r graddau y mae'n addasu'r cyfnod hysbysu sy'n ymwneud â thenantiaethau statudol Deddf Rhenti 1977. Mae'n estyn y cyfnod hysbysu y mae'n ofynnol i'w roi o dan adran 3 o Ddeddf Rhenti 1977 i 6 mis, oni bai bod hysbysiad o fwriad i gychwyn achos adennill meddiant yn pennu Achos 2 yn Atodlen 15 i Ddeddf Rhenti 1977. O dan yr amgylchiadau hynny, rhaid rhoi o leiaf 4 wythnos o hysbysiad.

Mae'r gofyniad i roi hysbysiad o fwriad i gychwyn achos mewn perthynas â thenantiaethau statudol wedi ei bennu yn yr addasiad i Ddeddf Rhenti 1977 a wneir gan baragraff 2(3) o Atodlen 29.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Atodlen 29 i'r graddau y mae'n addasu'r cyfnodau hysbysu sy'n ymwneud â thenantiaethau sicr. Mae'n estyn y cyfnod hysbysu sy'n ofynnol o dan adran 83 o Ddeddf Tai 1985 i 6 mis, ac eithrio pan fo Sail 2A (trais domestig) wedi ei bennu, heb seiliau eraill. Os pennir Sail 2A, mae'r cyfnod hysbysu yn dychwelyd i'r sefyllfa a oedd yn gymwys cyn y daeth Atodlen 29 i rym.

Mae rheoliad 7 yn atal gweithrediad paragraff 3 o Atodlen 29 dros dro pan fo hysbysiad o dan adran 83 o Ddeddf Tai 1985 yn pennu Sail 2 yn Atodlen 2 i'r

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ddeddf honno (ymddygiad sy'n peri niwsans neu aflonyddwch, neu annedd yn cael ei defnyddio at ddibenion anfoesol neu anghyfreithlon). Effaith y rheoliad yw, pan fo Sail 2 wedi ei phennu (pa un ai gyda seiliau eraill neu hebddynt), fod y cyfnod hysbysu yn dychwelyd i'r sefyllfa a oedd yn gymwys cyn y daeth Atodlen 29 i rym.

Mae rheoliad 8 yn atal gweithrediad paragraff 4 o Atodlen 29 dros dro. Effaith y rheoliad yw, pan fo hysbysiad o dan adran 83ZA o Ddeddf Tai 1985 yn pennu y gofynnir i'r Llys wneud gorchymyn adennill meddiant o dan adran 84A o Ddeddf Tai 1985 (seiliau absoliwt ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol), mae'r cyfnod hysbysu yn dychwelyd i'r sefyllfa a oedd yn gymwys o dan yr amgylchiadau hynny cyn y daeth Atodlen 29 i rym.

Mae rheoliad 9 yn diwygio Atodlen 29 i'r graddau y mae'n addasu'r cyfnodau hysbysu sy'n ymwneud â thenantiaethau sicr. Pan fo hysbysiad o dan adran 8 o Ddeddf Tai 1988 yn pennu Sail 14A yn Atodlen 2 i'r Ddeddf honno (trais domestig), heb seiliau eraill, mae'r cyfnod hysbysu yn gostwng o 3 mis i 2 wythnos, sef y cyfnod hysbysu a oedd yn gymwys o dan yr amgylchiadau hynny cyn y daeth Atodlen 29 i rym.

Mae rheoliad 10 yn atal gweithrediad paragraff 6(a) a (b) o Atodlen 29 dros dro. Effaith y rheoliad yw, pan fo hysbysiad o dan adran 8 o Ddeddf Tai 1988 yn pennu Sail 7A neu 14 yn Atodlen 2 i'r Ddeddf honno (ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau, etc.), mae'r cyfnod hysbysu yn dychwelyd i'r sefyllfa a oedd yn gymwys cyn y daeth Atodlen 29 i rym.

Mae rheoliad 11 yn diwygio Atodlen 29 i'r graddau y mae'n addasu'r cyfnod hysbysu sy'n ymwneud â thenantiaethau rhagarweiniol. Mae'n estyn y cyfnod hysbysu sy'n ofynnol o dan adran 128 o Ddeddf Tai 1996 i 6 mis, ac eithrio pan fo'r landlord wedi pennu ymddygiad gwrthgymdeithasol fel rheswm yn yr hysbysiad achos. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'r cyfnod hysbysu yn dychwelyd i'r sefyllfa a oedd yn gymwys cyn y daeth Atodlen 29 i rym.

Mae rheoliad 12 yn diwygio Atodlen 29 i'r graddau y mae'n addasu'r cyfnodau hysbysu sy'n ymwneud â thenantiaethau isradd. Mae'n estyn y cyfnod hysbysu sy'n ofynnol o dan adran 143E o Ddeddf Tai 1996 i 6 mis, ac eithrio pan fo'r landlord wedi pennu ymddygiad gwrthgymdeithasol fel rheswm yn yr hysbysiad achos. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'r cyfnod hysbysu yn dychwelyd i'r sefyllfa a oedd yn gymwys cyn y daeth Atodlen 29 i rym.

Mae rheoliadau 13 a 15 yn diwygio'r addasiadau a wnaed gan baragraffau 10 ac 11 o Atodlen 29, ac mae rheoliad 14 yn atal gweithrediad paragraff 10(1)(a)(i) a (b) o'r Atodlen honno dros dro. Effaith y rheoliadau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

hyn yw bod y ffurflenni a ragnodir sy'n ymwneud â thenantiaethau diogel a thenantiaethau sicr a meddianaethau amaethyddol sicr wedi eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau i ofynion hysbysu a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Roedd y ddarpariaeth a wnaed gan Atodlen 29 i ddod i ben ar 30 Medi 2020, ond mae rheoliad 3 yn diwygio paragraff 3 o Atodlen 29 fel ei bod yn cael effaith, o ran Cymru, hyd at 31 Mawrth 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1044 (Cy. 233)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

*Gwnaed* *25 Medi 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *28 Medi 2020*

*Yn dod i rym* *29 Medi 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 5(1)(a) o Ddeddf Gwarchodaeth Rhag Troi Allan 1977(**1**) ac adran 88(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, a pharagraffau 1(2) a 13(1) o Atodlen 29 iddi(**2**).

## RHAN 1

### CYFLWYNIAD

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Medi 2020.

(**1**) 1977 p. 43. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 5, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) 2020 p. 7. Mae'r pwerau a roddir gan adran 88(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, a pharagraffau 1(2) a 13(1) o Atodlen 29 iddi, yn arferadwy gan y "relevant national authority". Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Ystyr cyfeiriadau at "Atodlen 29"**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at "Atodlen 29" yn gyfeiriad at Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl yng Nghymru a Lloegr: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan).

## RHAN 2

## ESTYN Y CYFNOD PERTHNASOL

**Estyn y cyfnod perthnasol yn Atodlen 29**

**3.** Ym mharagraff 1(1)(b)(ii) o Atodlen 29 (ystyr "cyfnod perthnasol" o ran Cymru), yn lle "30 September 2020" rhodder "31 March 2021".

## RHAN 3

## CYFNODAU HYSBYSU: DIWYGIO ADDASIADAU A WNAED GAN ATODLEN 29

### TENANTIAETHAU GWARCHODEDIG A THENANTIAETHAU STATUDOL DEDDF RHENTI 1977

**Diwygio addasiadau a wnaed i adran 5(1) o Ddeddf Gwarchodaeth Rhag Troi Allan 1977**

**4.**—(1) Mae paragraff 2 o Atodlen 29 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1) (y cyfnod hysbysu ar gyfer hysbysiadau ymadael y Ddeddf Rhenti)—

(a) hepgorer "the reference to 4 weeks were a reference to";

(b) ym mharagraff (a), ar ôl "in relation to premises in England," mewnosoder "the reference to 4 weeks were a reference to";

(c) ym mharagraff (b), yn lle "3 months", rhodder "for paragraph (b) there were substituted—

"(b) it is given—

(i) not less than four weeks before the date on which it is to take effect where the notice to quit specifies that the landlord is of the opinion that the circumstance specified in Case 2 in Schedule 15 to the Rent Act 1977 applies (whether or not any other circumstance specified in that Schedule applies), and

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) where sub-paragraph (i) does not apply, not less than six months before the date on which it is to take effect.";".

**Diwygio addasiadau a wnaed i adran 3 o Ddeddf Rhenti 1977**

**5.**—(1) Mae paragraff 2 o Atodlen 29 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (3) (y cyfnod hysbysu ar gyfer achosion adennill meddiant mewn perthynas â thenantiaethau statudol Deddf Rhenti 1977)—

(i) yn is-adran (4A)(b)(ii), a fewnosodir gan yr addasiad, yn lle ", at least three months" rhodder "—

(aa) at least four weeks where the notice of intention to commence possession proceedings specifies a ground that corresponds to Case 2 in Schedule 15 to this Act (whether or not the notice specifies any other ground), and

(ab) where sub-paragraph (aa) does not apply, at least six months";

(ii) yn is-adran (4C)(g)(i), a fewnosodir gan yr addasiad, yn lle ", at least three months after the date on which the notice is given," rhodder "—

(aa) at least four weeks after the date on which the notice is given where the notice of intention to commence possession proceedings specifies a ground that corresponds to Case 2 in Schedule 15 to this Act (whether or not the notice specifies any other ground), and

(ab) where sub-paragraph (aa) does not apply, at least six months after the date on which the notice is given,".

TENANTIAETHAU DIOGEL

**Diwygio addasiadau a wnaed i adran 83 o Ddeddf Tai 1985**

**6.**—(1) Mae paragraff 3 o Atodlen 29 (hysbysiadau am achosion adennill meddiant mewn perthynas â thenantiaethau diogel) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Ym mharagraff (b), hepgorer “, in relation to a dwelling-house in England,”.

(3) ym mharagraff (c)—

(a) yn is-adran (4B)(a)(ii), a fewnosodir gan yr addasiad, yn lle “, three months after the date of service of the notice,” rhodder “—

(aa) four weeks after the date of service of the notice where Ground 2A in Schedule 2 is specified without any other ground, and

(ab) where sub-paragraph (aa) does not apply, six months after the date of service of the notice,”.

**Atal darpariaeth sy’n ymwneud ag adran 83 o Ddeddf Tai 1985 dros dro pan roddir hysbysiad ar seiliau ymddygiad gwrthgymdeithasol**

**7.** Mae paragraff 3 o Atodlen 29 (estyn cyfnodau hysbysu mewn perthynas â thenantiaethau diogel) wedi ei atal dros dro o ran Cymru at ddibenion hysbysiad o dan adran 83 o Ddeddf Tai 1985(**1**) sy’n pennu Sail 2 yn Atodlen 2 i’r Ddeddf honno (sail yn ôl disgresiwn ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol), pa un ai gyda seiliau eraill neb hebddynt.

**Atal darpariaethau sy’n ymwneud ag adran 83ZA o Ddeddf Tai 1985 dros dro pan roddir hysbysiad ar seiliau ymddygiad gwrthgymdeithasol**

**8.** Mae paragraff 4 o Atodlen 29 (hysbysiadau am achosion adennill meddiant ar sail absoliwt am ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn perthynas â thenantiaethau diogel) wedi ei atal dros dro o ran Cymru.

TENANTIAETHAU SICR

**Diwygio addasiadau a wnaed i adran 8 o Ddeddf Tai 1988**

**9.**—(1) Mae paragraff 6 o Atodlen 29 (hysbysiadau am achosion adennill meddiant mewn perthynas â thenantiaethau sicr) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (d)—

(a) daw’r geiriau “for “two weeks” there were substituted “the relevant notice period” in relation to a dwelling-house in England” yn is-baragraff (i);

---

(**1**) 1985 p. 68.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) yn lle "and "six months" in relation to a dwelling-house in Wales" rhodder ", and

(ii) for "two weeks from the date of the service of the notice" there were substituted, in relation to a dwelling-house in Wales "—

(a) two weeks from the date of the service of the notice where Ground 14A in Schedule 2 is specified without any other ground, and

(b) where paragraph (b) does not apply, six months from the date of the service of the notice.""

**Atal darpariaethau sy'n ymwneud ag adran 8(3A) a (4) o Ddeddf Tai 1988 dros dro (Seiliau 7A neu 14: ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau etc.)**

**10.** Ym mharagraff 6 o Atodlen 29 (hysbysiadau am achosion adennill meddiant ar Seiliau 7A a 14 mewn perthynas â thenantiaethau sicr) mae paragraffau (a) a (b) wedi eu hatal dros dro o ran Cymru.

TENANTIAETHAU RHAGARWEINIOL

**Diwygio addasiadau a wnaed i adran 128 o Ddeddf Tai 1996**

**11.**—(1) Mae paragraff 8 o Atodlen 29 (hysbysiadau am achosion adennill meddiant mewn perthynas â thenantiaethau rhagarweiniol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (b), yn is-adran (4A)(a)(ii), a fewnosodir gan yr addasiad, yn lle ", three months beginning with the date on which the notice of proceedings is served" rhodder "—

(aa) four weeks beginning with the date on which the notice of proceedings is served where the landlord has specified in the notice of proceedings an ASB reason for applying for a possession order (whether or not the landlord has any other reason), and

(ab) in any other case, six months from the date on which the notice of proceedings is served".

(3) Ym mharagraff (c), yn is-adran (8), a fewnosodir gan yr addasiad, yn y diffiniad o "ASB reason"—

(a) ar ôl ""ASB reason" means" mewnosoder ", in relation to a dwelling-house in England,", a

(b) ar y diwedd, mewnosoder "and, in relation to a dwelling-house in Wales, a reason which

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

corresponds to any of those set out in section 84A(3) to (7) of the Housing Act 1985 or Grounds 2 and 2A of Schedule 2 to that Act".

TENANTIAETHAU ISRADD

**Diwygio addasiadau a wnaed i adran 143E o Ddeddf Tai 1996**

**12.**—(1) Mae paragraff 9 o Atodlen 29 (hysbysiadau am achosion adennill meddiant mewn perthynas â thenantiaethau rhagarweiniol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (a), yn is-adran (3)(a)(ii), a fewnosodir gan yr addasiad, yn lle ", three months beginning with the date on which the notice of proceedings is served" rhodder "—

(aa) four weeks beginning with the date on which the notice of proceedings is served where the landlord has specified in the notice of proceedings an ASB reason for applying for a possession order (whether or not the landlord has any other reason), and

(ab) in any other case, six months from the date on which the notice of proceedings is served".

(3) Ym mharagraff (c), yn is-adran (6), a fewnosodir gan yr addasiad, yn y diffiniad o "ASB reason"—

(a) ar ôl ""ASB reason" means" mewnosoder ", in relation to a dwelling-house in England,", a

(b) ar y diwedd, mewnosoder "and, in relation to a dwelling-house in Wales, a reason which corresponds to any of those set out in section 84A(3) to (7) of the Housing Act 1985 or Grounds 2 and 2A of Schedule 2 to that Act".

## RHAN 4

## NEWIDIADAU I FFURFLENNI A RAGNODIR

**Addasiadau canlyniadol i ffurflenni a ragnodir sy'n ymwneud â thenantiaethau diogel**

**13.**—(1) Mae paragraff 10 o Atodlen 29 (addasiadau i'r Atodlen i Reoliadau Tenantiaethau Diogel (Hysbysiadau) 1987(**1**): ffurflenni a ragnodir mewn perthynas â thenantiaethau diogel) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) O.S. 1987/755.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn is-baragraff (1) (addasu Rhan 1 o’r Atodlen), ym mharagraff (a)(ii) yn lle ““three months from the date this Notice is served and also cannot be earlier than” rhodder “—

(a) four weeks from the date this Notice is served where Ground 2A in Schedule 2 to the Housing Act 1985 is specified in the Notice and no other ground is specified, and

(b) where paragraph (a) does not apply, six months from the date this Notice is served.

Court proceedings also cannot be begun earlier than”.

(3) Yn is-baragraff (2) (addasu Rhan 2 o’r Atodlen), ym mhwynt bwled cyntaf yr addasiad, ym mharagraff (b), yn lle “, three months from the date this Notice is served” rhodder “—

(i) four weeks from the date this Notice is served where Ground 2A in Schedule 2 to the Housing Act 1985 is specified in the notice and no other ground is specified, and

(ii) where paragraph (i) does not apply, six months from the date this Notice is served (unless proceedings are brought on Ground 2 in Schedule 2 to the Housing Act 1985, in which case they may be begun immediately).”.

**Atal dros dro addasiadau i Reoliadau Tenantiaethau Diogel (Hysbysiadau) 1987 sy’n ymwneud â Sail 2**

**14.** Ym mharagraff 10(1) o Atodlen 29, mae paragraffau (a)(i) a (b) wedi eu hatal dros dro o ran Cymru.

**Addasiadau canlyniadol i ffurflenni a ragnodir sy’n ymwneud â thenantiaethau sicr a meddianaethau amaethyddol sicr**

**15.**—(1) Mae paragraff 11 o Atodlen 29 (addasu Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) 1997([1]): ffurflenni a ragnodir mewn perthynas â thenantiaethau sicr a meddianaethau amaethyddol sicr) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) O.S. 1997/194.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn lle paragraffau (a), (b) ac (c) rhodder "for the first, second and third bullet points there were substituted—

"—Where the landlord is seeking possession on any of grounds 1 to 7, 8 to 13, 15, 16 or 17 (without ground 7A or 14) court proceedings cannot begin earlier than six months from the date on which this notice is served on you, and in the case of grounds 1, 2 5 to 7, 9 and 16 court proceedings cannot, in any event, begin before the date on which the tenancy (had it not been assured) could have been brought to an end by a notice to quit served at the same time as the notice.

—Where the landlord is seeking possession on ground 7A (with or without other grounds), court proceedings cannot begin earlier than 1 month from the date this notice is served on you in the case of a fixed term tenancy and, in the case of a periodic tenancy, court proceedings cannot begin before the date on which the tenancy (had it not been assured) could have been brought to an end by a notice to quit served at the same time as this notice.

—Where the landlord is seeking possession on ground 14 (with or without other grounds other than ground 7A), court proceedings cannot begin before the date this notice is served on you.

—Where the landlord is seeking possession on ground 14A (without other grounds), court proceedings cannot begin earlier than two weeks from the date this notice is served on you."

# RHAN 5

## GWYBODAETH A RAGNODIR MEWN HYSBYSIADAU YMADAEL

### Diwygio Rheoliadau Hysbysiadau Ymadael etc. (Gwybodaeth a Ragnodir) 1988

**16.**—(1) Mae'r Atodlen i Reoliadau Hysbysiadau Ymadael etc. (Gwybodaeth a Ragnodir)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

1988(**1**) i'w darllen, mewn perthynas â hysbysiad ymadael y Ddeddf Rhenti a roddir mewn perthynas â mangre yng Nghymru yn ystod y cyfnod perthnasol, fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 2—

**"Prescribed information where less than 6 months' notice has been given**

**3.** Where a notice to quit has been given less than 6 months before the date on which it is to take effect, the following information must be given—

"The notice to quit has been given less than 6 months before the date on which it is to take effect on the basis that the landlord believes that the circumstance specified in Case 2 in Schedule 15 to the Rent Act 1977 applies (conduct which is a nuisance or annoyance to adjoining occupiers, or dwelling-houses used for immoral or illegal purposes).""

(2) Yn is-baragraff (1)—

(a) ystyr "hysbysiad ymadael y Ddeddf Rhenti" yw hysbysiad ymadael sy'n ymwneud â thenantiaeth sy'n denantiaeth warchodedig at ddibenion Deddf Rhenti 1977(**2**) (gweler adran 1 o'r Ddeddf honno), a

(b) ystyr "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac sy'n dod i ben â'r dyddiad a bennir ym mharagraff 1(b)(ii) o Atodlen 29.

# RHAN 6

## DARPARIAETH DROSIANNOL

### Darpariaeth drosiannol

**17.** Nid yw'r diwygiadau i Atodlen 29 ac atal y darpariaethau yn Atodlen 29 dros dro a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â hysbysiadau a roddir neu a gyflwynir cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
25 Medi 2020

(**1**) O.S. 1988/2201.
(**2**) 1977 p. 42.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Amddiffyn rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Amddiffyn rhag Troi Allan) (Cymru) 2020.

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
28 Medi 2020

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Adran 81 ac Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (“Deddf 2020”) yn darparu amddiffyniad rhag troi allan drwy gynyddu’r cyfnod rhybudd y mae’n rhaid i landlord ei roi i denant wrth geisio meddiant. Mae’r Rheoliadau hyn yn ymestyn tan 31 Mawrth 2021 (o'r dyddiad terfynu blaenorol sef 30 Medi 2020) y cyfnod pan fydd yn rhaid rhoi mwy o rybudd i denantiaid sy'n cael tenantiaethau o dan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 a 1996. Ar ben hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfnod rhybudd y mae’n rhaid ei roi ar gyfer y rhan fwyaf o rybuddion a roddir mewn perthynas â thenantiaethau gwarchodedig a statudol, tenantiaethau diogel, tenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd o dri mis i chwe mis. Mae hyn yn golygu bod y tenantiaethau hynny’n cyd-fynd â’r cyfnod rhybudd o chwe mis y mae’n rhaid ei roi yn barod mewn perthynas â thenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr. Fodd bynnag, yn achos pob tenantiaeth, mae’r Rheoliadau’n gohirio’r cyfnodau rhybudd hwy y mae’n rhaid eu rhoi o dan Atodlen 29 i Ddeddf 2020 mewn perthynas ag achosion lle mae’r sail neu’r rheswm dros roi’r rhybudd yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Mae angen brys i sicrhau bod y cyfnod perthnasol yn cael ei ymestyn y tu hwnt i 30 Medi. Rhaid cadw nifer y bobl sydd mewn perygl uniongyrchol o gael eu troi allan o’u cartrefi yn isel, er mwyn parhau i gyfrannu at yr ystod o fesurau sydd ar waith er mwyn ymateb i’r feirws. Felly, daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Medi 2020 ac nid ydynt yn dilyn y confensiwn na ddylai Rheoliadau ddod i rym am o leiaf 21 diwrnod ar ôl eu gosod.

2.2 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y’i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006), hysbyswyd y Llywydd y daw’r Rheoliadau i rym lai nag 21 diwrnod ar ôl dyddiad eu gosod.

2.3 Er bod y Rheoliadau’n berthnasol yn y dyfodol (hy ar y dyddiad y daw’r diwygiadau i rym, neu ar ôl hynny) mae elfen ôl-weithredol yn perthyn i’r Rheoliadau oherwydd bod y cyfnodau rhybudd mewn tenantiaethau presennol yn cael eu newid dros dro. Fodd bynnag, bydd y cyfnod rhybudd estynedig yn berthnasol i rybuddion a gyflwynir ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, neu ar ôl hynny.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 88 a pharagraffau 1(2) a 13(1) Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020").

3.2 Mae Adran 81 ac Atodlen 29 i Ddeddf 2020 yn oedi pa bryd y caiff landlordiaid droi tenantiaid allan, naill ai drwy ddiwygio'r cyfnod rhybudd y mae'n rhaid i landlord ei roi i denant neu, mewn rhai achosion, creu gofyniad rhybudd lle nad oes gofyniad o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd. Mae rhybuddion a gyflwynir mewn cysylltiad â thenantiaethau gwarchodedig, tenantiaethau statudol, tenantiaethau diogel, tenantiaethau sicr, tenantiaethau byrddaliadol sicr, tenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd yn ystod y "cyfnod perthnasol" yn rhwym wrth gyfnod rhybudd estynedig. Mae'n bosibl i'r "awdurdod cenedlaethol perthnasol" (sy'n golygu Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru) ymestyn y cyfnod perthnasol, sydd i fod i ddod i ben ar 30 Medi 2020, dan bŵer a nodir ym mharagraff 1(2) o Atodlen 29.

3.3 Mae Atodlen 29 yn berthnasol i bob landlord sydd wedi rhoi tenantiaeth o dan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 ac 1996. O ran rhybuddion a gyflwynir mewn cysylltiad â thenantiaethau gwarchodedig a statudol, tenantiaethau diogel, tenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd, rhaid i'r cyfnod rhybudd fod yn dri mis. Yn dilyn diwygiadau a wnaed i Atodlen 29 i Ddeddf 2020 gan Reoliadau'r Coronafeirws (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr; Cyfnodau Rhybudd Estynedig) (Diwygio) (Cymru) 2020, rhaid rhoi chwe mis o rybudd mewn perthynas â thenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr, ac eithrio pan roddir y rhybudd o dan Seiliau 7A ac 14 o Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988 (sef, y sail orfodol ar gyfer troseddau difrifol/ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r sail ddewisol ar gyfer niwsans a phoendod) lle mae'r cyfnod rhybudd yn aros yn dri mis.

3.5 Mae paragraff 13(1)(a) Atodlen 29 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid y cyfeiriad at dri mis yn Atodlen 29 yn gyfeiriad at chwe mis, neu gyfeiriad at unrhyw gyfnod penodedig arall sy'n llai na chwe mis. Mae paragraff 13(1)(b) yn darparu'r pŵer i newid cyfeiriad sydd wedi cael ei newid naill ai gan baragraff (a) neu (b) ond ni cheir newid y cyfeiriad i gyfnod penodedig o fwy na chwe mis.

3.6 Mae paragraff 14(1)(b) Atodlen 29 yn datgan y caiff rheoliadau dan Atodlen 29... *"gael eu harfer er mwyn gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu i ardaloedd gwahanol,.."*. Mae paragraff 14(3) yn datgan bod offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau Gweinidogion Cymru o dan baragraff 13 yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan y Senedd (hy y weithdrefn penderfyniad negyddol).

3.7 Mae adran 88 o Ddeddf 2020 yn darparu pŵer i 'awdurdodau cenedlaethol' atal dros dro ac adfer darpariaethau Ddeddf y Coronafeirws. Gellir arfer y pŵer hwn fwy nag unwaith mewn perthynas â darpariaeth benodol a gellir ei arfer er mwyn gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer dibenion neu ardaloedd gwahanol.

3.8 Mae adran 88(9) yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn perthynas â darpariaeth os yw'n

rhychwantu Cymru a Lloegr ac os yw'n gymwys o ran Cymru, ac y byddai'r ddarpariaeth fel arall o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae'r Rheoliadau'n diwygio Atodlen 29 i Ddeddf 2020 er mwyn sicrhau bod tenantiaethau, ar ôl 29 Medi 2020 tan 31 Mawrth 2021, yn rhwym wrth gyfnod rhybudd o chwe mis ar gyfer terfynu'r denantiaeth, ac eithrio pan fydd y rheswm dros geisio terfynu'r denantiaeth yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig.

4.2 Yn y cyfnod ers cychwyn Deddf y Coronafeirws 2020, mae wedi dod i'r amlwg bod yr argyfwng iechyd y cyhoedd a'i effeithiau'n debygol o bara am fisoedd lawer eto ac y bydd cyfyngiadau parhaus ar nifer o agweddau ar fywyd arferol, gan gynnwys cyfyngiadau lleol. Er nad oes llawer o dystiolaeth annibynnol ar gael ar hyn o bryd i gadarnhau maint problem ôl-ddyledion rhent ar hyn o bryd, na rhagamcanion ynghylch sut y gallai'r broblem gynyddu yn y dyfodol wrth i effeithiau economaidd llawn y coronafeirws ddod yn amlwg, mae caledi ariannol sy'n deillio o effeithiau'r pandemig yn debygol o fod wedi cael effaith niweidiol ar allu rhai tenantiaid i dalu rhent. Gallai hyn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael eu troi allan os na chymerir camau.

4.3 Gan gofio hyn, mae'r Rheoliadau wedi cael eu drafftio er mwyn cefnogi tri o nodau trosfwaol Deddf y Coronafeirws, sef:

- cyfyngu ac arafu'r feirws
- lleihau'r baich ar staff rheng flaen;
- cefnogi pobl.

4.4 Bydd ymestyn y cyfnod perthnasol tan 31 Mawrth 2021 a chynyddu'r cyfnodau rhybudd ar gyfer y tenantiaethau hynny nad ydynt wedi cael eu cynyddu drwy Reoliadau 2020 – ond gan leihau'r cyfnod rhybudd am seiliau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig ar yr un pryd – yn cefnogi'r tri nod hyn drwy:

**Lleihau digartrefedd-** dylai parhau â'r cyfnodau rhybudd hirach, a chyfnodau rhybudd hirach ar gyfer y tenantiaethau hynny nad ydynt wedi cael eu cynyddu'n barod gan Reoliadau 2020, olygu bod llai o bobl yn cael eu troi allan a dod yn ddigartref, neu fod llai o bobl mewn perygl o gael eu troi allan a dod yn ddigartref. Os daw rhywun yn ddigartref, mae'n bosibl y bydd yn fwy agored i niwed o ganlyniad i'r feirws ac y bydd yn fwy tebygol o'i ledaenu *("cyfyngu ac arafu'r feirws"*). Gall hyn ddod yn arbennig o arwyddocaol os bydd ail don bosibl neu gynnydd lleol yn nifer yr achosion dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf. Hyd yn oed pan nad ydy

hynny'n digwydd, mae agweddau ar ddigartrefedd yn peri risg i iechyd y cyhoedd, ac mae rhinweddau'n perthyn i unrhyw gamau i wrthsefyll y risg honno.

Byddai cwtogi'r cyfnod rhybudd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig o bosibl yn golygu bod yr unigolion sy'n cael rhybuddion o'r fath yn cael eu troi allan yn gyflymach – ond byddai effaith negyddol hyn yn cael ei lliniaru, er enghraifft, gan nad oes cymaint o alw i ailgartrefu tenantiaid cyfagos y mae'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt, ac mae llai o dai yn wag oherwydd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a fyddai fel arall wedi cael ei ddefnyddio i roi cartref i'r rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn yr achosion hynny sy'n ymwneud â rhybuddion a roddir dan y sail ymddygiad gwrthgymdeithasol ddewisol (Sail 14), byddai'r llys yn gallu ystyried unrhyw ystyriaeth benodol sy'n codi o ganlyniad i Covid-19, ac a oedd difrifoldeb yr achos yn cyfiawnhau troi allan yn amgylchiadau'r pandemig, cyn penderfynu a ddylid cychwyn gorchymyn adennill meddiant ai peidio.

**Llai o bwysau ar wasanaethau** – Byddai llai o bobl yn cael eu troi allan i fod yn ddigartref, neu mewn perygl o gael eu troi allan i fod yn ddigartref, ar adeg pan mae awdurdodau lleol yn llai tebygol o allu ymateb i'r sefyllfaoedd hyn o ganlyniad i'r pwysau mae'r coronafeirws wedi'u rhoi ar wasanaethau. Mae'r pwysau hyn yn cynnwys dod o hyd i gartrefi addas ar gyfer y rheini sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Bydd dargyfeirio adnoddau oddi wrth agweddau hanfodol eraill ar ymateb awdurdodau lleol i'r argyfwng iechyd y cyhoedd a achosir gan Covid-19, o bosibl yn golygu nad yw'r ymateb hwnnw mor effeithiol ("*lleihau'r baich ar staff rheng flaen*"), yn enwedig oherwydd bydd iechyd a gwasanaethau eraill eisoes yn debygol o fod yn wynebu pwysau ychwanegol (er enghraifft, oherwydd achosion o'r ffliw) yn ystod misoedd y gaeaf.

Er ei bod hi'n bosibl y gallai lleihau'r cyfnodau rhybudd sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau digartrefedd yn benodol, at ei gilydd mae'n debygol o leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Y rheswm am hyn yw y bydd troi allan yn gynharach ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleihau'r angen am ymyriad parhaus i fynd i'r afael ag effaith yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r trais domestig ar bobl eraill, er enghraifft (yn achos ymddygiad gwrthgymdeithasol) cymdogion (gan gynnwys gorfod ail-gartrefu'r rheini yr effeithir arnynt waethaf, ond hefyd y mesurau cymorth a diogelwch dwys, gan gynnwys ymyriad yr heddlu, y bydd eu hangen yn fwy cyffredinol yn yr achosion hyn). Gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig, mae proses troi allan gyflymach hefyd yn helpu i atal ymddygiad o'r fath yn y lle cyntaf, gan ddileu'r angen i wasanaethau ymyrryd.

**Mwy o ddiogelwch a llai o bryder -** Bydd y rheini sy'n rhentu eu cartrefi yn dal i elwa o wybod na fyddant yn wynebu'r bygythiad o gael eu troi allan ar fyr rybudd ac mewn rhai achosion byddant yn cael rhybudd hirach

hyd yn oed ar sail statudol. Yn ogystal â mwy o ddiogelwch, bydd hyn yn lleihau lefelau pryder ymysg tenantiaid sydd mewn sawl achos yn cael eu heffeithio'n barod mewn ffyrdd eraill gan ansicrwydd parhaus y coronafeirws ("*cefnogi pobl*"). Mae mantais amlwg i iechyd y cyhoedd drwy leihau pryder yn y boblogaeth gyffredinol, ac mae'n lleihau'r baich ar wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl ("*lleihau''r baich ar staff rheng flaen"*).

Ar yr un pryd, bydd lleihau'r cyfnodau rhybudd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd yn cyfrannu at deimlo'n fwy diogel a theimlo llai o bryder ymysg y rheini y byddai ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus cymydog yn effeithio'n negyddol arnynt.

**Mwy o le i gefnogi unigolion sydd mewn perygl o gael eu troi allan –** Byddai ymestyn y cyfnod perthnasol a chynyddu'r cyfnodau rhybudd ar gyfer y tenantiaethau hynny nad oeddent wedi cael eu cynyddu drwy Reoliadau 2020 yn barod, hefyd yn cyfrannu at roi amser ychwanegol i landlordiaid, tenantiaid ac asiantaethau cymorth gydweithio i ganfod a chytuno ar drefniadau i helpu tenantiaid i reoli eu harian yn well, ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent a allai gronni o ganlyniad i'r coronafeirws (*"cefnogi pobl"*). Yn achos ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig mewn tai cymdeithasol, mae'n debyg y byddid wedi cael ymyriadau sylweddol gan asiantaethau cymorth cyn cyhoeddi rhybudd cymryd meddiant, felly ni fyddai llawer o werth i'r cyfnodau rhybudd estynedig ychwanegol.

4.5 Gyda'r ataliad ar achosion cymryd meddiant yn y llysoedd yn dod i ben ar 20 Medi, mae'r cyfnodau rhybudd estynedig yn bwysicach fyth. Bydd ymestyn y cyfnod perthnasol y mae'r rhybuddion hirach yn berthnasol iddo yn lleihau nifer yr achosion cymryd meddiant yn ystod yr wythnosau a'r misoedd ar ôl codi'r ataliad ac yn helpu i lyfnhau unrhyw don o achosion troi allan a allai godi.

4.6 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn credu y dylid cynyddu cyfnodau rhybudd ar gyfer tenantiaethau statudol a gwarchodedig, tenantiaethau diogel a thenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd o dri mis i chwe mis, ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig. Bydd hyn yn golygu eu bod yn cyd-fynd yn well â'r rheini sy'n ymwneud â thenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr ac yn rhoi lefel debyg o sicrwydd i denantiaid ni waeth pa fath o denantiaeth sydd ganddynt.

4.7 Gan ystyried yr uchod i gyd, mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau penodol canlynol:

Y cyfnod perthnasol

Mae'r cyfnod perthnasol y mae Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn berthnasol iddo yn cael ei ymestyn i 31 Mawrth 2021

Deddf Rhenti 1977

(i) Yn amodol ar (ii) isod, mae cyfnodau rhybudd mewn perthynas â thenantiaethau gwarchodedig a thenantiaethau statudol yn cael eu hymestyn o dri mis i chwe mis;

(ii) Mewn perthynas â rhybuddion sy'n ymwneud ag Achos 2 o Atodlen 15 (ymddygiad sy'n niwsans neu'n boendod i feddianwyr cyfagos, neu os defnyddir tŷ annedd at ddibenion anfoesol neu anghyfreithlon), mae'r cyfnod rhybudd presennol o dri mis yn cael ei atal er mwyn golygu am y tro, bod y trefniadau i roi rhybudd yn dychwelyd i'r rheini a oedd yn berthnasol yn y cyfnod cyn y Coronafeirws.

(iii) Mae Rheoliadau Hysbysiadau Ymadael etc (Gwybodaeth Rhagnodedig) 1988 yn cael eu diwygio fel bod yn rhaid i'r hysbysiad ymadael nodi bod y landlord o'r farn bod yr amgylchiadau yn Achos 2 yn gymwys.

Deddf Tai 1985 ("Deddf 1985")

*Tenantiaethau diogel*

(i) Yn amodol ar (ii) a (iii) isod, mae cyfnodau rhybudd mewn perthynas â thenantiaethau diogel yn cael eu hymestyn o dri mis i chwe mis;

(ii) Mae'r cyfnodau rhybudd presennol o dri mis ar gyfer rhybuddion a gyhoeddir mewn perthynas â seiliau 2 (sail ddisgresiynol am niwsans a phoendod) a 2A (trais domestig) dan Atodlen 2 i Ddeddf 1985, yn cael eu hatal er mwyn golygu am y tro, bod y trefniadau i roi rhybudd yn dychwelyd i'r rheini a nodir yn fersiwn cyn Deddf y Coronafeirws adran 83 o Ddeddf 1985.

(iii) Mae'r cyfnod rhybudd presennol o dri mis ar gyfer rhybuddion a gyhoeddir o dan y sail absoliwt ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol (adran 84A) yn cael ei atal er mwyn golygu am y tro, bod y trefniadau ar gyfer rhoi rhybudd yn dychwelyd i'r rheini a nodir yn fersiwn cyn Deddf y Coronafeirws adran 83ZA o Ddeddf 1985.

(iv) Mae Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Rhybuddion) 1987 yn cael eu diwygio er mwyn i'r ffurflen a ddefnyddir i roi'r rhybudd yn adlewyrchu'r manylion uchod.

Deddf Tai 1988 (“Deddf 1988”)

*Tenantiaethau sicr*

(i) mae’r cyfnod rhybudd presennol o dri mis mewn perthynas â seiliau 7A (sail orfodol am droseddau difrifol/ymddygiad gwrthgymdeithasol) ac 14 (sail ddisgresiynol am niwsans a phoendod), a’r cyfnod rhybudd presennol o chwe mis am sail 14A (trais domestig), yn cael eu hatal er mwyn i’r trefniadau i roi rhybudd ddychwelyd i’r rheini a nodir yn fersiwn cyn Deddf y Coronafeirws adran 8 o Ddeddf 1988;

(ii) Mae pob sail arall a nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 1988 yn parhau gyda’r cyfnod rhybudd presennol o chwe mis.

(iii) Mae Paragraff 5 o Ffurflen 3 o Reoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) 1997 yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r uchod.

*Tenantiaethau byrddaliadol sicr*

(iv) Mae rhybuddion a gyhoeddir o dan adran 21 o Ddeddf 1988 yn dal yn rhwym wrth y cyfnod rhybudd presennol o chwe mis.

Deddf Tai 1996

(i) Yn amodol ar (ii), mae cyfnodau rhybudd mewn perthynas â thenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd yn cael eu hymestyn o dri mis i chwe mis;

(ii) Pan fydd y landlord wedi nodi yn yr hysbysiad achos mai ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig yw’r rheswm dros wneud cais am orchymyn adennill meddiant - hynny yw rheswm sy’n cyfateb i unrhyw un o’r rheini a nodir yn adran 84A(3) i (7) o Ddeddf Tai 1985 neu Seiliau 2 a 2A o Atodlen 2 i’r Ddeddf honno – bydd y cyfnod rhybudd presennol o dri mis yn cael ei gwtogi i bedair wythnos sy’n dechrau ar ddyddiad cyflwyno’r hysbysiad achos.

**5. Ymgynghori**

5.1 O ganlyniad i'r argyfwng, nid yw wedi bod yn bosibl cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statudol i wneud hynny.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae argyfwng COVID-19 a'r brys i baratoi'r Rheoliadau hyn yn golygu nad oedd hi'n bosibl paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol meintioledig. Fodd bynnag, mae'r adran ganlynol yn darparu disgrifiad ansoddol o'r effeithiau tebygol.

### Opsiynau

6.2 Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

*Opsiwn A – Gwneud dim byd*

*Opsiwn B – Ymestyn y cyfnod perthnasol tan 31 Mawrth, gan gadw'r holl gyfnodau rhybudd ar eu hyd presennol*

*Opsiwn C – Ymestyn y cyfnod perthnasol tan 31 Mawrth a chynnal/cynyddu cyfnodau rhybudd ar gyfer pob tenantiaeth i chwe mis ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig a fyddai'n cael eu lleihau'n ôl i'r cyfnodau a oedd yn berthnasol cyn-Covid*

### Costau a Manteision

*Opsiwn A – Gwneud dim byd*

6.3 Os na chaiff dim ei wneud, o 1 Hydref ymlaen, bydd y trefniadau ar gyfer cyfnodau rhybudd yn dychwelyd i'r rheini a oedd yn berthnasol cyn cyflwyno'r diwygiadau dros dro drwy Atodlen 29 i Ddeddf 2020. Bydd hyn yn golygu pethau gwahanol mewn perthynas â thenantiaethau gwahanol, ond ym mhob achos bydd yn golygu bod y cyfnod rhybudd a roddir i denant yn llai nag ydyw ar hyn o bryd.

Er nad oes unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, nac unrhyw gostau o gwbl i landlordiaid, ni fydd yn cyflawni unrhyw rai o'r buddion a nodir yn 4.4 uchod. O ganlyniad i'r olaf, bydd cost sylweddol o bosibl yn y tymor canolig i'r tymor hwy, o ran niwed posibl i iechyd y cyhoedd a'r effaith ariannol ar wasanaethau o ganlyniad i orfod delio â'r rheini sy'n wynebu cael eu troi allan o'u cartrefi a digartrefedd.

*Opsiwn B – Ymestyn y cyfnod perthnasol tan 31 Mawrth, gan gadw'r holl gyfnodau rhybudd ar eu hyd presennol*

6.4 Dan yr opsiwn hwn, byddai rheoliadau'n cael eu gwneud sy'n ymestyn y cyfnod perthnasol tan 31 Mawrth 2021. O ganlyniad, byddai manteision ymestyn y cyfnod pan fydd mesurau diogelu ychwanegol yn cael eu rhoi

ar waith, fel yr amlinellir o dan 4.4, yn cael eu gwireddu am chwe mis ychwanegol (a dros fisoedd y gaeaf pan fydd pwysau ar y gwasanaeth iechyd yn benodol ar eu gwaethaf). Byddai arbedion i awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n rhoi cefnogaeth i unigolion sy'n wynebu cael eu troi allan o’u cartrefi, a hynny ar ffurf lleihad dros dro yn eu llwyth achosion, gan ganiatáu iddynt ailgyfeirio adnoddau.

Wedi dweud hynny, ni fyddai’r manteision a amlinellir yn 4.4 yn cael eu gwireddu mor llawn ag y byddent pe bai cyfnodau rhybudd mewn perthynas â thenantiaethau gwarchodedig a statudol, tenantiaethau diogel, a thenantiaethau rhagarweiniol ac isradd hefyd yn cael eu cynyddu i chwe mis am y cyfnod hwnnw.

Yn fwy arwyddocaol, o dan yr opsiwn hwn, ni fyddid yn gwireddu’r manteision i iechyd y cyhoedd ac i wasanaethau cyhoeddus a nodwyd mewn perthynas â gostyngiad yn y cyfnodau rhybudd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig. Yn hytrach, byddai costau parhaus yn gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd ac effaith ariannol ar wasanaethau sy’n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig.

Disgwylir mai bach iawn fydd y costau gweinyddol a phontio i landlordiaid wrth ymestyn y cyfnod perthnasol. Pan fydd landlord yn ceisio meddiant eiddo ar sail ôl-ddyledion rhent, fodd bynnag, mae costau ychwanegol o bosibl yn deillio o’r oedi ychwanegol cyn y gallai’r landlord gyflwyno hawliad i’r llys a’r ôl-ddyledion a allai gronni yn ystod y cyfnod hwnnw. Ochr yn ochr â hyn mae’r ffaith y bydd yr oedi ychwanegol hwn yn caniatáu mwy o amser i landlordiaid, tenantiaid ac asiantaethau cymorth weithio gyda’i gilydd i bennu a chytuno ar drefniadau i gefnogi tenantiaid i reoli eu harian yn well ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent. Ar ben hynny, mae cynllun Benthyciadau Arbed Tenantiaeth Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wedi’i gynllunio i gefnogi landlordiaid a thenantiaid. Bydd yr arian o’r benthyciadau hyn yn cael ei dalu’n uniongyrchol i landlordiaid, a dylai fod yn help mawr i ysgafnhau unrhyw faich ariannol arnynt o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent.

*Opsiwn C – Ymestyn y cyfnod perthnasol tan 31 Mawrth a chynnal/cynyddu cyfnodau rhybudd ar gyfer pob tenantiaeth i chwe mis ac eithrio’r rheini sy’n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig sy’n cael eu lleihau’n ôl i’r cyfnodau a oedd yn berthnasol cyn-Covid*

6.5 Yn yr un modd ag opsiwn B, o dan yr opsiwn hwn, byddai rheoliadau’n cael eu gwneud i ymestyn y cyfnod perthnasol tan 31 Mawrth 2021. Byddai hyn yn gwireddu’n llawn yr holl fanteision a amlinellir yn 4.4.

Gydag opsiwn B hefyd, disgwylir mai bach iawn fydd costau gweinyddol a phontio yr opsiwn hwn i landlordiaid, ond mae costau ychwanegol posibl yn deillio o’r oedi o dri mis ychwanegol cyn y gallai gyflwyno hawliad i’r llys mewn perthynas ag achosion o ôl-ddyledion rhent. Unwaith eto, fodd bynnag, mae hyn yn cael ei liniaru gan yr amser

ychwanegol a fydd ar gael ar gyfer trefniadau i gynorthwyo tenantiaid i reoli eu harian yn well ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent, a'r Benthyciad Arbed Tenantiaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar. Dylai fod arbedion hefyd i'r rheini sy'n cefnogi unigolion sy'n wynebu cael eu troi allan.

Y prif wahaniaeth o'i gymharu ag opsiwn B, yw nad yw'r effaith negyddol ar lesiant y gymuned yn codi o dan opsiwn C ynghyd â'r costau ariannol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus. Bydd lleihau pob cyfnod rhybudd ar gyfer pob tenantiaeth lle ceir ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig, yn helpu landlordiaid i ddatrys problemau sy'n aml yn gallu achosi llawer iawn o straen a phryder i'r rheini sy'n byw wrth ymyl tenant sy'n ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol. O ganlyniad, ystyrir bod manteision gweithredu'r opsiwn hwn yn amlwg yn fwy na'r costau.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd yr opsiwn hwn yn parhau i leihau cymaint ag sy'n rhesymol, achosion o droi pobl allan o'u cartrefi a symudiadau yng ngoleuni'r pandemig parhaus. Fodd bynnag, mae'r opsiwn hefyd yn cydnabod bod y cyfnodau rhybudd estynedig o dri mis wedi cael effaith negyddol ar y cymdogaethau hynny y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt, ac o bosibl y rheini y mae trais domestig yn effeithio arnynt, ac na ddylai'r effeithiau hyn orfod parhau am gyfnod estynedig pellach oherwydd nad oes modd troi pobl allan yn fwy amserol am resymau ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig.

**Asesu'r Gystadleuaeth**

6.6 Nid yw wedi bod yn bosibl cyflawni asesiad llawn o'r gystadleuaeth mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'r newidiadau'n gymwys i bob landlord sy'n gosod eiddo ar rent fel cartref. Yn sgil gweithredu'n gyffredinol fel hyn, ni ddisgwylir y bydd yn arwain at unrhyw newidiadau i strwythur cyffredinol na maint y sector rhentu preifat. Yn ogystal â hynny, ni ddisgwylir unrhyw newid o ran cystadleurwydd busnesau, y sector gwirfoddol nac elusennau. O'r herwydd, nid oes unrhyw risg o effaith andwyol ar gystadleuaeth.

**Profion ar gyfer Effeithiau Penodol**

6.7 *Cyfle cyfartal*
Nid yw'r darpariaethau hyn yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mewn gwirionedd, mae'n bosibl y bydd ymestyn y cyfnod perthnasol yn arbennig o fuddiol i unigolion agored i niwed a allai, fel arall, fod mewn perygl o gael eu troi allan pan nad ydynt wedi torri telerau eu tenantiaeth ac yn gorfod dod o hyd i lety arall ar fyr rybudd yn ystod yr argyfwng iechyd y cyhoedd presennol. Mae'r rheini sydd â nodweddion

gwarchodedig penodol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn debygol o gael cynrychiolaeth anghyfrannol ymysg y rheini sy'n byw yn y sector rhentu ac felly'n agored i gael eu troi allan o'u cartrefi, ee rhai grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

6.8 *Hawliau plant*
Nid nodwyd unrhyw wrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes disgwyl i unrhyw effeithiau andwyol ar blant a phobl ifanc godi o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn. Ac ystyried bod cyfran sylweddol o'r aelwydydd yn y sector rhentu yn deuluoedd â phlant dibynnol, mae'n bosibl y bydd ymestyn y cyfnod perthnasol yn helpu i leihau'r amharu a fyddai ar blant yn sgil symud tŷ – gan gynnwys gorfod newid ysgol o bosibl – drwy roi rhagor o amser i rieni ddod o hyd i lety arall addas gerllaw, neu ddigon o amser i wneud trefniadau ar gyfer symud yn bellach i ffwrdd lle bo hynny'n angenrheidiol neu'n ddymunol.

6.9 *Y Gymraeg*
Ni ddylai'r Rheoliadau hyn achosi unrhyw effeithiau andwyol o ran llesiant diwylliannol neu'r Gymraeg.

6.10 *Llywodraeth Leol*
Mae'n bosibl y caiff y Rheoliadau hyn effaith gadarnhaol gyfyngedig ar awdurdodau lleol os bydd y galw ar wasanaethau digartrefedd mewn argyfwng yn lleihau oherwydd bod llai o rybuddion adennill meddiant yn cael eu cyflwyno, a hefyd oherwydd bod cyfnod rhybudd hwy yn rhoi rhagor o amser i'r rheini sy'n cael rhybudd adennill meddiant ddod o hyd i lety arall eu hunain heb droi at wasanaethau digartrefedd.

6.11 *Effeithiau economaidd*
Fel yr amlinellir uchod, er y byddai landlordiaid yn dal yn gallu adennill meddiant os bydd tenant yn peidio â thalu rhent neu'n torri telerau ei denantiaeth fel arall, a bydd y sefydliad sydd wedi rhoi'r benthyciad yn dal yn gallu adennill meddiant os bydd y landlord yn peidio â thalu'r morgais, ond mae costau ychwanegol posibl iddynt yn deillio o ganlyniad i gyfnodau rhybudd hwy. Fodd bynnag, gallai'r amser ychwanegol i landlordiaid, tenantiaid ac asiantaethau cymorth weithio gyda'i gilydd i bennu a chytuno ar drefniadau i gefnogi tenantiaid i reoli eu harian yn well ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent wrthbwyso'r effaith ariannol. Felly, dylai unrhyw effaith economaidd negyddol fod yn fach iawn. Mewn termau economaidd mwy cyffredinol, efallai y bydd y sicrwydd deiliadaeth uwch a ddarperir yn sgil y cyfnodau rhybudd estynedig yn cael effeithiau buddiol. Er enghraifft, gallai hyn sicrhau bod tenantiaid mewn amgylchiadau mwy sefydlog, a'i gwneud yn haws iddynt gael gwaith neu i ddal gafael arno.

6.12 *Effaith ar Breifatrwydd*
Nid yw'r Rheoliadau hyn yn creu unrhyw ofynion newydd mewn cysylltiad â phreifatrwydd neu rannu gwybodaeth.

6.13 *Prawfesur gwledig*
Bydd y Rheoliadau hyn yn berthnasol i gartrefi sy'n cael eu rhentu gan bobl mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. O ganlyniad, ni fydd yr effeithiau – na'r manteision – yn wahanol rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol.

6.14 *Iechyd a llesiant*
Yn ogystal â'r manteision iechyd y cyhoedd ehangach a fyddai'n deillio o leihau nifer yr aelwydydd sy'n gorfod adleoli yn ystod y pandemig presennol. Cydnabyddir hefyd bod tai diogel o ansawdd da yn ffactor pwysig o ran iechyd a llesiant cyffredinol unigolion. Felly, dylai'r Rheoliadau hyn gefnogi iechyd a llesiant tenantiaid unigol drwy roi sicrwydd na fyddant yn cael eu troi allan ar fyr rybudd yn ystod y pandemig.

6.15 *Effaith ar y System Gyfiawnder*
Disgwylir i effaith net y newidiadau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth hon fod yn niwtral neu hyd yn oed yn bositif ar y sail y byddai caniatáu mwy o amser i denantiaid ddatrys problemau ariannol yn arwain at lai o achosion ôl-ddyledion rhent yn mynd i'r llys.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/3013/20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Medi 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Amddiffyn rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwyf yn eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod o'r diwrnod gosod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau wedi'i atodi er gwybodaeth.
Mae'r Rheoliadau'n diwygio paragraffau 1(1), 2, 3, 6, 8, 9, 10 ac 11 o Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") mewn perthynas â'r cyfnod rhybudd y mae'n rhaid i landlordiaid ei roi i denant pan fydd y landlord wedi rhoi tenantiaeth sy'n cael ei llywodraethu gan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 a 1996. Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud yn cynnwys ymestyn y cyfnod perthnasol y mae Atodlen 29 yn berthnasol iddo tan 31 Mawrth 2021.

Dyma fydd effaith y newidiadau hyn:

- ymestyn, am chwe mis arall, y cyfnod pan fydd angen i landlordiaid, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, roi mwy o rybudd i denantiaid cyn cychwyn achos cymryd meddiant yn y llysoedd;
- sicrhau bod angen chwe mis o rybudd mewn perthynas â phob tenantiaeth warchodedig a statudol, pob tenantiaeth ddiogel, pob tenantiaeth ragarweiniol ac isradd, a phob tenantiaeth sicr a thenantiaeth fyrddaliadol sicr, ac eithrio pan fydd y rheswm dros y rhybudd yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- dychwelyd at y gofynion cyn-Covid 19 o ran cyfnod rhybudd ar gyfer cyflwyno rhybuddion lle mae'r rheswm dros roi'r rhybudd yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig.

Mae angen brys o hyd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartrefi, er mwyn parhau i gyfyngu ar y Coronafeirws, lleihau'r baich ar staff rheng flaen, a sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth priodol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud cyfraniad pwysig at ddiwallu'r angen brys hwnnw. Er mwyn sicrhau bod darpariaethau Atodlen 29 yn dal yn berthnasol ar ôl 30 Medi, daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Medi 2020.

Oherwydd yr amserlen frys, ni chafwyd cyfle i ymgynghori'n ystyrlon nac ymgymryd ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Serch hynny, paratowyd Memorandwm Esboniadol sydd wedi'i atodi er gwybodaeth. Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Rheoliadau wedi cael eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Siambrau; Julian Lake, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth a John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Defnyddio pwerau o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020: Tenantiaethau preswyl – amddiffyn tenantiaid rhag cael eu troi allan** |
| **DYDDIAD** | **28 Medi 2020** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol** |

Mae Deddf y Coronafeirws 2020 ('Deddf 2020') yn cynnwys ystod o bwerau i Weinidogion Cymru ymateb i ledaeniad y feirws, a'i reoli. Mewn perthynas â chyfraith tai, mae adran 81 ac Atodlen 29 i Ddeddf 2020 yn oedi pryd mae landlord yn cael troi tenant allan drwy gynyddu'r cyfnod rhybudd y mae'n rhaid ei roi dros dro cyn gallu cyflwyno hawliad meddiant gerbron y llys.

Mae'r Atodlen yn berthnasol i bob landlord sydd wedi rhoi tenantiaeth o dan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 ac 1996.  O ran rhybuddion a gyflwynir mewn cysylltiad â thenantiaethau gwarchodedig a statudol, tenantiaethau diogel, tenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd, rhaid i'r cyfnod rhybudd fod yn dri mis. Roedd Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr) (Diwygio) (Cymru) 2020, a ddaeth i rym ar 24 Gorffennaf, yn diwygio Atodlen 26 er mwyn mynnu ei bod yn rhaid rhoi chwe mis o rybudd mewn perthynas â thenantiaethau sicr a byrddaliadol sicr (ac eithrio ar gyfer rhybuddion sy'n nodi Seiliau 7A ac 14 sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a oedd yn aros yn dri mis).

Mae Atodlen 29 yn berthnasol i rybuddion a gyflwynir yn ystod y cyfnod perthnasol, sy'n dod i ben ar 30 Medi. Caiff Gweinidogion Cymru ymestyn y cyfnod perthnasol y tu hwnt i 30 Medi 2020, gan ddefnyddio'r pŵer a nodir ym mharagraff 1(2) Atodlen 29.

Mae paragraff 13(1) Atodlen 29 i Ddeddf 2020 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (fel yr "awdurdod cenedlaethol perthnasol") i ddiwygio Atodlen 29 i newid cyfeiriad at dri mis yn gyfeiriad at chwe mis, neu'n gyfeiriad at unrhyw gyfnod penodol arall sy'n llai na chwe mis.

Mae adran 88 o Ddeddf 2020 yn darparu pŵer i 'awdurdodau cenedlaethol' atal dros dro ac adfer darpariaethau Deddf y Coronafeirws. Mae adran 88(9) yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn perthynas â darpariaeth os yw'n rhychwantu Cymru a Lloegr ac os yw'n gymwys o ran Cymru, ac y byddai'r ddarpariaeth fel arall o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Yn ystod y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Deddf 2020, a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2020, roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i ddarparu datganiad cyhoeddus ar bob defnydd o'r pwerau o dan y Ddeddf. Gallaf gadarnhau'n awr fy mod, fel y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, wedi gwneud Rheoliadau o dan adran 88(1) a pharagraffau 1(2) ac 13(1) o Atodlen 29 i Ddeddf 2020. Mae'r Rheoliadau'n ymestyn y cyfnod perthnasol y bydd darpariaethau Atodlen 29 yn berthnasol iddo tan 31 Mawrth 2021. Ar ben hynny, mae'r Rheoliadau'n ymestyn y cyfnod rhybudd y mae'n rhaid ei roi ar gyfer rhybuddion a roddir mewn perthynas â thenantiaethau gwarchodedig a statudol, tenantiaethau diogel a thenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd o dri mis i chwe mis. Mae hyn yn golygu bod y tenantiaethau hynny'n cyd-fynd â'r cyfnod rhybudd y mae'n rhaid ei roi mewn perthynas â thenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr. Mewn perthynas â phob tenantiaeth fodd bynnag, ar gyfer rhybuddion a roddir oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig, bydd y gofynion yn dychwelyd i'r rheini a oedd yn berthnasol cyn Deddf y Coronafeirws 2020.

Diben y newidiadau hyn yw sicrhau yn ystod yr argyfwng cyhoeddus parhaus bod landlordiaid yn parhau i roi rhagor o rybudd i denantiaid sydd mewn perygl o gael eu troi allan o eiddo rhent cyn i landlordiaid allu cychwyn achos adennill meddiant. Yr effaith fydd oedi cyn troi tenantiaid allan sy'n golygu: bydd llai o bobl yn wynebu cael eu troi allan i fod yn ddigartref a hithau'n gyfnod pan fydd awdurdodau lleol yn llai tebygol o allu ymateb i'r sefyllfaoedd hyn; bydd y rheini sy'n rhentu eu cartrefi'n elwa ar fwy o ddiogelwch a llai o bryder; a bydd unigolion sydd mewn perygl o gael eu troi allan yn cael mwy o amser i ofyn am gymorth i ddatrys unrhyw broblemau.

Bydd y newid i'r cyfnodau rhybudd sydd yn y Rheoliadau'n berthnasol i rybuddion a gyflwynir ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym – sef 29 Medi 2020 – neu ar ôl hynny. Yn yr achos hwn ni ddilynwyd y confensiwn na ddylai Rheoliadau ddod i rym am o leiaf 21 diwrnod ar ôl eu gosod. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen brys i ddarparu gwell sicrwydd deiliadaeth yn ystod y cyfnod hwn, gan gyfrannu at y mesurau sydd eisoes ar waith i ymateb i'r feirws.

Byddaf yn adolygu darpariaethau Atodlen 29 i Ddeddf 2020 eto ym mis Rhagfyr 2020. Diben yr adolygiad hwnnw fydd ystyried a yw'r darpariaethau hynny'n dal yn angenrheidiol ac a ydynt wedi'u drafftio'n briodol yng ngoleuni'r pandemig a'i effeithiau fel y byddant yn ymddangos bryd hynny.

Gellir gweld copi o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â nhw yma ac yma

# SL(5)628 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru i ynysu am gyfnod i'w bennu'n unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i rai eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi'u hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt er mwyn hepgor Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Gwlad Pwyl a Thwrci o'r rhestr.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall technegol a nodwyd yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020, a ganfuwyd gan y Pwyllgor hwn wrth iddo graffu ar y Rheoliadau hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 2 Hydref 2020.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn cadarnhau fel a ganlyn:

> *"Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Hydref 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1080 (Cy. 243)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Gwlad Pwyl a Thwrci o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Yn Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn, mae rheoliad 4 yn cywiro gwall technegol a nodwyd yn y testun Cymraeg yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1080 (Cy. 243)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 2.09 p.m. ar 2 Hydref 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 3.50 p.m. ar 2 Hydref 2020* |
| *Yn dod i rym* | *am 4.00 a.m. ar 3 Hydref 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 3 Hydref 2020.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**).

## RHAN 2

## Diwygiadau i'r rhestr o wledydd esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Hepgor gwledydd a thiriogaethau o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Bonaire, Sint Eustatius a Saba"

"Gwlad Pwyl"

"Twrci".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 3 Hydref 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 3 Hydref 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

---

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226) ac O.S 2020/1042 (Cy. 231).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 3

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

**Diwygio pennawd rheoliad 3**

**4.** Yn Rhan 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020([1]), yn y testun Cymraeg, ym mhennawd rheoliad 3, yn lle "rheoliad 24" rhodder "rheoliad 2".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Am 2.09 p.m. ar 2 Hydref 2020

(**1**) O.S. 2020/1042 (Cy. 231).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

2 Hydref 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy’n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo’n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Yn dod i rym*

Yn unol ag adrannau 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau wedi dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn yn y Senedd.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae’r Llywodraeth o’r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r mannau hynny – yn fwyaf diweddar ar 26 Medi 2020.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i lawr oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws yn rhai o'r ynysoedd yn y Caribî sy'n perthyn i'r Iseldiroedd, sef Bonaire, St Eustatius a Saba, yn ogystal â Gwlad Pwyl a Thwrci, wedi codi. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cyflwyno gofynion ynysu yn awr ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o rai o'r ynysoedd yn y Caribî sy'n perthyn i'r Iseldiroedd, sef Bonaire, St Eustatius a Saba, yn ogystal â Gwlad Pwyl a Thwrci.

Bydd y diwygiadau yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd neu'r tiriogaethau hyn am 4:00am neu wedi hynny ar 3 Hydref 2020. Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn, yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/3268/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd CF99 1SN

2 Hydref 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er eich gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i dynnu tiriogaethau'r Iseldiroedd yn y Caribî, sef Bonaire, Sint Eustatius a Saba, ynghyd â Gwlad Pwyl a Thwrci, o'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd a'r tiriogaethau hynny.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)** |
| **DYDDIAD** | **1 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi gwneud darpariaeth i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig o wledydd tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i ynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i ynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth teithwyr.

Ers hynny, mae'r rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gydganolfan Bioddiogelwch ac rwyf wedi penderfynu y bydd Bonaire, Saba and St Eustatius, Gwlad Pwyl a Twrci yn cael eu tynnu o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Yfory, byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a ddaw i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 3 Hydref.

# SL(5)625 – Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 6(5), 10(6), 11(5), 15(1), 16(1), 17(1), 17(3), 18(2), 28(7) a 123(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"), a pharagraffau 5, 6 a 9 o Atodlen 1 iddi. Daeth pob un o'r darpariaethau hyn, ac eithrio adran 123(1)[1], i rym ar 29 Medi 2020[2].

Disgwylir i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Mawrth 2021.

Mae'r Rheoliadau yn esemptio mangreoedd penodol o'r gofyniad i fod yn ddi-fwg o dan Ddeddf 2017 ac yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff cerbydau eu trin fel rhai di-fwg. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch arddangos arwyddion a darpariaeth sy'n ymwneud â gorfodi. Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn:

- diffinio "caeedig", "sylweddol gaeedig" a "ddim yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig" – o dan Ddeddf 2017, gosodir y gofyniad i fod yn ddi-fwg mewn perthynas â gweithleoedd a mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig;
- nodi nad yw mangreoedd a ddefnyddir i unrhyw raddau fel anheddau i'w trin fel rhai di-fwg, oni bai y cânt eu defnyddio fel lleoedd gwaith hefyd;
- nodi nad yw'n ofynnol i lety gwyliau na llety dros dro fod yn ddi-fwg, er bod y ddarpariaeth hon yn peidio â chael effaith ar 1 Mawrth 2022;
- darparu, yn ddarostyngedig i amodau penodol, y caniateir dynodi ystafelloedd mewn cartrefi gofal i oedolion, hosbisau i oedolion a chyfleusterau ymchwil a phrofi fel ystafelloedd y caniateir ysmygu ynddynt;
- darparu, yn ddarostyngedig i amodau penodol, y caniateir dynodi ystafelloedd mewn unedau iechyd meddwl fel ystafelloedd y caniateir ysmygu ynddynt, er bod y ddarpariaeth hon yn peidio â chael effaith ar 1 Medi 2022;
- darparu y caniateir dynodi ystafelloedd gwely mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau sy'n bodloni amodau penodol fel ystafelloedd y caniateir ysmygu ynddynt, er bod y ddarpariaeth hon yn peidio â chael effaith ar 1 Mawrth 2022;
- darparu ar gyfer tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus i fod yn ddi-fwg ac ar gyfer amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir dynodi

[1] Daeth adran 123 i rym ar 3 Gorffennaf 2017, pan gafodd Deddf 2017 y Cydsyniad Brenhinol.
[2] Gweler Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 5) 2020.

ardal ar dir ysgol sy'n darparu llety preswyl ac ar dir ysbyty fel ardal y caniateir ysmygu ynddi;

- ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n rheoli neu'n ymwneud â rheoli mangre ddi-fwg gymryd camau rhesymol i beri i berson sy'n ysmygu yno beidio ag ysmygu;
- ei gwneud yn ofynnol i arwyddion gael eu harddangos mewn mangreoedd sy'n weithleoedd neu ar agor i'r cyhoedd, tiroedd ysgolion, tiroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus, a phennu eu cynnwys;
- darparu y caiff cerbydau penodol eu trin fel rhai di-fwg. Mae cerbydau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ystod gwaith gan fwy nag un person neu i gludo aelodau o'r cyhoedd yn ddi-fwg drwy'r amser. Mae cerbydau eraill nad ydynt yn ddi-fwg drwy'r amser yn ddi-fwg dim ond pan fydd person yn y cerbyd yn cael nwyddau neu wasanaethau gan berson arall sydd hefyd yn y cerbyd a phan fydd plentyn yn y cerbyd (yn ddarostyngedig i esemptiad ar gyfer carafannau);
- darparu bod dyletswydd ar yrrwr, gweithredwr neu berson sy'n ymwneud â rheoli cerbyd di-fwg i atal ysmygu yn y cerbyd hwnnw;
- ei gwneud yn ofynnol i arwyddion gael eu harddangos mewn cerbydau di-fwg penodol a phennu eu cynnwys.
- dynodi prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu fel awdurdod gorfodi mewn perthynas â cherbydau sy'n ddi-fwg yn rhinwedd eu defnyddio at ddibenion cymdeithasol neu ddomestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol. Mae awdurdodau lleol eisoes yn awdurdodau gorfodi o dan adran 18 o Ddeddf 2017 mewn perthynas â mangreoedd, lleoedd a cherbydau yn eu hardaloedd;
- darparu ar gyfer symiau cosb benodedig a symiau gostyngol mewn perthynas â throseddau penodol.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu asesiad na chyfiawnhad nac wedi cyfeirio at hawliau dynol ym Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y Rheoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("CEHD"), sef yr hawl i fywyd preifat. Er mai hawl amodol yw hon, gan ei bod yn hawl y caniateir ymyrryd â hi er mwyn diogelu hawliau buddiant arall neu er budd y cyhoedd yn ehangach, e.e. ar sail iechyd y cyhoedd, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion ei hasesiad neu, fel arall, beryglu torri'r hawl ddynol hon.

Er bod y gyfraith yn caniatáu ymyrryd â'r hawliau o dan Erthygl 8, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nodi bod y newid yn y gyfraith:

- yn gyfiawn ar sail budd y cyhoedd;
- yn gymesur â'r nod a fwriedir er budd y cyhoedd;
- yn cael ei wneud yn unol â chyfraith ddomestig a rhyngwladol, a chyda sicrwydd cyfreithiol.

Mae adran 7 o Ddeddf 2017 yn darparu bod mangreoedd yng Nghymru yn ddi-fwg os ydynt yn weithleoedd, sy'n cynnwys anheddau penodol. Mae'r Rheoliadau yn dileu esemptiadau ar gyfer mathau penodol o weithgareddau gwaith o'r asesiad o ran a yw annedd yn weithle at ddibenion adran 7. Effaith dileu'r esemptiadau hyn yw y caiff yr holl fathau o weithgareddau gwaith eu cynnwys wrth asesu a yw annedd yn weithle ac, felly, bydd yn ofynnol i fwy o'r anheddau hyn fod yn ddi-fwg.

Yn yr un modd, mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu y bydd cerbydau sy'n eiddo preifat yn ddi-fwg pan fydd plentyn yn y cerbyd.

Yn y ddwy sefyllfa hyn, mae'r Rheoliadau yn effeithio ar sut y mae pobl yn ymddwyn yn eu heiddo preifat, boed yn gartref iddynt neu'n gerbyd o'u heiddo.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae o'r farn bod y rheoliadau hyn yn cydymffurfio ag Erthygl 8 o'r CEHD.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae croesgyfeiriadau yn y Rheoliadau at ddarpariaethau Deddf 2017 nad ydynt mewn grym eto.

- Mae'r Rheoliadau yn cyfeirio at adrannau 5, 7, 8 a 12 o Ddeddf 2017. Mae adran 5 yn ei gwneud yn drosedd ysmygu mewn mangreoedd neu gerbydau di-fwg. Mae adran 7 yn gwneud gweithleoedd yng Nghymru yn ddi-fwg. Mae adran 8 yn gwneud mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd yn ddi-fwg. Mae adran 12 yn gwneud meysydd chwarae yng Nghymru yn ddi-fwg. Nid oes dim un o adrannau 5, 7, 8 na 12 mewn grym hyd yn hyn.

- Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyfeirio at adrannau 6, 10, 11 a 17 o Ddeddf 2017, a pharagraffau penodol o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno. Daeth adrannau 6, 10, 11 a 17 a’r paragraffau perthnasol o Atodlen 1 i rym yn rhannol ar 29 Medi 2020, ond dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i'r Rheoliadau gael eu gwneud. Mae’n werth nodi bod adran 6 yn ei gwneud yn drosedd i'r rhai sy'n gyfrifol am y mangreoedd perthnasol fethu ag atal ysmygu mewn ardal ddi-fwg. Mae adran 10 yn gwneud tiroedd ysgolion yng Nghymru yn ddi-fwg ac mae adran 11 yn gwneud tiroedd ysbytai yng Nghymru yn ddi-fwg. Mae adran 17 yn ei gwneud yn ofynnol i arwyddion gael eu harddangos mewn mangreoedd di-fwg. Mae’r paragraffau perthnasol o Atodlen 1 yn ymdrin â chosbau penodedig. Nid yw'r elfennau hyn o adrannau 6, 10, 11 a 17 ac Atodlen 1 mewn grym eto.
- Mae'r Nodyn Esboniadol yn cadarnhau bod y term “ysmygu” yn y Rheoliadau i'w ddarllen yn unol ag adran 4 (Ysmygu) o Ddeddf 2017. Nid yw adran 4 mewn grym eto.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod yn bwriadu dod â'r darpariaethau y cyfeirir atynt uchod i rym ar 1 Mawrth 2021 neu cyn hynny.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r UE yn unol â gofynion Cyfarwyddeb Safonau a Rheoliadau Technegol 2015/1535/EC. Mae hyn o ganlyniad i'r gofynion technegol yn y Rheoliadau o ran gosod a ffurf arwyddion dim ysmygu (Rheoliadau 13, 14 a 18). Roedd y broses hon yn gofyn cyfnod segur tri mis pan arhosodd y Rheoliadau ar ffurf ddrafft ac ni chawsant eu gosod gerbron y Senedd. Cychwynnodd y cyfnod segur ar 23 Mehefin 2020 a daeth i ben ar 24 Medi 2020. Ni chafwyd gwrthwynebiadau gan yr Aelod-wladwriaethau i Reoliadau 2020 ar ffurf ddrafft.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd rhinweddau cyntaf a’r ail bwynt adrodd rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**6 Hydref 2020**

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2020 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(**1**).

Mae Pennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf")(**2**) yn gwneud darpariaeth sy'n cyfyngu ar ysmygu mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus (ymhlith mannau eraill). Mae "ysmygu" i'w ddarllen yn unol ag adran 4 o'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn esemptio mangreoedd penodol o'r gofyniad i fod yn ddi-fwg o dan y Ddeddf ac maent yn nodi'r amgylchiadau y mae cerbydau i'w trin fel pe baent yn ddi-fwg odanynt. Mae i "mangre" yr ystyr a roddir gan adran 28 o'r Ddeddf. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch arddangos arwyddion a darpariaeth sy'n ymwneud â gorfodi.

Mae rheoliad 3 yn diffinio "caeedig" a "sylweddol gaeedig". O dan y Ddeddf, gosodir y gofyniad i fod yn ddi-fwg mewn perthynas â gweithleoedd a mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.

Mae rheoliad 4(1) yn darparu nad yw mangreoedd a ddefnyddir i unrhyw raddau fel anheddau i'w trin fel pe baent yn ddi-fwg oni bai bod rheoliad 4(2) neu 4(5)

---

(**1**) O.S. 2007/787 (Cy. 68) a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/1363 (Cy. 133), O.S. 2016/118 (Cy. 55) ac O.S. 2018/48 (Cy. 15).
(**2**) 2017 dccc 2.

yn gymwys (anheddau penodol a ddefnyddir fel mannau gwaith).

Mae rheoliad 5 yn darparu bod llety gwyliau a llety dros dro i'w trin fel pe na baent yn ddi-fwg. Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fangreoedd nad ydynt yn anheddau (oherwydd bod unrhyw fangreoedd o'r fath yn dod o fewn rheoliad 4). Mae'r rheoliad hwn yn peidio â chael effaith 12 mis ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Mae rheoliadau 6 i 9 yn darparu y caniateir i ystafelloedd mewn cartrefi gofal i oedolion, hosbisau i oedolion (rheoliad 6), cyfleusterau ymchwilio a phrofi (rheoliad 7) ac unedau iechyd meddwl (rheoliad 8) ac ystafelloedd gwely mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau (rheoliad 9) sy'n bodloni amodau penodol gael eu dynodi yn ystafelloedd y caniateir ysmygu ynddynt. Ond mae dynodiad o ystafell mewn uned iechyd meddwl yn peidio â chael effaith 18 mis ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ac mae dynodiad o ystafell wely mewn gwesty, tŷ llety, tafarn, hostel a chlwb aelodau yn peidio â chael effaith 12 mis ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym. Mae adrannau 10 i 12 o'r Ddeddf yn darparu i dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus fod yn ddi-fwg. Mae rheoliadau 10 ac 11 yn darparu'r amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y caniateir i ardal yn nhir ysgol sy'n darparu llety preswyl ac yn nhir ysbyty gael ei dynodi yn ardal y caniateir ysmygu ynddi.

Mae rheoliad 12 yn darparu bod rhaid i berson a chanddo reolaeth dros fangre ddi-fwg neu sy'n ymwneud â rheoli mangre ddi-fwg gymryd camau rhesymol i beri i berson sy'n ysmygu yno beidio ag ysmygu.

Mae rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i arwyddion gael eu harddangos mewn mangreoedd sy'n weithleoedd neu sydd ar agor i'r cyhoedd ac mae'n pennu eu cynnwys.

Mae rheoliad 14 yn ei gwneud yn ofynnol i arwyddion gael eu harddangos yn nhir ysgolion, yn nhir ysbytai ac mewn meysydd chwarae cyhoeddus ac mae'n pennu eu cynnwys.

Mae rheoliad 15 yn darparu bod cerbydau penodol yn cael eu trin fel pe baent yn ddi-fwg. Mae cerbydau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghwrs gwaith gan fwy nag un person neu i gludo aelodau o'r cyhoedd yn ddi-fwg drwy'r amser. Nid yw cerbydau eraill nad ydynt yn ddi-fwg drwy'r amser ond yn ddi-fwg pan yw person yn y cerbyd yn cael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth berson arall sydd hefyd yn y cerbyd a phan yw plentyn yn y cerbyd. Mae rheoliad 16 yn darparu esemptiad o hyn. Yn y Rheoliadau hyn, mae "plentyn" yn berson o dan 18 oed (gweler adran 28 o'r Ddeddf).

Mae rheoliad 17 yn darparu bod gan yrrwr, gweithredwr neu berson sy'n ymwneud â rheoli cerbyd di-fwg ddyletswydd i atal ysmygu yn y cerbyd hwnnw.

Mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol i arwyddion gael eu harddangos mewn cerbydau di-fwg penodol ac mae'n pennu eu cynnwys.

Mae rheoliad 19 yn dynodi prif swyddog heddlu ardal heddlu yn awdurdod gorfodi mewn perthynas â cherbydau sy'n ddi-fwg yn rhinwedd eu defnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol. Mae awdurdodau lleol eisoes yn awdurdodau gorfodi o dan adran 18 o'r Ddeddf mewn perthynas â mangreoedd, mannau a cherbydau yn eu hardaloedd.

Mae rheoliad 20 yn darparu symiau'r gosb benodedig mewn cysylltiad â throseddau penodol, ac mae rheoliad 21 yn darparu'r symiau cosb gostyngol mewn cysylltiad â throseddau penodol. Mae rheoliad 22 yn cyflwyno ffurflen hysbysiadau cosb benodedig y mae rhaid i'r awdurdodau gorfodi ei defnyddio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: [Yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd], Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2020 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(5), 10(6), 11(5), 15(1), 16(1), 17(1), 17(3), 18(2), 28(7) a 123(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**) a pharagraffau 5, 6 a 9 o Atodlen 1 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 123(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(**2**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

## RHAN 1

### CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2021.

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 2017 dccc 2.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 123 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

nid yw “cerbyd” (“*vehicle*”) yn cynnwys—

(a) awyren, na

(b) llong neu hofrenfad y gellid gwneud rheoliadau mewn perthynas ag ef o dan adran 85 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**1**) gan gynnwys yr adran honno fel y’i cymhwysir gan unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 1(1)(h) o Ddeddf Hofrenfadau 1968(**2**);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag yn y Ddeddf.

### Ystyr “caeedig”, “sylweddol gaeedig” ac “nad yw’n gaeedig nac yn sylweddol gaeedig”

**3.**—(1) At ddibenion Pennod 1 o Ran 3 o’r Ddeddf—

(a) mae mangre, neu ran o fangre, yn gaeedig—

(i) os oes ganddi nenfwd neu do, a

(ii) ac eithrio drysau, ffenestri a choridorau, os yw’n gwbl gaeedig naill ai’n barhaol neu dros dro;

(b) mae cerbyd, neu ran o gerbyd, yn gaeedig—

(i) os oes ganddo do, a

(ii) ac eithrio drysau a ffenestri, os yw’n gwbl gaeedig naill ai’n barhaol neu dros dro.

(2) At ddibenion Pennod 1 o Ran 3 o’r Ddeddf, mae mangre, neu ran o fangre, yn sylweddol gaeedig—

(a) os oes ganddi nenfwd neu do, a

(b) os yw cyfanswm arwynebedd unrhyw agoriadau yn y waliau yn llai na hanner arwynebedd y waliau, gan gynnwys strwythurau eraill sy’n cyflawni diben waliau ac yn ffurfio perimedr y fangre.

(3) Wrth gyfrifo cyfanswm arwynebedd unrhyw agoriadau at ddibenion paragraff (2)(b), nid yw agoriadau y mae drysau, ffenestri neu ffitiadau eraill ynddynt y gellir eu hagor a’u cau i’w hystyried.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae “to” yn cynnwys unrhyw strwythur gosodedig neu symudol neu ddyfais osodedig neu symudol sy’n gallu gorchuddio’r cyfan neu ran o’r fangre neu’r cerbyd fel to.

---

(**1**) 1995 p. 21. Diwygiwyd adran 85 gan adran 2 o Ddeddf Tiriogaethau Prydeinig Tramor 2002 (p. 8) a chan adran 8 o Ddeddf Llongau Masnach a Diogelwch Morol 1997 (p. 28).

(**2**) 1968 p. 59. Diwygiwyd adran 1(1)(h) gan baragraff 1(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 a chan adran 152 o Ddeddf y Goruchaf Lys 1981 (p. 54).

(5) At ddibenion Pennod 1 o Ran 3 o'r Ddeddf, nid yw mangre neu ran o fangre "yn gaeedig nac yn sylweddol gaeedig" os nad yw'n gaeedig nac yn sylweddol gaeedig o fewn ystyr paragraffau (1) a (2).

# RHAN 2

## MANGREOEDD DI-FWG: ESEMPTIADAU AC ARWYDDION

## PENNOD 1

### Esemptiadau

**Anheddau: esemptiadau**

**4.**—(1) Mae mangre a ddefnyddir i unrhyw raddau fel annedd, neu ran o fangre o'r fath, a fyddai (oni bai am y rheoliad hwn) yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 7 neu 8 o'r Ddeddf i'w thrin fel pe na bai'n ddi-fwg oni bai bod y fangre yn dod o fewn paragraff (2) neu (5).

(2) Mae mangreoedd yn dod o fewn y paragraff hwn os ydynt yn ddi-fwg oherwydd eu bod yn weithleoedd o fewn adran 7(2)(a) o'r Ddeddf a bod naill ai amod 1 neu 2 wedi ei fodloni.

(3) Mae amod 1 wedi ei fodloni os nad yw un neu ragor o'r personau sy'n gweithio yn y fangre yn byw yn yr annedd.

(4) Mae amod 2 wedi ei fodloni os yw'r personau sy'n gweithio yn y fangre i gyd yn byw yn yr annedd ac y gallai aelodau o'r cyhoedd fynd i'r annedd at ddibenion ceisio neu gael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth berson sy'n gweithio yn yr annedd.

(5) Mae mangreoedd yn dod o fewn y paragraff hwn os ydynt yn ddi-fwg oherwydd eu bod yn weithleoedd o fewn adran 7(2)(b) o'r Ddeddf.

**Llety gwyliau neu lety dros dro: esemptiadau**

**5.**—(1) Mae mangreoedd—

(a) nas defnyddir i unrhyw raddau fel annedd, a

(b) sy'n llety preswyl hunangynhwysol a fyddai (oni bai am y rheoliad hwn) yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 7 neu 8 o'r Ddeddf,

i'w trin fel pe na baent yn ddi-fwg ar unrhyw adeg y defnyddir y mangreoedd fel llety at ddibenion gwyliau neu at ddibenion dros dro.

(2) Mae paragraff (1) yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

**Cartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion: ystafelloedd dynodedig**

**6.**—(1) Mae ystafell mewn mangre sy'n gartref gofal i oedolion neu'n hosbis i oedolion a fyddai (oni bai am y rheoliad hwn) yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 7 neu 8 o'r Ddeddf i'w thrin fel pe na bai'n ddi-fwg os yw amodau 1 a 2 wedi eu bodloni.

(2) Amod 1 yw bod y person a chanddo ofal am y fangre—

(a) yn dynodi'r ystafell yn un y caniateir i breswylwyr y cartref gofal i oedolion neu'r hosbis i oedolion sy'n 18 oed neu'n hŷn (a dim personau eraill) ysmygu ynddi, a

(b) yn cadw cofnod o bob ystafell sydd wedi ei dynodi felly.

(3) Amod 2 yw—

(a) bod gan yr ystafell nenfwd a'i bod, ac eithrio drysau a ffenestri, yn gwbl gaeedig ar bob ochr gan waliau solet o'r llawr i'r nenfwd,

(b) nad oes gan yr ystafell system awyru sy'n awyru i ran ddi-fwg o'r fangre,

(c) nad oes gan yr ystafell ddrysau nad ydynt yn cau'n fecanyddol yn union ar ôl eu defnyddio os ydynt yn agor i ardaloedd di-fwg, a

(d) bod yr ystafell wedi ei marcio'n glir yn ystafell y caniateir ysmygu ynddi.

(4) Caiff y person a chanddo ofal am y fangre dynnu dynodiad yn ôl ar unrhyw adeg.

**Cyfleusterau ymchwilio a phrofi: ystafelloedd dynodedig**

**7.**—(1) Mae ystafell mewn mangre sy'n gyfleuster ymchwilio a phrofi a fyddai (oni bai am y rheoliad hwn) yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 7 neu 8 o'r Ddeddf i'w thrin fel pe na bai'n ddi-fwg os yw amodau 1, 2 a 3 wedi eu bodloni.

(2) Amod 1 yw bod y person a chanddo ofal am y fangre—

(a) yn dynodi'r ystafell yn un y caniateir ysmygu ynddi, a

(b) yn cadw cofnod o bob ystafell sydd wedi ei dynodi felly.

(3) Amod 2 yw bod yr ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer profion ac ymchwil sy'n ymwneud â'r canlynol—

(a) allyriadau ysmygu,

(b) datblygu cynhyrchion ar gyfer ysmygu â llai o berygl o ran tân,

(c) cynnal profion diogelwch tân ar ddeunyddiau sy'n ymwneud â chynhyrchion ar gyfer ysmygu,

(d) datblygu cynhyrchion ysmygu neu fferyllol a allai olygu gweithgynhyrchu cynhyrchion llai peryglus ar gyfer ysmygu, neu

(e) rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu.

(4) Amod 3 yw—

(a) bod gan yr ystafell nenfwd a'i bod, ac eithrio drysau a ffenestri, yn gwbl gaeedig ar bob ochr gan waliau solet o'r llawr i'r nenfwd,

(b) nad oes gan yr ystafell system awyru sy'n awyru i ran ddi-fwg o'r fangre,

(c) nad oes gan yr ystafell ddrysau nad ydynt yn cau'n fecanyddol yn union ar ôl eu defnyddio os ydynt yn agor i ardaloedd di-fwg, a

(d) bod yr ystafell wedi ei marcio'n glir yn ystafell y caniateir ysmygu ynddi.

(5) Nid yw'r ystafell i'w thrin fel pe na bai'n ddi-fwg ond pan y'i defnyddir at ddibenion y profion a'r ymchwil y cyfeirir atynt ym mharagraff (3).

(6) Caiff y person a chanddo ofal am y fangre dynnu dynodiad yn ôl ar unrhyw adeg.

**Unedau iechyd meddwl: esemptiad dros dro**

**8.**—(1) Mae ystafell mewn mangre sy'n uned iechyd meddwl a fyddai (oni bai am y rheoliad hwn) yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 7 neu 8 o'r Ddeddf i'w thrin fel pe na bai'n ddi-fwg os yw amodau 1 a 2 wedi eu bodloni.

(2) Amod 1 yw bod y person a chanddo ofal am y fangre—

(a) yn dynodi'r ystafell yn un y caniateir i gleifion yr uned iechyd meddwl sy'n 18 oed neu'n hŷn (a dim person arall) ysmygu ynddi, a

(b) yn cadw cofnod o bob ystafell sydd wedi ei dynodi felly.

(3) Amod 2 yw—

(a) bod gan yr ystafell nenfwd a'i bod, ac eithrio drysau a ffenestri, yn gwbl gaeedig ar bob ochr gan waliau solet o'r llawr i'r nenfwd,

(b) nad oes gan yr ystafell system awyru sy'n awyru i ran ddi-fwg o'r fangre,

(c) nad oes gan yr ystafell ddrysau nad ydynt yn cau'n fecanyddol yn union ar ôl eu defnyddio os ydynt yn agor i ardaloedd di-fwg, a

(d) bod yr ystafell wedi ei marcio'n glir yn ystafell y caniateir ysmygu ynddi.

(4) Caiff y person a chanddo ofal am y fangre dynnu dynodiad yn ôl ar unrhyw adeg.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr “uned iechyd meddwl” yw mangre, neu ran o fangre, a gynhelir yn gyfan gwbl neu’n bennaf ar gyfer derbyn a thrin personau sy’n dioddef o anhwylder meddyliol fel y diffinnir “mental disorder” yn adran 1(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**1**) ond nid yw’n cynnwys cartref gofal i oedolion.

(6) Mae paragraffau (1) i (5) yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 18 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r Rheoliadau hyn i rym.

**Gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau: esemptiad dros dro**

**9.**—(1) Mae ystafell wely mewn mangre sy’n westy, tŷ llety, tafarn, hostel neu glwb aelodau a fyddai (oni bai am y rheoliad hwn) yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 7 neu 8 o’r Ddeddf i’w thrin fel pe na bai’n ddi-fwg os yw amodau 1 a 2 wedi eu bodloni.

(2) Amod 1 yw bod y person a chanddo ofal am y fangre—

(a) yn dynodi’r ystafell wely yn un y caniateir ysmygu ynddi, a

(b) yn cadw cofnod o bob ystafell sydd wedi ei dynodi felly.

(3) Amod 2 yw—

(a) bod gan yr ystafell wely nenfwd a’i bod, ac eithrio drysau a ffenestri, yn gwbl gaeedig ar bob ochr gan waliau solet o’r llawr i’r nenfwd,

(b) nad oes gan yr ystafell wely system awyru sy’n awyru i ran ddi-fwg o’r fangre,

(c) nad oes gan yr ystafell wely ddrysau nad ydynt yn cau’n fecanyddol yn union ar ôl eu defnyddio os ydynt yn agor i ardaloedd di-fwg, a

(d) bod yr ystafell wely wedi ei marcio’n glir yn ystafell y caniateir ysmygu ynddi.

(4) Caiff y person a chanddo ofal am y fangre dynnu dynodiad yn ôl ar unrhyw adeg.

(5) Mae paragraffau (1) i (4) yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r Rheoliadau hyn i rym.

---

(**1**) 1983 p. 20. Diwygiwyd adran 1(2) gan baragraff 2 o Atodlen 10 i Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (p. 12).

**Tir ysgolion sy'n darparu llety preswyl i ddisgyblion: ardaloedd dynodedig**

**10.**—(1) Cyn y caniateir i ardal o fewn paragraff (2) gael ei dynodi o dan adran 10(5) o'r Ddeddf yn ardal y caniateir ysmygu ynddi ac felly y'i trinnir fel pe na bai'n ddi-fwg, rhaid bodloni amodau 1 a 2.

(2) Mae ardal o fewn y paragraff hwn os yw'n ardal mewn mangre sy'n dir sy'n cydffinio ag ysgol sy'n darparu llety preswyl i ddisgyblion a fyddai (oni bai am y rheoliad hwn) yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 10 o'r Ddeddf.

(3) Amod 1 yw bod y person a chanddo ofal am y fangre yn pennu personau neu ddisgrifiadau o bersonau ("person a ganiateir") a gaiff ddefnyddio'r ardal ond ni chaniateir pennu plentyn.

(4) Amod 2 yw—

(a) nad yw'r ardal yn fwy nag 8.25 metr sgwâr,

(b) bod yr ardal o leiaf 10 metr o unrhyw fangre arall sy'n ddi-fwg yn rhinwedd y Ddeddf (ac eithrio'r fangre o fewn paragraff (2)), ac

(c) bod yr ardal wedi ei marcio'n glir yn ardal y caiff person a ganiateir ysmygu ynddi.

(5) Rhaid i'r person a chanddo ofal am y fangre gadw cofnod o bob un o'r ardaloedd sydd wedi eu dynodi o dan adran 10(5) o'r Ddeddf ac o bersonau a ganiateir.

(6) Caiff y person a chanddo ofal am y fangre amrywio dynodiad neu ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.

**Tir ysbytai: ardaloedd dynodedig**

**11.**—(1) Cyn y caniateir i ardal o fewn paragraff (2) gael ei dynodi o dan adran 11(4) o'r Ddeddf yn ardal y caniateir ysmygu ynddi ac felly y'i trinnir fel pe na bai'n ddi-fwg, rhaid bodloni amodau 1 a 2.

(2) Mae ardal o fewn y paragraff hwn os yw'n ardal mewn mangre sy'n dir ysbyty(**1**) a fyddai (oni bai am y rheoliad hwn) yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 11 o'r Ddeddf.

(3) Amod 1 yw bod y person a chanddo ofal yn pennu personau neu ddisgrifiadau o bersonau ("person a ganiateir") a gaiff ddefnyddio'r ardal ond ni chaniateir pennu plentyn.

(4) Amod 2 yw—

(a) nad yw'r ardal yn fwy nag 8.25 metr sgwâr,

---

(**1**) Diffinnir "ysbyty" gan adran 28 o'r Ddeddf fel bod iddo'r ystyr a roddir i "hospital" gan adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42), ac mae uned iechyd meddwl (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 8(5)) yn dod o fewn y diffiniad hwnnw.

(b) bod yr ardal o leiaf 10 metr o unrhyw fangre arall sy'n ddi-fwg yn rhinwedd y Ddeddf (ac eithrio'r fangre o fewn paragraff (2)), ac

(c) bod yr ardal wedi ei marcio'n glir yn ardal y caiff person a ganiateir ysmygu ynddi.

(5) Rhaid i'r person a chanddo ofal am y fangre gadw cofnod o bob un o'r ardaloedd sydd wedi eu dynodi o dan adran 11(4) o'r Ddeddf ac o bersonau a ganiateir.

(6) Caiff y person a chanddo ofal am y fangre amrywio dynodiad neu ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.

**Dyletswydd i atal ysmygu yn nhir ysgolion, yn nhir ysbytai ac mewn meysydd chwarae cyhoeddus**

**12.** Rhaid i berson a chanddo reolaeth dros fangre, neu sy'n ymwneud â rheoli mangre, sy'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 10 (tir ysgolion), 11 (tir ysbytai) neu 12 (meysydd chwarae cyhoeddus) o'r Ddeddf gymryd camau rhesymol i beri i berson sy'n ysmygu yno beidio ag ysmygu.

## PENNOD 2

## Arwyddion

**Mangreoedd di-fwg sy'n weithleoedd neu sydd ar agor i'r cyhoedd: arwyddion**

**13.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fangreoedd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 7 neu adran 8 o'r Ddeddf.

(2) Rhaid arddangos o leiaf un arwydd at ddibenion adran 17(1) o'r Ddeddf a rhaid iddo gynnwys darlun graffig eglur o sigarét yn llosgi o fewn cylch gyda bar ar draws y cylch sy'n croesi symbol y sigarét.

(3) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i fangreoedd a ddefnyddir i unrhyw raddau fel annedd.

**Tir ysgolion, tir ysbytai, a meysydd chwarae cyhoeddus: arwyddion**

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol—

(a) mangreoedd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 10 o'r Ddeddf ac sy'n cydffinio â'r ysgol o dan sylw ("tir ysgolion"),

(b) mangreoedd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 11 o'r Ddeddf ("tir ysbytai"), ac

(c) mangreoedd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 12 o'r Ddeddf ("meysydd chwarae cyhoeddus").

(2) Rhaid arddangos o leiaf un arwydd yn y fangre at ddibenion adran 17(1) o'r Ddeddf a rhaid iddo—

(a) cynnwys darlun graffig eglur o sigarét yn llosgi o fewn cylch gyda bar ar draws y cylch sy’n croesi symbol y sigarét,

(b) cael ei arddangos—

(i) yn achos tir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus o fewn ffiniau sydd wedi eu marcio’n glir, mewn lle amlwg wrth neu gerllaw’r brif fynedfa, neu os oes mwy nag un brif fynedfa, bob un ohonynt, a

(ii) yn achos meysydd chwarae cyhoeddus nad ydynt o fewn ffiniau sydd wedi eu marcio’n glir, mewn lle amlwg gerllaw’r maes chwarae, ac

(c) cynnwys y testun rhybuddio priodol.

(3) Y “testun rhybuddio priodol” yw—

(a) ar gyfer tir ysgolion, “Mae ysmygu yn nhir yr ysgol hon yn erbyn y gyfraith/It is against the law to smoke in these school grounds”;

(b) ar gyfer tir ysbytai, “Mae ysmygu yn nhir yr ysbyty hwn yn erbyn y gyfraith/It is against the law to smoke in these hospital grounds”;

(c) ar gyfer meysydd chwarae cyhoeddus o fewn ffiniau sydd wedi eu marcio’n glir, “Mae ysmygu yn y maes chwarae hwn yn erbyn y gyfraith/It is against the law to smoke in this playground”;

(d) ar gyfer meysydd chwarae cyhoeddus nad ydynt o fewn ffiniau sydd wedi eu marcio’n glir, “Mae ysmygu o fewn 5 metr i’r cyfarpar chwarae hwn yn erbyn y gyfraith/It is against the law to smoke within 5 metres of this play equipment”.

# RHAN 3

## CERBYDAU DI-FWG

### Cerbydau di-fwg

**15.**—(1) Mae cerbyd sy’n gaeedig, ac unrhyw ran o gerbyd sy’n gaeedig, i’w drin fel pe bai’n ddi-fwg os yw paragraff (2) neu (3) yn gymwys.

(2) Mae’r paragraff hwn yn gymwys os yw’r cerbyd yn un a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf yng nghwrs gwaith am dâl neu waith gwirfoddol ac y’i defnyddir—

(a) gan fwy nag un person (hyd yn oed os yw’r personau sy’n ei ddefnyddio yn gwneud hynny ar adegau gwahanol neu’n ysbeidiol), neu

(b) i gludo aelodau o'r cyhoedd neu garfan o'r cyhoedd.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os nad yw'r cerbyd o fewn paragraff (2) ac y'i defnyddir—

(a) yng nghwrs gwaith am dâl neu waith gwirfoddol a bod mwy nag un person yn bresennol yn y cerbyd a bod un o'r rheini yn bresennol at ddiben cael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth y person sy'n defnyddio'r cerbyd, neu

(b) at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill a bod mwy nag un person yn bresennol yn y cerbyd a bod un o'r personau hynny yn blentyn.

(4) Mae cerbyd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd paragraff (2) yn ddi-fwg drwy'r amser.

(5) Nid yw cerbyd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd paragraff (3) ond yn ddi-fwg pan yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel y'i disgrifir yn y paragraff hwnnw.

**Cerbydau di-fwg: esemptiadau**

**16.**—(1) Nid yw cerbyd i'w drin fel pe bai'n ddi-fwg yn rhinwedd rheoliad 15(3)(b) os yw'n garafán neu'n garafán fodur—

(a) sy'n sefydlog ac nad yw ar ffordd, neu

(b) sy'n sefydlog, sydd ar ffordd ac sy'n cael ei defnyddio fel llety preswyl.

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "carafán" ("*caravan*") yw trelar sydd wedi ei ddylunio i'w ddefnyddio ar y ffordd ac sy'n darparu llety preswyl symudol;

ystyr "carafán fodur" ("*motor caravan*") yw cerbyd modur sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu er mwyn cludo teithwyr a'u heiddo personol ac sy'n cynnwys, yn offer sydd wedi eu gosod yn barhaol, y cyfleusterau sy'n rhesymol angenrheidiol i alluogi'r cerbyd i ddarparu llety preswyl symudol i'w ddefnyddwyr;

mae i "ffordd" yr ystyr a roddir i "road" gan adran 192(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(**1**).

**Dyletswydd i atal ysmygu mewn cerbyd di-fwg**

**17.** Rhaid i'r personau a ganlyn gymryd camau rhesymol i beri i berson sy'n ysmygu mewn cerbyd a drinnir fel pe bai'n ddi-fwg yn rhinwedd rheoliad 15 beidio ag ysmygu—

(a) gyrrwr neu weithredwr cerbyd a drinnir fel pe bai'n ddi-fwg yn rhinwedd rheoliad 15, a

(**1**) 1988 p. 52. Diwygiwyd y diffiniad o "road" gan baragraff 78 o Atodlen 4 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40).

(b) person sy'n ymwneud â rheoli cerbyd o'r fath.

**Cerbydau di-fwg: arwyddion**

**18.**—(1) Rhaid i yrrwr a gweithredwr cerbyd a drinnir fel pe bai'n gerbyd di-fwg yn rhinwedd rheoliad 15(2), a pherson sy'n ymwneud â rheoli cerbyd o'r fath, sicrhau bod arwydd yn cael ei arddangos yn y cerbyd yn unol â pharagraff (2).

(2) Rhaid i'r arwydd gynnwys darlun graffig eglur o sigarét yn llosgi o fewn cylch gyda bar ar draws y cylch sy'n croesi symbol y sigarét.

# RHAN 4

## GORFODI

**Awdurdod gorfodi: yr heddlu**

**19.** Mae prif swyddog heddlu ardal heddlu wedi ei awdurdodi i weithredu fel awdurdod gorfodi mewn perthynas â cherbydau yn ei ardal sy'n ddi-fwg yn rhinwedd rheoliad 15(3)(b) (cerbydau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol).

**Symiau'r gosb benodedig**

**20.** Symiau'r gosb benodedig a bennir at ddibenion paragraff 6 o Atodlen 1 i'r Ddeddf yw—

(a) mewn cysylltiad â throsedd o dan adran 17(5) o'r Ddeddf (y drosedd o fethu ag arddangos arwydd), £200,

(b) mewn cysylltiad â throsedd o dan adran 5(1) o'r Ddeddf (y drosedd o ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu mewn cerbyd di-fwg), £100, ac

(c) mewn cysylltiad â throsedd o dan adran 6(6) o'r Ddeddf mewn perthynas â cherbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a grybwyllir yn adran 27(4) o'r Ddeddf (y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol), £100.

**Symiau'r gosb benodedig: symiau gostyngol**

**21.** Y symiau gostyngol a bennir at ddibenion paragraff 9 o Atodlen 1 i'r Ddeddf yw—

(a) mewn cysylltiad â throsedd o dan adran 17(5) o'r Ddeddf (y drosedd o fethu ag arddangos arwydd), £150,

(b) mewn cysylltiad â throsedd o dan adran 5(1) o'r Ddeddf (y drosedd o ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu mewn cerbyd di-fwg), £75, ac

(c) mewn cysylltiad â throsedd o dan adran 6(6) o'r Ddeddf mewn perthynas â cherbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a grybwyllir yn adran 27(4) o'r Ddeddf (y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol), £75.

**Ffurf hysbysiadau cosb benodedig**

**22.**—(1) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig fod ar y ffurf a bennir yn Atodlen 1 mewn cysylltiad â throsedd o dan adran 17(5) o'r Ddeddf (y drosedd o fethu ag arddangos arwydd).

(2) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig fod ar y ffurf a bennir yn Atodlen 2 mewn cysylltiad â throsedd o dan—

(a) adran 5(1) o'r Ddeddf (y drosedd o ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu mewn cerbyd di-fwg), a

(b) adran 6(6) o'r Ddeddf (y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol).

(3) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn atal awdurdod gorfodi rhag cynnwys ar ffurflen hysbysiad cosb benodedig—

(a) gwybodaeth am y dull talu,

(b) gwybodaeth i hwyluso prosesu ariannol a gweinyddol y ffurflenni, ac

(c) arfbeisiau, logos neu ddyfeisiau eraill i gynrychioli'r awdurdod.

# RHAN 5

## DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DIRYMIADAU

**Diwygio Rheoliadau Di-fwg (Cosbau a Symiau Gostyngol) 2007**

**23.**—(1) Mae Rheoliadau Di-fwg (Cosbau a Symiau Gostyngol) 2007(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1—

(**1**) O.S. 2007/764.

(a) yn lle paragraff (2), rhodder—

"(2) These regulations only apply to premises, places and vehicles in England.";

(b) ym mharagraff (3), hepgorer "and in Wales on 2nd April 2007".

**Diwygio Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2018**

**24.** Hepgorer paragraff 16 o Atodlen 1 i Reoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2018(**1**).

**Dirymiadau**

**25.** Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(**2**);

(b) Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015(**3**);

(c) Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2016(**4**).

*Enw*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

(**1**) O.S. 2018/48 (Cy. 15).
(**2**) O.S. 2007/787 (Cy. 68).
(**3**) O.S. 2015/1363 (Cy. 133).
(**4**) O.S. 2016/118 (Cy. 55).

# YR ATODLENNI
# SCHEDULES

## ATODLEN 1 Rheoliad 22(1)

Ffurflen Hysbysiad Cosb Benodedig
Methu ag arddangos arwyddion yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 17.

**[ENW'R AWDURDOD GORFODI]**

**[CYFEIRIAD YR AWDURDOD GORFODI]**

**DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017:**

**ADRAN 17 (METHU AG ARDDANGOS ARWYDDION YN UNOL Â RHEOLIADAU A WNAED GAN NEU O DAN ADRAN 17)**

**HYSBYSIAD COSB BENODEDIG**

**SWM Y GOSB £200**

## SCHEDULE 1 Regulation 22(1)

Fixed Penalty Notice Form
Failing to display signs in accordance with regulations made under section 17.

**[NAME OF ENFORCEMENT AUTHORITY]**

**[ADDRESS OF ENFORCEMENT AUTHORITY]**

**PUBLIC HEALTH (WALES) ACT 2017:**

**SECTION 17 (FAILING TO DISPLAY SIGNS IN ACCORDANCE WITH REGULATIONS MADE BY OR UNDER SECTION 17)**

**FIXED PENALTY NOTICE**

**PENALTY AMOUNT £200**

| | | |
|---|---|---|
| **<u>RHAN 1:</u>** | | **<u>PART 1:</u>** |
| **COPI'R DERBYNNYDD** | | **RECIPIENT COPY** |
| **Rhif yr hysbysiad cosb benodedig** | ________________________ | **Fixed penalty notice number** |
| **Enw llawn y troseddwr honedig** | ________________________ | **Full name of alleged offender** |
| **Cyfeiriad y troseddwr honedig** | ________________________<br>________________________<br>________________________ | **Address of alleged offender** |
| **Cod post** | ________________________ | **Post code** |
| **Dyddiad geni (os yw'n hysbys)** | ________________________ | **Date of birth (if known)** |
| Mae gennyf i, | ________________________ | I, |
| , un o swyddogion awdurdodedig [enw'r awdurdod gorfodi] yn rhinwedd adran 18 o | | , an authorised officer of the [name of enforcement authority] by virtue of section 18 of the |

Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, reswm dros gredu ichi gyflawni trosedd o dan adran 17 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (methu ag arddangos arwyddion yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 17) mewn mangre neu gerbyd y mae gan [enw'r awdurdod gorfodi] gyfrifoldebau gorfodi mewn cysylltiad â hi neu ag ef.

Public Health (Wales) Act 2017, have reason to believe that you committed an offence under section 17 of the Public Health (Wales) Act 2017 (failing to display signs in accordance with regulations made under section 17) within premises or vehicle in respect of which [name of enforcement authority] has enforcement responsibilities.

Yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn drosedd yw eich bod chi, am (*amser)*

The circumstances alleged to constitute the offence are that at (*time*)

_________________________

o'r gloch, ar (*dyddiad*)

hours, on (*date)*

_________________________

yn y fangre neu'r cerbyd a ganlyn (*lle y digwyddodd y drosedd honedig, gan gynnwys y cyfeiriad*)

you, at/on the following premises or vehicle (*where alleged offence took place, including address*)

__________________________

__________________________

sef mangre neu gerbyd y mae adran 17 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gymwys iddi neu iddo (*manylion y drosedd*)

being premises or a vehicle to which section 17 of the Public Health (Wales) Act 2017 applies allegedly (*details of offence*)

___________________________

___________________________

___________________________

___________________________

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi'r cyfle ichi i ryddhau unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd honno drwy dalu cosb benodedig o **£200 (dau gan punt)**. Ni ddygir achos am y drosedd hon cyn diwedd 29 o ddiwrnodau sy'n dechrau â (*y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn*).

This notice offers you the opportunity of discharging any liability for conviction for that offence by payment of a fixed penalty of **£200 (two hundred pounds)**. No proceedings will be taken for this offence before the end of 29 days beginning with (*the date on which this notice is given)*.

Ni fyddwch yn agored i euogfarn am y drosedd os byddwch yn talu'r gosb benodedig o fewn y cyfnod hwnnw. Yn y ffurflen hon, cyfeirir at y cyfnod hwn fel y cyfnod 29 o ddiwrnodau.

You will not be liable to conviction for the offence if you pay the fixed penalty within that period. In this form, this period is referred to as the 29 day period.

**Gallwch dalu swm gostyngol o £150 (cant a hanner o bunnoedd) os byddwch yn talu o fewn 15 niwrnod sy'n dechrau â (*y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn*).**

**You can pay a discounted amount of £150 (one hundred and fifty pounds) if you pay within 15 days beginning with (*date on which this notice is given*).**

Os nad yw'r 15fed diwrnod yn ddiwrnod gwaith,

If the 15th day is not a working day, you may pay

cewch dalu ar y diwrnod gwaith nesaf. Ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith nac yn ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971. Yn y ffurflen hon, cyfeirir at y cyfnod hwn fel y cyfnod 15 niwrnod.

on the next working day. "Working day" means any day which is not Saturday, Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday in England and Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971. In this form, this period is referred to as the 15 day period.

Ceir gwybodaeth at sylw di-oed y person y dyroddwyd yr hysbysiad cosb benodedig hwn iddo yn Rhan 2 o'r hysbysiad hwn. Ceir manylion ynghylch sut i dalu'r gosb benodedig hon yn Rhan 3 o'r hysbysiad hwn. Ceir manylion ynghylch sut i ofyn am wrandawiad llys mewn perthynas â'r drosedd honedig hon yn Rhan 4 o'r hysbysiad hwn.

Information for the immediate attention of the person who has been issued this fixed penalty notice is at Part 2 of this notice. Details about how to pay this fixed penalty are at Part 3 of this notice. Details about how to request a court hearing in relation to this alleged offence are at Part 4 of this notice.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych yn dymuno trafod yr hysbysiad hwn, cysylltwch â: [enw a chyfeiriad yr awdurdod gorfodi a manylion cyswllt].**

**If you have any questions, or if you wish to discuss this notice, please contact [name and address of enforcement authority and contact details].**

*Llofnod y swyddog awdurdodedig* __________________________ *Signature of authorised officer*

*Dyddiad dyroddi* (*dd/mm/bbbb*) __________________________ *Date of issue (dd/mm/yyyy)*

**Rhan 2**

**GWYBODAETH AT SYLW DI-OED Y PERSON Y DYRODDWYD YR HYSBYSIAD HWN IDDO:**

Rydych wedi cael yr hysbysiad hwn oherwydd bod gan swyddog awdurdodedig [enw'r awdurdod gorfodi] a enwir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn reswm dros gredu eich bod wedi cyflawni'r drosedd o fethu ag arddangos arwyddion yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 fel y'i disgrifir yn Rhan 1. O fewn y **cyfnod 29 o ddiwrnodau a bennir yn Rhan 1, rhaid ichi naill ai** talu'r gosb **neu** ofyn bod llys yn gwrando ar y mater. Ni chewch wneud y ddau beth.

Os byddwch yn methu â gwneud y naill neu'r llall, caiff [enw'r awdurdod gorfodi], ac yntau'n awdurdod gorfodi yn rhinwedd adran 18 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, ddwyn y mater hwn gerbron llys. Mae person a ddyfernir yn euog o'r drosedd o fethu ag arddangos arwyddion yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**Part 2**

**INFORMATION FOR THE IMMEDIATE ATTENTION OF THE PERSON WHO HAS BEEN ISSUED WITH THIS NOTICE:**

You have received this notice because the authorised officer of [name of enforcement authority] named in Part 1 of this notice has reason to believe that you have committed the offence of failing to display signs in accordance with regulations made under section 17 of the Public Health (Wales) Act 2017 as described in Part 1. Within the **29 day period specified in Part 1, you must either** pay the penalty **or** request that the matter be heard by a court. You may not do both.

If you fail to do either, [name of enforcement authority] as an enforcement authority by virtue of section 18 of the Public Health (Wales) Act 2017, may pursue this matter in court. A person found guilty of the offence of failing to display signs in accordance with regulations made under section 17 of the Public Health (Wales) Act 2017 is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

**Rhan 3**

**TALU'R GOSB**

Swm y gosb benodedig yw **£200 (dau gan punt).** Rhaid ei dalu o fewn y cyfnod 29 o ddiwrnodau a bennir yn Rhan 1.

Gallwch dalu swm gostyngol o **£150 (cant a hanner o bunnoedd)** os byddwch yn talu o fewn y cyfnod 15 niwrnod a bennir yn Rhan 1.

Os byddwch yn dewis talu'r gosb benodedig hon, ni chymerir unrhyw gamau pellach mewn cysylltiad â'r drosedd honedig a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn. Nid yw talu'r gosb yn golygu eich bod yn cyfaddef eich bod yn euog ac ni fydd yn arwain at gofnod o euogfarn droseddol yn eich erbyn. Caniateir talu drwy gwblhau Rhan 3A isod a'i hanfon ynghyd â thaliad i'r cyfeiriad a nodir yn y Rhan honno, neu drwy gwblhau Rhan 3A isod a thalu'n bersonol yn [enw a chyfeiriad yr awdurdod gorfodi].

Mae'r dulliau talu derbyniol yn cynnwys arian parod, siec, archeb bost neu archeb arian, neu daliad ar-lein yn y cyfeiriad gwe a ganlyn [cyfeiriad ar gyfer gwneud taliadau ar-lein]. Dylid gwneud sieciau, archebion post neu archebion arian yn daladwy i [enw'r awdurdod gorfodi]. Os byddwch yn dewis talu'r gosb benodedig hon mewn arian parod drwy'r post, rhaid ei anfon drwy'r post cofrestredig, a rhaid cadw prawf o bostio. Os bydd arnoch angen derbynneb am dalu'r gosb, rhaid ichi ofyn amdani pan fyddwch yn talu, ac os byddwch yn talu drwy'r post, rhaid ichi ddarparu amlen ac arni stamp a'ch cyfeiriad eich hun.

**RHYBUDD: NI DDERBYNNIR TALIAD HWYR. NID ANFONIR NODYN I'CH ATGOFFA.**

**Part 3**

**PAYING THE PENALTY**

The amount of the fixed penalty is **£200 (two hundred pounds)**. It must be paid within the 29 day period which is specified in Part 1.

You can pay a discounted amount of **£150 (one hundred and fifty pounds)** if you pay within the 15 day period which is specified in Part 1.

If you choose to pay this fixed penalty, no further action will be taken in respect of the alleged offence described at Part 1 of this notice. The payment of the penalty involves no admission of guilt and will not result in a record of criminal conviction being made against you. Payment may be made by completing Part 3A below and sending it with payment to the address stated in that Part, or by completing Part 3A below and paying in person at [name and address of enforcement authority].

Acceptable methods of payment include cash, cheque, postal order or money order or online at the following web address [address for making online payments]. Cheques, postal orders or money orders should be made payable to [name of enforcement authority]. If you choose to pay this fixed penalty in cash by post, this must be sent by registered post, and proof of posting must be retained. If you require a receipt for the payment of the penalty, you must ask for one at the time of payment, and if paying by post, you must provide a stamped, self-addressed envelope.

**WARNING: LATE PAYMENT WILL NOT BE ACCEPTED. YOU WILL NOT BE SENT A REMINDER.**

**Rhan 3A**

**TALU COSB BENODEDIG A DDYRODDWYD O DAN ADRAN 27 O DDEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017 MEWN CYSYLLTIAD Â THROSEDD O DAN ADRAN 17(5) O'R DDEDDF HONNO (METHU AG ARDDANGOS ARWYDDION YN UNOL Â RHEOLIADAU A WNAED O DAN ADRAN 17)**

***Rhaid amgáu'r slip hwn gyda phob taliad***

[Enw'r awdurdod gorfodi a'r

**Part 3A**

**PAYMENT OF FIXED PENALTY ISSUED UNDER SECTION 27 OF THE PUBLIC HEALTH (WALES) ACT 2017 IN RESPECT OF AN OFFENCE UNDER SECTION 17(5) OF THAT ACT (FAILING TO DISPLAY SIGNS IN ACCORDANCE WITH REGULATIONS MADE UNDER SECTION 17)**

***This slip must accompany all payments***

[Name and address at

| | | |
|---|---|---|
| cyfeiriad lle y dylid anfon y taliad] | | enforcement authority where payment should be sent] |
| **Rhif yr hysbysiad cosb benodedig** | ______________________ | **Fixed penalty notice number** |
| Rwyf yn amgáu'r swm o: (*ticiwch un blwch)* | | I enclose the amount of: (*tick one box*) |
| (os gwneir y taliad o fewn y cyfnod 15 niwrnod a bennir yn Rhan 1) | ☐ **£150** | (if the payment is made within the 15 day period specified in Part 1) |
| (os gwneir y taliad o fewn y cyfnod 29 o ddiwrnodau a bennir yn Rhan 1) | ☐ **£200** | (if the payment is made within the 29 day period specified in Part 1) |
| Enw llawn y troseddwr honedig | ______________________ | Full name of the alleged offender |
| Cyfeiriad y troseddwr honedig | ______________________<br>______________________<br>______________________ | Address of the alleged offender |
| Cod post | ______________________ | Post code |
| Llofnod | ______________________ | Signature |
| Dyddiad (*dd/mm/bbbb*) | ______________________ | Date (*dd/mm/yyyy)* |

**RHAN 4**

**GOFYN AM WRANDAWIAD LLYS**

Os byddwch yn dewis gofyn am wrandawiad llys, **rhaid** ichi wneud hynny o fewn y cyfnod 29 o ddiwrnodau drwy gwblhau Rhan 4A a'i hanfon at [enw'r awdurdod gorfodi], neu drwy ysgrifennu at [enw'r awdurdod gorfodi] yn y cyfeiriad a nodir yn Rhan 4A, gan roi eich manylion, rhif yr hysbysiad cosb benodedig (a geir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn) a chyfeiriad lle y gellir cyflwyno gwŷs ichi. Bydd yr wŷs yn rhoi gwybod ichi pryd i fynd i'r llys ac ym mhle y mae'r llys. Dim ond derbynnydd yr hysbysiad hwn (y person a enwir yn Rhan 1) a gaiff ofyn am wrandawiad llys.

**PART 4**

**REQUESTING A COURT HEARING**

If you choose to request a court hearing, you **must** do so within the 29 day period by completing Part 4A and sending it to [name of enforcement authority], or by writing to [name of enforcement authority] at the address stated in Part 4A, giving your details, the fixed penalty notice number (which can be found in Part 1 of this notice) and an address at which a summons can be served on you. The summons will tell you when and where to attend court. Only the recipient of this notice (the person named at Part 1) may request a court hearing.

**Rhan 4A**

**DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017:**
**METHU AG ARDDANGOS ARWYDDION YN UNOL Â RHEOLIADAU A WNAED O DAN ADRAN 17**

**CAIS I LYS BARN YMDRIN Â THROSEDD HONEDIG**

**Part 4A**

**PUBLIC HEALTH (WALES) ACT 2017:**
**FAILING TO DISPLAY SIGNS IN ACCORDANCE WITH REGULATIONS MADE UNDER SECTION 17**

**REQUEST FOR ALLEGED OFFENCE TO BE DEALT WITH BY A COURT OF LAW**

At
[Enw'r awdurdod gorfodi a'r cyfeiriad y dylid anfon Rhan 4 iddo].

To
[Name and address at enforcement authority to which Part 4 should be sent]

__________________________

__________________________

**Rhif yr hysbysiad cosb benodedig** __________________________ **Fixed penalty notice number**

Rwyf yn dymuno i lys barn ymdrin â mi mewn cysylltiad â'r drosedd honedig.

I wish to be dealt with by a court of law for the alleged offence.

**Enw llawn y troseddwr honedig** __________________________ **Full name of alleged offender**

**Cyfeiriad y troseddwr honedig** __________________________ **Address of alleged offender**

__________________________

__________________________

**Cod post** __________________________ **Post code**

**Llofnod** __________________________ **Signature**

**Dyddiad** __________________________ **Date**

## ATODLEN 2 Rheoliad 22(2)

Ffurflen Hysbysiad Cosb Benodedig

Ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu mewn cerbyd di-fwg.

Methu ag atal ysmygu mewn cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol.

**[ENW'R AWDURDOD GORFODI]**

**[CYFEIRIAD YR AWDURDOD GORFODI]**

**DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017:**

**ADRAN 5(1) (YSMYGU MEWN MANGRE DDI-FWG NEU MEWN CERBYD DI-FWG)**

**ADRAN 6(6) (METHU AG ATAL YSMYGU MEWN CERBYD SY'N CAEL EI DDEFNYDDIO AT DDIBENION CYMDEITHASOL, DOMESTIG NEU DDIBENION PREIFAT ERAILL PAN FO PLENTYN YN BRESENNOL)**

**HYSBYSIAD COSB BENODEDIG**

**SWM Y GOSB £100**

## SCHEDULE 2 Regulation 22(2)

Fixed Penalty Notice Form

Smoking in smoke-free premises or in a smoke-free vehicle.

Failing to prevent smoking in a vehicle being used for social, domestic or other private purposes where a child is present.

**[NAME OF ENFORCEMENT AUTHORITY]**

**[ADDRESS OF ENFORCEMENT AUTHORITY]**

**PUBLIC HEALTH (WALES) ACT 2017:**

**SECTION 5(1) (SMOKING IN SMOKE-FREE PREMISES OR IN A SMOKE-FREE VEHICLE)**

**SECTION 6(6) (FAILING TO PREVENT SMOKING IN A VEHICLE BEING USED FOR SOCIAL, DOMESTIC OR OTHER PRIVATE PURPOSES WHERE A CHILD IS PRESENT)**

**FIXED PENALTY NOTICE**

**PENALTY AMOUNT £100**

**RHAN 1:** / **PART 1:**

**COPI'R DERBYNNYDD** / **RECIPIENT COPY**

| | | |
|---|---|---|
| **Rhif yr hysbysiad cosb benodedig** | ________________________ | **Fixed penalty notice number** |
| **Enw llawn y troseddwr honedig** | ________________________ | **Full name of alleged offender** |
| **Cyfeiriad y troseddwr honedig** | ________________________<br>________________________<br>________________________<br>________________________ | **Address of alleged offender** |
| **Cod post** | ________________________ | **Post code** |

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad geni (os yw'n hysbys)** | ______________________ | **Date of birth (if known)** |
| Mae gennyf i, | ______________________ | I, |
| , un o swyddogion awdurdodedig [enw'r awdurdod gorfodi] yn rhinwedd adran 18 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, reswm dros gredu ichi gyflawni trosedd o dan: (*ticiwch un blwch*) | | , an authorised officer of the [name of enforcement authority] by virtue of section 18 of the Public Health (Wales) Act 2017, have reason to believe that you committed an offence under: (*tick one box*) |
| adran 5(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu mewn cerbyd di-fwg), neu | ☐ | section 5(1) of the Public Health (Wales) Act 2017 (smoking in smoke-free premises or in a smoke-free vehicle), or |
| adran 6(6) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (methu ag atal ysmygu mewn cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu breifat pan fo plentyn yn bresennol) | ☐ | section 6(6) of the Public Health (Wales) Act 2017 (failing to prevent smoking in a vehicle being used for social, domestic or private purposes where a child is present) |
| mewn mangre neu gerbyd y mae gan [enw'r awdurdod gorfodi] gyfrifoldebau gorfodi mewn perthynas ag ef. | | within premises or vehicle in relation to which [name of enforcement authority] has enforcement responsibilities. |
| Amgylchiadau'r drosedd honedig yw eich bod chi, am (*amser*) | ______________________ | The circumstances of the alleged offence are that at (*time*) |
| o'r gloch, ar (*dyddiad*) | ______________________ | hours, on (*date*) |
| yn y fangre neu'r cerbyd a ganlyn (*lle y digwyddodd y drosedd honedig, gan gynnwys y cyfeiriad os oes un*) | ______________________<br>______________________<br>______________________<br>______________________ | you, at/on the following premises or vehicle (*where alleged offence took place, including address, if any*) |
| sef mangre neu gerbyd y mae darpariaethau adran 5(1) neu 6(6) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gymwys iddi neu iddo (*manylion y drosedd*) | ______________________<br>______________________<br>______________________ | being premises or vehicle to which the provisions of section 5(1) or 6(6) of the Public Health (Wales) Act 2017 apply, allegedly (*details of the offence*) |

Mae’r hysbysiad hwn yn rhoi’r cyfle ichi i ryddhau unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd honno drwy dalu cosb benodedig o **£100 (canpunt)**. Ni ddygir achos am y drosedd hon cyn diwedd 29 o ddiwrnodau sy’n dechrau â (*y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn*).

This notice offers you the opportunity of discharging any liability for conviction for that offence by payment of a fixed penalty of **£100 (one hundred pounds)**. No proceedings will be taken for this offence before the end of 29 days beginning with (*date on which this notice is given*).

Ni fyddwch yn agored i euogfarn am y drosedd os byddwch yn talu’r gosb benodedig o fewn y cyfnod hwnnw. Yn y ffurflen hon, cyfeirir at y cyfnod hwn fel y cyfnod 29 o ddiwrnodau.

You will not be liable to conviction for the offence if you pay the fixed penalty within that period. In this form, this period is referred to as the 29 day period.

**Gallwch dalu swm gostyngol o £75 (pymtheg a thrigain o bunnoedd) os byddwch yn talu o fewn y cyfnod o 15 niwrnod sy’n dechrau â (*y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn*).**

**You can pay a discounted amount of £75 (seventy five pounds) if you pay within the period of 15 days beginning with (*date on which this notice is given*).**

Os nad yw’r 15fed diwrnod yn ddiwrnod gwaith, cewch dalu ar y diwrnod gwaith nesaf. Ystyr “diwrnod gwaith” yw unrhyw ddiwrnod nad yw’n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith nac yn ddiwrnod sy’n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971. Yn y ffurflen hon, cyfeirir at y cyfnod hwn fel y cyfnod 15 niwrnod.

If the 15th day is not a working day, you may pay on the next working day. “Working day” means any day which is not Saturday, Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday in England and Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971. In this form, this period is referred to as the 15 day period.

Ceir gwybodaeth at sylw di-oed y person y dyroddwyd yr hysbysiad cosb benodedig hwn iddo yn Rhan 2 o’r hysbysiad hwn. Ceir manylion ynghylch sut i dalu’r gosb benodedig hon yn Rhan 3 o’r hysbysiad hwn. Ceir manylion ynghylch sut i ofyn am wrandawiad llys mewn perthynas â’r drosedd honedig hon yn Rhan 4 o’r hysbysiad hwn. **Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych yn dymuno trafod yr hysbysiad hwn, cysylltwch â: [enw a chyfeiriad yr awdurdod gorfodi a manylion cyswllt].**

Information for the immediate attention of the person who has been issued this fixed penalty notice is at Part 2 of this notice. Details about how to pay this fixed penalty are at Part 3 of this notice. Details about how to request a court hearing in relation to this alleged offence are at Part 4 of this notice. **If you have any questions, or if you wish to discuss this notice, please contact [name and address of enforcement authority and contact details].**

*Llofnod y swyddog awdurdodedig* ________________________ *Signature of authorised officer*

*Dyddiad dyroddi (dd/mm/bbbb)* ________________________ *Date of issue (dd/mm/yyyy)*

**Rhan 2**

**GWYBODAETH AT SYLW DI-OED Y PERSON Y DYRODDWYD YR HYSBYSIAD HWN IDDO:**

Rydych wedi cael yr hysbysiad hwn oherwydd bod gan swyddog awdurdodedig [enw'r awdurdod gorfodi] a enwir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn reswm dros gredu eich bod wedi cyflawni'r drosedd o:

i. ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu mewn cerbyd di-fwg; neu
ii. methu ag atal ysmygu mewn cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol,

fel y'i disgrifir yn Rhan 1. O fewn y **cyfnod 29 o ddiwrnodau a bennir yn Rhan 1, rhaid ichi naill ai** talu'r gosb **neu** ofyn bod llys yn gwrando ar y mater. Ni chewch wneud y ddau beth.

Os byddwch yn methu â gwneud y naill neu'r llall, caiff [enw'r awdurdod gorfodi], ac yntau'n awdurdod gorfodi yn rhinwedd adran 18 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, ddwyn y mater hwn gerbron llys. Mae person a ddyfernir yn euog o'r drosedd o ysmygu mewn man di-fwg yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol. Mae person a ddyfernir yn euog o'r drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

**Part 2**

**INFORMATION FOR THE IMMEDIATE ATTENTION OF THE PERSON WHO HAS BEEN ISSUED WITH THIS NOTICE:**

You have received this notice because the authorised officer of [name of enforcement authority] named in Part 1 of this notice has reason to believe that you have committed the offence of:

i. smoking in smoke-free premises or in a smoke-free vehicle; or
ii. failing to prevent smoking in a vehicle being used for social, domestic or other private purposes where a child is present,

as described in Part 1. Within the **29 day period specified in Part 1, you must either** pay the penalty **or** request that the matter be heard by a court. You may not do both.

If you fail to do either, [name of enforcement authority] as an enforcement authority by virtue of section 18 of the Public Health (Wales) Act 2017, may pursue this matter in court. A person found guilty of the offence of smoking in a smoke-free place is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 1 on the standard scale. A person found guilty of the offence of failing to prevent smoking in a vehicle being used for social, domestic or other private purposes where a child is present is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale.

**Rhan 3**

**TALU'R GOSB**

Swm y gosb benodedig yw **£100 (canpunt).** Rhaid ei dalu o fewn y cyfnod 29 o ddiwrnodau a bennir yn Rhan 1.

Gallwch dalu swm gostyngol o **£75 (pymtheg a thrigain o bunnoedd)** os byddwch yn talu o fewn y cyfnod 15 niwrnod a bennir yn Rhan 1.

Os byddwch yn dewis talu'r gosb benodedig hon,

**Part 3**

**PAYING THE PENALTY**

The amount of the fixed penalty is **£100 (one hundred pounds).** It must be paid within the 29 day period which is specified in Part 1.

You can pay a discounted amount of **£75 (seventy five pounds)** if you pay within the 15 day period which is specified in Part 1.

If you choose to pay this fixed penalty, no further

ni chymerir unrhyw gamau pellach mewn cysylltiad â'r drosedd honedig a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn. Nid yw talu'r gosb yn golygu eich bod yn cyfaddef eich bod yn euog ac ni fydd yn arwain at gofnod o euogfarn droseddol yn eich erbyn. Caniateir talu drwy gwblhau Rhan 3A isod a'i hanfon ynghyd â thaliad i'r cyfeiriad a nodir yn y Rhan honno, neu drwy gwblhau Rhan 3A isod a thalu'n bersonol yn [enw a chyfeiriad yr awdurdod gorfodi].

Mae'r dulliau talu derbyniol yn cynnwys arian parod, siec, archeb bost neu archeb arian, neu daliad ar-lein yn y cyfeiriad gwe a ganlyn [cyfeiriad ar gyfer gwneud taliadau ar-lein]. Dylid gwneud sieciau, archebion post neu archebion arian yn daladwy i [enw'r awdurdod gorfodi]. Os byddwch yn dewis talu'r gosb benodedig hon mewn arian parod drwy'r post, rhaid ei anfon drwy'r post cofrestredig, a rhaid cadw prawf o bostio. Os bydd arnoch angen derbynneb am dalu'r gosb, rhaid ichi ofyn amdani pan fyddwch yn talu, ac os byddwch yn talu drwy'r post, rhaid ichi ddarparu amlen ac arni stamp a'ch cyfeiriad eich hun.

**RHYBUDD: NI DDERBYNNIR TALIAD HWYR. NID ANFONIR NODYN I'CH ATGOFFA.**

**<u>Rhan 3A</u>**

**TALU COSB BENODEDIG A DDYRODDWYD O DAN ADRAN 27 O DDEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017 MEWN CYSYLLTIAD Â THROSEDD O DAN:**

**ADRAN 5(1) (YSMYGU MEWN MANGRE DDI-FWG NEU MEWN CERBYD DI-FWG) O'R DDEDDF HONNO**

**NEU**

**ADRAN 6(6) (METHU AG ATAL YSMYGU MEWN CERBYD SY'N CAEL EI DDEFNYDDIO AT DDIBENION CYMDEITHASOL, DOMESTIG NEU DDIBENION PREIFAT ERAILL PAN FO PLENTYN YN BRESENNOL) O'R DDEDDF HONNO**

***Rhaid amgáu'r slip hwn gyda phob taliad***

At

[Enw'r awdurdod gorfodi a'r cyfeiriad lle y dylid anfon y taliad]

action will be taken in respect of the alleged offence described at Part 1 of this notice. The payment of the penalty involves no admission of guilt and will not result in a record of criminal conviction being made against you. Payment may be made by completing Part 3A below and sending it with payment to the address stated in that Part, or by completing Part 3A below and paying in person at [name and address of enforcement authority].

Acceptable methods of payment include cash, cheque, postal order or money order or online at the following web address [address for making online payments]. Cheques, postal orders or money orders should be made payable to [name of enforcement authority]. If you choose to pay this fixed penalty in cash by post, this must be sent by registered post, and proof of posting must be retained. If you require a receipt for the payment of the penalty, you must ask for one at the time of payment, and if paying by post, you must provide a stamped, self-addressed envelope.

**WARNING: LATE PAYMENT WILL NOT BE ACCEPTED. YOU WILL NOT BE SENT A REMINDER.**

**<u>Part 3A</u>**

**PAYMENT OF FIXED PENALTY ISSUED UNDER SECTION 27 OF THE PUBLIC HEALTH (WALES) ACT 2017 IN RESPECT OF AN OFFENCE UNDER:**

**SECTION 5(1) (SMOKING IN A SMOKE-FREE PREMISES OR IN A SMOKE-FREE VEHICLE) OF THAT ACT**

**OR**

**SECTION 6(6) (FAILING TO PREVENT SMOKING IN A VEHICLE BEING USED FOR FOR SOCIAL, DOMESTIC OR OTHER PRIVATE PURPOSES WHERE A CHILD IS PRESENT) OF THAT ACT**

***This slip must accompany all payments***

To

[Name and address at enforcement authority where payment should be remitted]

| | | |
|---|---|---|
| **Rhif yr hysbysiad cosb benodedig** | ____________________ | **Fixed penalty notice number** |
| Rwyf yn amgáu'r swm o (*ticiwch un blwch)* | | I enclose the amount of (*tick one box*) |
| (os gwneir y taliad o fewn y cyfnod 15 niwrnod a bennir yn Rhan 1) | ☐ **£75** | (if the payment is made within the 15 day period specified in Part 1) |
| (os gwneir y taliad o fewn y cyfnod 29 o ddiwrnodau a bennir yn Rhan 1) | ☐ **£100** | (if the payment is made within the 29 day period specified in Part 1) |
| Enw llawn y troseddwr honedig | ____________________ | Full name of alleged offender |
| Cyfeiriad y troseddwr honedig | ____________________<br>____________________<br>____________________ | Address of alleged offender |
| Cod post | ____________________ | Post code |
| Llofnod | ____________________ | Signature |
| Dyddiad (*dd/mm/bbbb*) | ____________________ | Date (*dd/mm/yyyy)* |

**RHAN 4** / **PART 4**

**GOFYN AM WRANDAWIAD LLYS**

Os byddwch yn dewis gofyn am wrandawiad llys, **rhaid** ichi wneud hynny o fewn y cyfnod 29 o ddiwrnodau drwy gwblhau Rhan 4A a'i hanfon at [enw'r awdurdod gorfodi], neu drwy ysgrifennu at [enw'r awdurdod gorfodi] yn y cyfeiriad a nodir yn Rhan 4A, gan roi eich manylion, rhif yr hysbysiad cosb (a geir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn) a chyfeiriad lle y gellir cyflwyno gwŷs ichi. Bydd yr wŷs yn rhoi gwybod ichi pryd i fynd i'r llys ac ym mhle y mae'r llys. Dim ond derbynnydd yr hysbysiad hwn (y person a enwir yn Rhan 1) a gaiff ofyn am wrandawiad llys.

**REQUESTING A COURT HEARING**

If you choose to request a court hearing, you **must** do so within the 29 day period by completing Part 4A and sending it to [name of enforcement authority], or by writing to [name of enforcement authority] at the address stated in Part 4A, giving your details, the penalty notice number (which can be found in Part 1 of this notice) and an address at which a summons can be served on you. The summons will tell you when and where to attend court. Only the recipient of this notice (the person named at Part 1) may request a court hearing.

**Rhan 4A** / **Part 4A**

**DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017** / **PUBLIC HEALTH (WALES) ACT 2017**

**CAIS I LYS BARN YMDRIN Â THROSEDD HONEDIG** / **REQUEST FOR ALLEGED OFFENCE TO BE DEALT WITH BY A COURT OF LAW**

| | | |
|---|---|---|
| At<br>[Enw'r awdurdod gorfodi a'r cyfeiriad lle y dylid anfon Rhan 4A] | ______________________ | To<br>[Name and address of enforcement authority where Part 4A should be sent] |
| **Rhif yr hysbysiad cosb benodedig** | ______________________ | **Fixed penalty notice number** |
| Rwyf yn dymuno i lys barn ymdrin â mi mewn cysylltiad â'r drosedd honedig. | | I wish to be dealt with by a court of law for the alleged offence. |
| Enw llawn y troseddwr honedig | ______________________ | Full name of alleged offender |
| Cyfeiriad y troseddwr honedig | ______________________<br>______________________<br>______________________ | Address of alleged offender |
| Cod post | ______________________ | Post code |
| Llofnod | ______________________ | Signature |
| Dyddiad | ______________________ | Date |

**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020.

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
29 Medi 2020

## RHAN 1

## Disgrifiad

1. Datblygwyd y Memorandwm Esboniadol hwn i ystyried goblygiadau cyflwyno Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 (“Rheoliadau 2020”). Bydd Rheoliadau 2020 yn ategu darpariaethau penodol ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[1] (“Deddf 2017”) ac yn cefnogi gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru o gymdeithas ddi-fwg i Gymru lle mae’r niwed a achosir gan dybaco yn cael ei ddileu. Rhoddwyd y  Brenhinol i Ddeddf 2017 ar 3 Gorffennaf 2017.

2. Mae Pennod 1 o Ddeddf 2017 yn ailddatgan darpariaethau penodol sy’n ymwneud ag ysmygu yn Adran 1 o Ddeddf Iechyd 2006[2] (“Deddf 2006”), i’r graddau y mae’n ymwneud â Chymru. Gwnaeth Deddf 2006 weithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn ddi-fwg, a rhoddodd bwerau i awdurdodau cenedlaethol wneud esemptiadau cyfyngedig i’r gofynion di-fwg a darparu ar gyfer cerbydau di-fwg a lleoedd di-fwg ychwanegol. Roedd y rhain wedi’u gosod allan yn Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 (“Rheoliadau 2007”) a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2007 ac a ddiwygiwyd yn 2015 mewn perthynas ag ysmygu mewn cerbydau preifat sy’n cludo personau o dan 18 oed[3] ac yn 2016[4] mewn perthynas ag ysmygu mewn carchardai.

3. Mae Pennod 1 o Ddeddf 2017 hefyd yn ymestyn y darpariaethau di-fwg yng Nghymru i gynnwys rhai mangreoedd nad ydynt yn gaeedig neu’n sylweddol gaeedig; tiroedd ysbytai, meysydd chwarae cyhoeddus, tiroedd ysgolion a lleoliadau gofal awyr agored i blant yw’r rhain, ac mae’n awdurdodi pob awdurdod lleol i weithredu fel awdurdod gorfodi mewn perthynas â’r mangreoedd, lleoedd a cherbydau di-fwg yn ei ardal.

4. Bydd Rheoliadau 2020 yn ategu darpariaethau penodol ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 2017 a byddant yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau 2007 sy’n gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus a mannau gwaith caeedig. Byddant hefyd yn dirymu ac yn disodli diwygiadau dilynol i Reoliadau 2007 ynghylch ysmygu mewn cerbydau preifat.

5. Ar y cyd â phwerau a darpariaethau yn Neddf 2017, bydd Rheoliadau 2020 hefyd yn ymestyn y darpariaethau di-fwg yng Nghymru i gynnwys rhai mangreoedd nad ydynt yn gaeedig neu’n sylweddol gaeedig, sef tiroedd ysbytai, meysydd chwarae cyhoeddus, tiroedd ysgolion a lleoliadau gofal awyr agored i blant. Mae gwaharddiadau gwirfoddol ar ysmygu eisoes ar waith mewn llawer o’r lleoliadau hyn, ond er gwaethaf yr ymdrechion gorau, bu gorfodaeth yn anodd.

**1** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh
**2** Deddf Iechyd 2006 https://www.legislation.gov.uk/understanding-legislation
**3** Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1363/contents/made/welsh
**4** Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2016 https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1363/contents/made/welsh

6. Rhoddir ystyriaeth fanwl i gostau a manteision y darpariaethau ar ysmygu yn Neddf 2017 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r Ddeddf honno sydd ar gael ar wefan Senedd Cymru[5]. Dim ond y costau a'r manteision hynny sy'n ychwanegol at y rhai a ystyriwyd eisoes a drafodir yn y ddogfen hon felly.

**Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

7. Roedd Rheoliadau 2020 yn gofyn am hysbysu'r UE yn unol â gofynion Cyfarwyddeb Safonau a Rheoliadau Technegol 2015/1535/EC[6]. Mae hyn o ganlyniad i'r gofynion technegol yn y Rheoliadau o ran gosodiad, a ffurf, arwyddion dim ysmygu (Rheoliadau 13, 14 a 18). Roedd y broses hon yn gofyn am gyfnod segur o dri mis pan oedd Rheoliadau 2020 yn parhau ar ffurf drafft ac ni chawsant eu gosod gerbron y Senedd. Dechreuodd y cyfnod segur ar 23/06/20 a daeth i ben ar 24/09/20. Ni wnaed unrhyw wrthwynebiadau gan Aelod-wladwriaethau i Reoliadau drafft 2020.

**Cefndir deddfwriaethol**

8. Bydd Rheoliadau 2020 yn cael eu gwneud o dan bwerau ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 2017 ac Atodlen 1 iddi. Mae Rhan 3 yn ymwneud â thybaco a chynhyrchion nicotin. Mae Pennod 1 o Ran 3 yn rhoi darpariaethau i gyfyngu ar ysmygu mewn gweithleoedd, mannau cyhoeddus, lleoliadau gofal awyr agored i blant, tiroedd ysgolion, tiroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus, ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n cyfyngu ar ysmygu mewn mangreoedd eraill, ac mewn cerbydau.

9. Fel y nodwyd uchod, gwnaeth Deddf 2006 weithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn ddi-fwg, a rhoddodd bwerau i awdurdodau cenedlaethol wneud esemptiadau cyfyngedig i'r gofynion di-fwg a darparu ar gyfer cerbydau di-fwg a lleoedd di-fwg ychwanegol. Gwnaed Rheoliadau 2007 o dan y Ddeddf hon a sefydlodd y drefn ddi-fwg gyntaf ledled y Deyrnas Unedig. Bydd Rheoliadau 2020 yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau 2007.

10. Bydd Rheoliadau 2007 yn cael eu harbed yn rhinwedd adran 34 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019"). Bwriedir hefyd ddibynnu ar adran 34 o Ddeddf 2019 i arbed y troseddau yn Neddf 2006 (a fyddai'n cael eu datgymhwyso o ran Cymru gan Orchymyn Cychwyn dilynol ond gan ddod i rym ar yr un pryd ag y mae Rheoliadau 2007 yn cael eu diddymu). Felly, er bod Rheoliadau 2007 yn cael eu dirymu, ac na fydd y troseddau yn Neddf 2006 yn gymwys mwyach yng Nghymru, byddai Rheoliadau 2007 a Deddf 2006 yn gymwys o hyd i unrhyw bethau a ddigwyddodd neu faterion

**5** Llywodraeth Cymru. Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol. 2017. https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld10224-em/pri-ld10224-em-w.pdf
**6** Y Comisiwn Ewropeaidd - https://ec.europa.eu/growth/tools-databases/tris/en/search/?trisaction=search.detail&year=2020&num=374

a gododd cyn dirymu Rheoliadau 2007 a datgymhwyso'r troseddau yn Neddf 2006 yng Nghymru.

11. Ailddatganodd Pennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 2017 ddarpariaethau penodol yn ymwneud ag ysmygu fel y nodir yn Adran 1 o Ddeddf 2006, i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru. Mae Deddf 2017 hefyd yn estyn y darpariaethau di-fwg yng Nghymru i gynnwys rhai mangreoedd 'nad ydynt yn gaeedig' neu 'nad ydynt yn sylweddol gaeedig', sef tiroedd ysbytai, meysydd chwarae cyhoeddus, tiroedd ysgolion a lleoliadau gofal awyr agored i blant.

12. Mae Deddf 2017 yn darparu pwerau i bennu mewn rheoliadau, at ddibenion y darpariaethau di-fwg yng Nghymru:
    - ystyr 'amgaeedig', 'sylweddol gaeedig' a 'nad ydynt yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig'
    - unrhyw fangre ddi-fwg ychwanegol;
    - unrhyw esemptiadau i fangreoedd di-fwg;
    - y darpariaethau ar ardaloedd dynodedig ar diroedd ysbytai a thiroedd ysgolion perthnasol nad ydynt yn ddi-fwg;
    - dyletswydd i atal ysmygu ar diroedd ysbytai di-fwg, tiroedd ysgolion, meysydd chwarae cyhoeddus, mangreoedd di-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg;
    - y gofynion ar gyfer cerbydau di-fwg;
    - y gofynion ar gyfer arwyddion mewn mangreoedd a cherbydau di-fwg;
    - dynodi prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu fel swyddog awdurdodedig mewn perthynas â cherbydau preifat; a,
    - ffurf a chynnwys y ffurflen hysbysiad cosb a swm y gosb.

13. Mae Rheoliadau 2020 yn tynnu ar y pwerau uchod i ategu a darparu manylion y darpariaethau di-fwg ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 2017. Fodd bynnag, nid yw Rheoliadau 2020 yn arfer y pŵer i wneud mangreoedd ychwanegol yn ddi-fwg (adran 13 o Ddeddf 2017). Mae'r pŵer hwn yn darparu hyblygrwydd i reoliadau yn y dyfodol gael eu gwneud ar leoedd ychwanegol nad ydynt yn gaeedig, os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod gwneud hynny'n debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru.

14. Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn dibynnu ar bwerau a geir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2017. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch Hysbysiadau Cosb Benodedig fel y'u cyflwynwyd gan adran 27 o Ddeddf 2017.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

15. Diben Rheoliadau 2020 yw ategu a chwblhau effaith darpariaethau ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 2017 er mwyn gwneud newidiadau i'r gwaharddiad presennol ar ysmygu a sefydlwyd yn Neddf 2006 a Rheoliadau 2007. Mae Rheoliadau 2020 yn cyflwyno elfennau newydd sydd eu hangen i weithredu'r darpariaethau di-fwg ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a

meysydd chwarae cyhoeddus yn Neddf 2017. Caiff Rheoliadau 2020 eu hategu gan ganllawiau i helpu'r rhai sy'n gyfrifol am (neu reolwyr) mangreoedd a cherbydau di-fwg eu gweithredu; a gorfodi'r gofynion gan swyddogion awdurdodedig. Mae Rheoliadau 2020 yn ategu'r mesurau a nodir yn ein Cynllun Cyflawni Cymru ar Reoli Tybaco 2017-2020[7] i wella iechyd a llesiant yng Nghymru, ac i roi mwy o bwyslais ar atal yn unol â'n strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*.

16. Roedd ysmygu unwaith yn normal ledled llawer o gymdeithas. Mae'n gynyddol anghyffredin erbyn hyn. Mae lleihau effeithiau ysmygu ar iechyd yn flaenoriaeth polisi gydnabyddedig i Lywodraeth Cymru. Ysmygu yw un o brif achosion anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru o hyd, gyda chyfraddau ysmygu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig dros ddwbl rhai'r ardaloedd lleiaf difreintiedig[8].

17. Yr effaith y bwriedir i Reoliadau 2020 ei chael yw lleihau'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â mwg ail-law a dadnormaleiddio ymddygiad ysmygu ymhellach, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc.

18. Cyflwynwyd Deddf 2006 a Rheoliadau 2007 i amddiffyn cyflogeion a'r cyhoedd rhag effeithiau niweidiol mwg ail-law. Bydd cyfyngu ar ysmygu mewn mannau nad ydynt yn gaeedig, sef tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae plant cyhoeddus (yn ogystal â lleoliadau gofal awyr agored i blant, fel y darperir gan Adran 9 o Ddeddf 2017), yn cyfrannu at y rhesymau polisi o barhau i ddadnormaleiddio ysmygu, gan y byddai llai o gyfleoedd i weld gweithgaredd ysmygu. Mae Rheoliadau 2007 wedi dangos effeithiolrwydd polisïau di-fwg o ran dadnormaleiddio ymddygiadau ysmygu er bod y cyfyngiadau hynny wedi'u cyfyngu i fannau caeedig a sylweddol gaeedig.

19. Mae'r mwg sy'n cael ei ryddhau gan sigaréts a'i anadlu allan gan ysmygwyr yn cynnwys mwy na 50 o gemegion sy'n cael eu hadnabod fel carsinogenau, yn ogystal â llawer o gyfryngau llidiog gwenwynig[9]. Mae tystiolaeth wyddonol wedi cysylltu dod i gysylltiad â mwg ail-law i ganlyniadau iechyd andwyol, gan gynnwys canlyniadau anadlol mewn plant ac oedolion, clefyd cardiofasgwlaidd acíwt a chanser yr ysgyfaint. Er bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth hon yn seiliedig ar gysylltiad hirdymor, mae rhai astudiaethau wedi adrodd am effeithiau yn dilyn cysylltiad tymor byr i fwg tybaco, megis llid llygaid a llid anadlol ymhlith pobl nad ydynt yn ysmygu[10]. Dengys astudiaethau o'r fath y gallai hyd yn oed cysylltiad â mwg ail-law am gyfnod byr ac yn y tymor byr greu effeithiau andwyol sylweddol ar y system anadlol ddynol[11]. Y consensws, felly, yw nad oes lefel ddiogel o gysylltiad â mwg ail-law ac, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud mewn amgylcheddau di-fwg nad ydynt yn amgaeedig drwy weithredu gwirfoddol,

---

**7** https://llyw.cymru/cynllun-cymru-ar-reoli-tybaco-2017-i-2020
**8** Arolwg Cenedlaethol Cymru: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
**9** http://www.surgeongeneral.gov/library/reports/secondhandsmoke/fullreport.pdf
**10** http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/11675270
**11** http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/21178628

mae angen deddfwriaeth gynhwysfawr i wneud cynnydd sylweddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

20. Bydd Rheoliadau 2020 hefyd yn gweithio gyda deddfwriaeth arall i gyfrannu at y gostyngiad parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy’n dechrau ysmygu. Nod Rheoliadau 2020 fydd sicrhau bod ysmygu’n cael ei ddadnormaleiddio ymhellach drwy gyfyngu ar ysmygu mewn mwy o fannau cyhoeddus, yn enwedig lle mae plant yn debygol o fod yn bresennol yn rheolaidd (fel tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus). Bydd hyn yn lleihau cysylltiad plant ag ymddygiadau ysmygu oedolion yn eu bywydau bob dydd, gyda’r bwriad o’u gwneud yn llai tebygol o dyfu i fyny gan feddwl bod ysmygu yn ymddygiad normal gan oedolion neu’n rhywbeth i ymgyrraedd ato.

21. Mae gwahardd ysmygu mewn cerbydau preifat sy’n cludo plant o dan 18 oed yn cefnogi ac yn hyrwyddo’r erthyglau canlynol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP);

- Erthygl 3 – buddiannau gorau’r plentyn
- Erthygl 24 - hawl plentyn i’r iechyd a’r amddiffyniad gorau posibl wrth ystyried peryglon a risgiau llygredd amgylcheddol.

22. Bwriad y darpariaethau yn Rheoliadau 2020 sy’n ymwneud â thiroedd ysbytai yw hyrwyddo newid ymddygiad a chefnogi rhoi’r gorau i ysmygu ymhlith ysmygwyr sy’n defnyddio gwasanaethau ysbyty. Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn dileu’r esemptiad presennol sy’n caniatáu dynodi ystafell lle y gall cleifion a phreswylwyr unedau iechyd meddwl ysmygu a rhoi esemptiad dros dro yn ei le a fydd yn dod i ben 18 mis ar ôl i Reoliadau 2020 ddod i rym. Mae nifer yr ysmygwyr ymhlith pobl â salwch meddwl yn sylweddol uwch na’r boblogaeth gyffredinol. Bydd dileu’r esemptiad hwn yn sicrhau bod y gyfraith yn cyd-fynd â’r gyfraith i ddefnyddwyr gwasanaethau ysbytai cyffredinol a bydd yn anelu at fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd i bobl â chyflyrau iechyd meddwl. Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn diwygio darpariaeth ystafelloedd ysmygu dynodedig mewn cartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion. Roedd Rheoliadau 2007 yn esemptio cartrefi gofal oedolion a hosbisau i oedolion, a oedd yn caniatáu i reolwr y fangre ddynodi ystafell ar gyfer ysmygu i’w defnyddio gan bobl dros 18 oed. Cadwyd yr esemptiad hwn yn Rheoliadau 2020 ond gyda’r amod ychwanegol mai dim ond at ddefnydd preswylwyr y cartref gofal i oedolion neu’r hosbis oedolion y mae’r ysgafell ysmygu ddynodedig (Rheoliad 6(2)(a)).

23. Bydd Rheoliadau 2020 hefyd yn dileu’r esemptiad sy’n caniatáu dynodi ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu mewn gwestai, tai llety, hostelau, tafarnau a chlybiau aelodau ac yn rhoi esemptiad dros dro yn ei le a fydd yn dod i ben 12 mis ar ôl i reoliadau 2020 ddod i rym. Mae darpariaeth debyg ar gyfer llety gwyliau hunangynhwysol neu lety dros dro (fel carafanau statig a ddefnyddir at ddibenion rhentu fel llety gwyliau neu ddibenion dros dro a bythynnod a chabanau gwyliau, a fflatiau a rhandai a ddarperir i’w gosod am dymor byr ar gyfer llety gwyliau i’w rentu). Mae’r gwaharddiad ar ysmygu

wedi'i wreiddio yng Nghymru i'r graddau nad yw'r esemptiad presennol yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Byddai dileu'r dynodiad hwn yn ymestyn diogelwch rhag niwed iechyd mwg ail-law yn y gweithle i bob gweithiwr mewn mangreoedd o'r fath ac yn cefnogi nod terfynol Llywodraeth Cymru o gymdeithas ddi-fwg.

**Ymgynghoriad**

24. Yn 2018 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos ar y Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg drafft, ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. Ceir crynodeb llawn o'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru[12]. Gwnaed nifer o ddiwygiadau i'r Rheoliadau drafft yn dilyn adborth gan randdeiliaid i'r ymgynghoriad. Roedd y newidiadau hyn yn ymwneud â'r materion canlynol:

<u>Anheddau – esemptiadau i 'waith'</u>

25. Mae Adran 7 o Ddeddf 2017 yn darparu bod mangreoedd yng Nghymru yn ddi-fwg os ydynt yn weithleoedd. Y bwriad yw amddiffyn cynifer o weithwyr â phosibl rhag peryglon mwg ail-law, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn anheddau pobl eraill. Mae Rheoliadau 2020 yn dileu esemptiadau ar gyfer mathau penodol o weithgareddau gwaith o'r broses o asesu a yw annedd yn weithle at ddibenion Adran 7. Diffiniwyd gweithgareddau gwaith yn benodol yn Rheoliadau 2007 ac roeddent yn ymwneud â darparu gwasanaeth i'r personau sy'n byw yno, megis gofal personol/iechyd, cynorthwyo gyda gwaith domestig neu waith cynnal a chadw ac ati. Effaith dileu'r esemptiadau hyn o fewn Rheoliadau 2020 yw y bydd pob math o weithgareddau gwaith yn cael eu cynnwys wrth asesu a yw annedd yn weithle ac felly bydd yn ofynnol i fwy o'r gweithleoedd hynny fod yn ddi-fwg. Fodd bynnag, cyfyngir yr effaith hon gan adran 7(5) o Ddeddf 2017 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r mannau a bennir yn anheddau/gweithleoedd fod yn ddi-fwg yn y rhannau a ddefnyddir fel gweithle yn unig ac am y cyfnod y'u defnyddir felly.

<u>Llety dros dro neu lety gwyliau hunangynhwysol</u>

26. Dylai pob llety dros dro a llety gwyliau fod yn ddi-fwg cyn gynted â phosibl. Mae Rheoliadau 2020 yn cyflwyno esemptiad dros dro i'r gofynion di-fwg ar gyfer llety hunangynhwysol a ddefnyddir at ddibenion dros dro neu wyliau. Bydd yr esemptiad ar gyfer y mathau hyn o fangreoedd yn peidio â bod yn gymwys 12 mis ar ôl i Reoliadau 2020 ddod i rym. Bydd y cyfnod pontio hwn yn rhoi amser i'r person â gofal am y cyfryw fangre wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'w llety. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd yn rhaid i lety hunangynhwysol a ddefnyddir at ddibenion dros dro neu wyliau fod yn ddi-fwg os ydynt yn weithle neu'n agored i'r cyhoedd. Mae'r newid hwn yn sicrhau bod y gofynion di-fwg ar gyfer llety o'r fath yn cyd-fynd â gwestai, tai llety, hostelau a chlybiau aelodau, y bydd yn ofynnol iddynt ddileu unrhyw ystafelloedd gwely ysmygu dynodedig (a ganiateir o dan Reoliadau 2007)

12 https://llyw.cymru/rheoliadau-mangreoedd-cherbydau-di-fwg-cymru-2018

erbyn diwedd y cyfnod pontio o 12 mis. Mae mangreoedd a ddefnyddir i unrhyw raddau fel annedd wedi'u hesemptio o'r darpariaethau hyn.

Dyletswydd i atal ysmygu

27. Mae Rheoliadau 2020 wedi cyflwyno dyletswydd ar y rhai sy'n rheoli tiroedd ysgolion, tiroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus i gymryd camau rhesymol i atal ysmygu. Mae hyn yn newid i'r bwriad polisi gwreiddiol, a oedd o'r farn bod y mathau hyn o fangreoedd yn rhy wasgaredig i wneud y ddyletswydd hon yn hyfyw. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau pellach gyda thimau gorfodi a Byrddau Iechyd yn y cyfnod ar ôl ymgynghori, cytunwyd bod angen dyletswydd er mwyn sefydlu cyfrifoldeb.

Hysbysiadau cosb benodedig

28. Ceir darpariaeth ynghylch hysbysiadau cosb benodedig yn adran 27 o Ddeddf 2017 ac Atodlen 1 y Ddeddf honno. Mae swm yr hysbysiad cosb benodedig a swm gostyngol y gosb wedi'i gynyddu i £100 a £75 yn y drefn honno (cyn yr ymgynghoriad, y cynigion oedd £50 a £30 yn y drefn honno) mewn perthynas â throseddau:
    - ysmygu mewn mangreoedd neu gerbydau di-fwg; a
    - methu ag atal ysmygu mewn cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill pan fo person o dan 18 oed yn bresennol.

    Bydd hyn yn sicrhau bod hysbysiadau cosb benodedig sy'n ymwneud â throseddau di-fwg yn cyd-fynd yn agosach â throseddau tebyg fel taflu sbwriel a baeddu cŵn.

Tiroedd ysbytai ac ysgolion: ardaloedd dynodedig

29. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r amodau yn ymwneud ag ardaloedd dynodedig ar gyfer ysmygu ar diroedd ysbytai ac ysgolion sy'n darparu llety preswyl yn dilyn yr ymgynghoriad. Ystyriwyd y posibilrwydd o ganiatáu ardaloedd ysmygu dynodedig ar diroedd ysbytai ac ysgolion lle mae'r tiroedd yn rhy fach i gydymffurfio â'r amodau arferol ar bellter (h.y. ei fod 10 metr i ffwrdd o unrhyw fangre ddi-fwg arall) ond fe'i hanwybyddwyd ar y sail y byddai'n groes i'r bwriad polisi sylfaenol o gyfyngu ar fwg yn ymledu.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

1. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'i gwblhau i ystyried goblygiadau cyflwyno Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Bydd y Rheoliadau hyn yn gweithredu darpariaethau ysmygu penodol ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017") ac yn cefnogi gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru o gymdeithas ddi-fwg i Gymru lle mae'r niwed a achosir gan dybaco yn cael ei ddileu. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adeiladu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2017 (darperir dolen i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2017 yn nhroednodyn 5 uchod, mae'r asesiad perthnasol ar dudalennau 109-126).

2. Lluniwyd Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Rheoliadau 2020. Cyhoeddir Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/ysmygu

## Opsiynau

3. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried tri opsiwn:

   - **Opsiwn Un** – Gwneud dim.

   - **Opsiwn Dau** – Cyflwyno rheoliadau ar wahardd ysmygu ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus a fyddai'n defnyddio'r pwerau yn Neddf 2017 i:
     - egluro ystyr 'ddim yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig'
     - nodi'r gofynion ar arwyddion dim ysmygu yn y mangreoedd hyn, a
     - darparu'r amodau ar gyfer unrhyw ardaloedd ysmygu dynodedig ar diroedd ysbytai a thiroedd ysgolion sydd â llety preswyl i ddisgyblion.

     Ni fyddai Opsiwn Dau yn gwneud unrhyw newidiadau i ofynion cyfredol Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007") (h.y. cadw'r darpariaethau cyfredol ar, er enghraifft, arwyddion dim ysmygu mewn mangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig, yr esemptiadau a ganiateir i fangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig di-fwg, ac ar gerbydau di-fwg).

   - **Opsiwn Tri** – Cyflwyno rheoliadau ar wahardd ysmygu ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae plant fel Opsiwn Dau ond hefyd gwneud newidiadau i'r darpariaethau presennol o fewn Rheoliadau 2007, sef:
     - mireinio ystyr presennol 'sylweddol gaeedig';
     - darparu esemptiadau ar gyfer anheddau sy'n weithleoedd lle mae amodau penodol yn bodoli;
     - cyflwyno esemptiad dros dro ar gyfer dynodi ystafelloedd lle caniateir ysmygu i gleifion mewn unedau iechyd meddwl a fyddai'n dod i ben 18 mis ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym;

- cyflwyno esemptiad dros dro ar gyfer dynodi ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu mewn gwestai, tai llety, tafarnau a chlybiau aelodau, a hefyd llety dros dro neu wyliau hunangynhwysol a fydd yn dod i ben 12 mis ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym;
- llai o ofynion ar gyfer y delweddau graffig a ddefnyddir ar bob arwydd dim ysmygu;
- cyflwyno rhybuddion ysgrifenedig penodol ar gyfer arwyddion dim ysmygu ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus;
- cyflwyno dyletswydd i atal ysmygu ar dir yr ysgol, tiroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus; a
- darparu bod cerbydau caeedig yn ddi-fwg pan gânt eu defnyddio at ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol tra'n cario person sy'n derbyn nwyddau neu wasanaethau gan berson arall sydd hefyd yn y cerbyd.

Byddai Opsiwn Tri yn cadw'r darpariaethau yn Rheoliadau 2007 i:

- ddarparu esemptiad i'r gofynion di-fwg ar gyfer cyfleusterau ymchwil a phrofi;
- sefydlu'r gofynion ar gyfer unrhyw ystafelloedd a ddynodwyd ar gyfer ysmygu;
- ei gwneud yn ofynnol i gerbydau caeedig a ddefnyddir yn bennaf i gludo aelodau o'r cyhoedd neu at ddibenion gwaith gan fwy nag un person fod yn ddi-fwg drwy'r amser;
- ei gwneud yn ofynnol i gerbydau preifat caeedig fod yn ddi-fwg tra'n cludo pobl o dan 18 oed; a,
- sefydlu'r symiau ar gyfer cosb benodedig.

4. Opsiwn Tri yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.

5. Gellid ychwanegu tiroedd sydd ddim yn gaeedig/sylweddol gaeedig ychwanegol yn y dyfodol o dan opsiynau Dau a Thri.

**Opsiwn Un – Gwneud dim**

**Disgrifiad**

6. Ni fyddai unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth bresennol o dan yr opsiwn hwn. Ni fyddai'r darpariaethau yn Neddf 2017 ynglŷn â thiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus di-fwg yn cael eu gweithredu. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

7. Nid yw'r opsiwn i wneud dim yn cael ei ystyried yn ddigonol.

**Opsiwn Tri – Cyflwyno rheoliadau ar waharddiadau ysmygu ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus heb unrhyw newid i ofynion presennol Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007**

**Disgrifiad**

8. Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno'r rheoliadau angenrheidiol i gwblhau'r cyfyngiadau ar ysmygu ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus yn Neddf 2017 a'u gwneud yn effeithiol. Byddai'r rheoliadau'n rhoi ystyr i 'ddim yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig' ac yn rhoi dyletswydd ar reolwyr y lleoedd hyn i arddangos arwyddion dim ysmygu sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol a nodir yn Rheoliadau 2007 gyda gofynion ychwanegol sy'n benodol i'r math o fangre. Rhagwelir y gellid arddangos yr arwyddion hyn ochr yn ochr ag arwyddion dim ysmygu cyfredol sy'n gysylltiedig â gwaharddiadau ysmygu gwirfoddol ar diroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus. Byddai'n rhaid i unrhyw ardaloedd ar diroedd ysbytai a thiroedd ysgolion sydd â llety preswyl ar gyfer disgyblion ac sydd wedi'u dynodi ar gyfer ysmygu fod o fewn y paramedrau a sefydlwyd gan reoliadau. Byddai'r darpariaethau ar gerbydau di-fwg, esemptiadau i'r gofynion ar weithleoedd a mannau cyhoeddus di-fwg ac arwyddion di-fwg ar gyfer gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn parhau fel y status quo a sefydlwyd gan Reoliadau 2007.

9. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r gofynion arwyddion dim ysmygu ar gyfer tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus a gynigir o dan Opsiwn Dau.

Tabl 1.

| **Agwedd ar arwydd** | **Cynnig Opsiwn Dau** |
|---|---|
| Rhybudd graffig | Yn unol â Rheoliadau 2007:<br><br>Rhaid i arwydd dim ysmygu gynnwys cynrychiolaeth graffig o sigarét sy'n llosgi wedi'i chwmpasu mewn cylch coch o leiaf 85 milimetr mewn diamedr gyda bar coch ar draws y cylch sy'n croesi'r symbol sigarét. |
| Maint/siâp cyffredinol | Yn unol â Rheoliadau 2007:<br><br>Rhaid iddo fod yn wastad ac o siâp hirsgwar ac o leiaf 160 milimetr wrth 230 milimetr. |
| Rhybudd ysgrifenedig | Rhaid iddo gynnwys rhybudd dwyieithog sy'n hawdd ei ddarllen yn Gymraeg ac yn Saesneg na chaniateir ysmygu yn y fangre sy'n cael ei chwmpasu gan y gofynion di-fwg gyda rhybudd penodol yn unol â'r math o fangre.<br><br>Er enghraifft: *"Mae ysmygu yn nhir yr ysbyty hwn yn erbyn y gyfraith/It is against the law to smoke in these hospital grounds";* ar gyfer meysydd chwarae heb unrhyw ffiniau clir *"Mae ysmygu o fewn 5 metr i'r cyfarpar chwarae hwn yn erbyn y gyfraith/It is* |

| | |
|---|---|
| | *against the law to smoke within 5 metres of this play equipment".* |
| Lleoliad | Rhaid ei arddangos mewn lle amlwg wrth neu'n agos at brif fynedfa mangre ddi-fwg; ar gyfer meysydd chwarae heb unrhyw ffiniau clir, mewn man amlwg ger y maes chwarae. |

**Costau**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

10. Mae'r costau i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr opsiwn hwn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2017 (mae tabl 3 yn cynnwys y costau hyn wedi'u cynyddu i brisiau 2019-20). Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i'r rhai a nodwyd yn flaenorol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwnnw ar gyfer Llywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn.

<u>Gorfodaeth</u>

11. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gorfodi darpariaethau'r opsiwn hwn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017 (mae tabl 3 yn cynnwys y costau hyn wedi'u cynyddu i brisiau 2019-20). Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i'r rhai a nodwyd yn flaenorol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwnnw ar gyfer gorfodi o dan yr opsiwn hwn. Tybir bod nifer a gwerth yr hysbysiadau cosb benodedig a'r dirwyon i aelodau'r cyhoedd yr un fath ag yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2017.

<u>Tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus</u>

12. O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i reolwyr tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus ddarparu arwyddion dim ysmygu sy'n cydymffurfio â'r gofynion. Byddai hyn yn ychwanegol at unrhyw arwyddion gwahardd ysmygu gwirfoddol sydd eisoes yn bodoli. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017 yn cyfrifo cost nifer cyfyngedig o arwyddion ychwanegol ar diroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus, ac arwyddion newydd ar gyfer tiroedd ysgolion; ar gyfer ysbytai, cynhwyswyd cost sticeri ar ddrysau mynediad a chysgodfeydd bysiau yn ogystal ag allanfeydd i gerddwyr o feysydd parcio hefyd. O dan yr opsiwn hwn, felly, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r rhai a gyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017 (mae tabl 3 yn cynnwys y costau hyn wedi'u cynyddu i brisiau 2019-20).

13. Ni fyddai dynodi ardaloedd lle caniateir ysmygu ar diroedd ysgol sydd â llety preswyl i ddisgyblion a thiroedd ysbytai yn un o ofynion gorfodol y ddeddfwriaeth ac felly nid yw'r gost o godi cysgodfeydd ac arwyddion ysmygu yn cael eu cynnwys yn yr arfarniad hwn.

14. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ystyried canllawiau, diweddaru polisïau di-fwg a thalu unrhyw hysbysiadau cosb benodedig am beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd i arddangos arwyddion priodol yn cael eu cynnwys yn yr

Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017 (mae tabl 3 yn cynnwys y costau hyn wedi'u cynyddu i brisiau 2019-20).

*Tabl 3. Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn Dau.*

| | 2020/21 (£) | 21/22 (£) | 2022/23 (£) | 2023/24 (£) | 2024/25 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Ymgyrch Gyfathrebu | £51,400 - £72,500 | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Cynhyrchu canllawiau ar gyfer sefydliadau, busnesau a'r cyhoedd. | £9,000 | **£0** | **£0** | **£1,600** | **£0** |
| Dylunio a chyfieithu'r canllawiau newydd | £1,200 | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Diweddaru canllawiau CLILC sy'n ymwneud â gorfodi'r darpariaethau yn Neddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Di-fwg 2007. | £1,600 | **£0** | **£0** | **£1,600** | **£0** |
| Sesiynau hyfforddi gorfodaeth | £2,500 | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **£65,700 - £86,800** | **£0** | **£0** | **£3,200** | **£0** |
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Adolygu arferion neu bolisïau gwirfoddol presennol yn erbyn deddfwriaeth | **£40,900** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Hyfforddiant gorfodaeth | **£9,900** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Arwyddion – Ysgolion | **£17,400 - £68,000** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arwyddion – Meysydd Chwarae | **£24,000 - £66,700** | **£6,100 - £16,700** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **£92,200 - £185,500** | **£6,100 - £16,700** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Ysgolion (Gwirfoddol a gynorthwyir, sefydledig ac annibynnol)** | | | | | |
| Adolygu arferion neu bolisïau gwirfoddol presennol yn erbyn deddfwriaeth | **£6,600** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Arwyddion | **£3,400 - £11,200** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Cyfanswm y costau i ysgolion | **£10,000 - £17,800** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Byrddau Iechyd** | | | | | |
| Adolygu arferion neu bolisïau gwirfoddol presennol yn erbyn deddfwriaeth | **£3,500** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Arwyddion | **£17,500 - £22,000** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Cyfanswm y costau i Fyrddau Iechyd | **£21,000 - £25,500** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Ysbytai Annibynnol** | | | | | |
| Adolygu arferion neu bolisïau gwirfoddol presennol yn erbyn deddfwriaeth | **£900** | | | | |
| Arwyddion | **£3,400 - £4,000** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Cyfanswm y costau ar gyfer ysbytai annibynnol** | **£4,300 - £4,900** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Y Cyhoedd** | | | | | |
| Hysbysiadau cosb benodedig | **£3,100** | **£4,200** | **£4,00** | **£2,000** | **£2,000** |
| Dirwyon | **£2,000** | **£1,800** | **£2,200** | **£600** | **£600** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y costau i'r cyhoedd | **£5,100** | **£6,000** | **£6,200** | **£2,600** | **£2,600** |
| Cyfanswm y costau | **£198,300 - £325,600** | **£12,100 - £22,700** | **£6,200** | **£5,800** | **£2,600** |

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

15. Mae'r manteision i Lywodraeth o ran yr opsiwn hwn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol i'r rhai a nodwyd yn flaenorol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwnnw i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn.

Gorfodaeth

16. Byddai gorfodaeth yn elwa o roi ystyr i 'ddim yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig' gan y byddai hyn yn rhoi eglurder wrth gymhwyso'r darpariaethau ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus ac unrhyw fangre ddi-fwg yn y dyfodol sydd ddim yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.

17. Mae manteision eraill o ran gorfodaeth yn cael eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017.

Tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus

18. Mae'r manteision i reolwyr tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus sy'n gweithredu polisïau di-fwg gwirfoddol ar hyn o bryd a fyddai'n cael eu hategu gan ddeddfwriaeth o dan yr opsiwn hwn yn cael eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol i'r rhai a nodwyd yn flaenorol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwnnw i reolwyr tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus o dan yr opsiwn hwn.

Y Cyhoedd

19. Bydd arwyddion clir sy'n hysbysu'r cyhoedd nad yw ysmygu'n cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus yn helpu gyda chydymffurfio ac felly'n helpu'r cyhoedd i osgoi cael dirwy hysbysiad cosb benodedig am ysmygu mewn lle di-fwg.

Iechyd

20. Byddai Opsiwn Dau yn gweithio ochr yn ochr â mesurau rheoli tybaco eraill i ddadnormaleiddio ysmygu ymhellach a lleihau'r peryglon o ddod i gysylltiad â mwg ail-law. Caiff y manteision hyn eu harchwilio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017. Nid oes unrhyw fanteision iechyd ychwanegol i'r rhai a nodwyd yn flaenorol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwnnw.

**Opsiwn Tri – Cyflwyno rheoliadau ar waharddiadau ysmygu ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus gyda newidiadau i ofynion presennol Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007**

**Disgrifiad**

21. Byddai'r opsiwn hwn fel Opsiwn Dau ond gyda rhai newidiadau i'r darpariaethau di-fwg a sefydlwyd gan Reoliadau 2007.

<u>Diffiniadau</u>

22. Byddai Opsiwn Tri yn diweddaru ystyr 'sylweddol gaeedig' a sefydlwyd gan Reoliadau 2007. Byddai'r newid hwn yn egluro y dylid cynnwys strwythurau eraill sy'n rhan o berimedr y fangre wrth wneud ystyriaeth o'r fath.

<u>Esemptiadau</u>

23. Mae Rheoliadau 2007 yn darparu bod anheddau sy'n weithleoedd yn ddi-fwg yn y rhannau hynny a ddefnyddir at ddibenion gwaith yn unig ac y dylai'r rhannau hynny fod yn ddi-fwg drwy'r amser yn unol â Deddf 2006. Byddai Opsiwn Tri yn newid y ddarpariaeth hon i gefnogi'r bwriad polisi o amddiffyn cynifer o weithwyr â phosibl rhag peryglon mwg ail-law, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn anheddau pobl eraill. Mae Opsiwn 3 yn dileu esemptiadau ar gyfer mathau penodol o weithgareddau gwaith o'r broses o asesu a yw annedd yn weithle at ddibenion Adran 7 o Ddeddf 2017. Diffiniwyd gweithgareddau gwaith yn benodol yn Rheoliadau 2007 ac roeddent yn ymwneud â darparu gwasanaeth i'r personau sy'n byw yno, megis gofal personol/iechyd, cynorthwyo gyda gwaith domestig neu waith cynnal a chadw ac ati. Effaith dileu'r esemptiadau hyn yw y bydd pob math o weithgareddau gwaith yn cael eu cynnwys wrth asesu a yw annedd yn weithle ac felly bydd yn ofynnol i fwy o leoedd gwaith fod yn ddi-fwg. Fodd bynnag, cyfyngir yr effaith hon gan adran 7(5) o Ddeddf 2017 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r mannau a bennir yn anheddau/gweithleoedd fod yn ddi-fwg yn y rhannau a ddefnyddir fel gweithle yn unig ac am y cyfnod y'u defnyddir felly.

24. Byddai Opsiwn Tri yn disodli tri o'r esemptiadau presennol yn Rheoliadau 2007 gydag esemptiadau dros dro. Ar gyfer unedau iechyd meddwl, byddai'r caniatâd i ddynodi ystafell lle caniateir ysmygu yn y fangre yn dod i ben 18 mis ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Ar gyfer gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau ("gwestai, etc") byddai'r caniatâd i ddynodi ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu yn dod i ben 12 mis ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Bydd yn ofynnol i lety gwyliau hunangynhwysol neu lety dros dro (fel carafannau statig a ddefnyddir at ddibenion rhentu fel llety gwyliau neu ddibenion dros dro, eiddo gwyliau i'w osod fel bythynnod a chabanau gwyliau, a fflatiau a rhandai a ddarperir i'w gosod am dymor byr) fod yn ddi-fwg 12 mis ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Unwaith y bydd yr esemptiadau dros dro hyn wedi dod i ben, byddai'n rhaid i unedau iechyd meddwl, gwestai, etc a llety gwyliau a llety dros dro fod yn ddi-fwg drwy gydol eu mangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig.

Dyletswydd i atal ysmygu

25. Byddai Opsiwn Tri yn cyflwyno dyletswydd ar y rhai sy'n rheoli tiroedd ysgolion, tiroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus i gymryd camau rhesymol i atal ysmygu. Mae angen y ddyletswydd hon er mwyn sefydlu cyfrifoldeb am atal ysmygu.

Arwyddion dim ysmygu

26. Byddai Opsiwn Tri yn lleihau'r gofynion sylfaenol ar gyfer pob math o arwyddion di-fwg drwy lacio'r gofynion ynglŷn â'r rhybudd graffig a dileu'r rhybudd testun penodol ar gyfer mangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig di-fwg. Y bwriad fyddai adolygu'r gofynion arwyddion dim ysmygu ar diroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus dair blynedd ar ôl i'r darpariaethau ddod i rym gyda'r bwriad o'u llacio – os bydd cydymffurfiaeth â'r gwaharddiadau ysmygu ar lefelau derbyniol - i'r un gofynion llai caeth â mangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig.

27. Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i'r gofynion arwyddion dim ysmygu a gynigir o dan Opsiwn Tri.

Tabl 2

| **Agwedd ar arwydd** | **Rheoliadau 2007** | **Cynnig Opsiwn 3** |
|---|---|---|
| Rhybudd graffig | Mangreoedd<br>Rhaid i arwydd dim ysmygu gynnwys cynrychiolaeth graffig o sigarét sydd wedi'i thanio wedi'i amgylchynu gan gylch coch o leiaf 85 milimetr o ddiamedr gyda bar coch ar draws y cylch sy'n croesi'r symbol sigarét.<br><br>Cerbydau<br>Rhaid i arwydd dim ysmygu gynnwys cynrychiolaeth graffig o sigarét sydd wedi'i thanio wedi'i amgylchynu gan gylch coch o leiaf 75 milimetr o ddiamedr gyda bar coch ar draws y cylch sy'n croesi'r symbol sigarét. | Holl fangreoedd a cherbydau<br>Rhaid i'r arwydd dim ysmygu gynnwys cynrychiolaeth graffig ddealladwy o sigarét wedi'i thanio mewn cylch gyda llinell drwyddo sy'n croesi'r symbol sigarét. |
| Maint/siâp cyffredinol | Mangreoedd<br>Rhaid iddo fod yn wastad ac yn hirsgwar ac o leiaf 160 milimetr wrth 230 milimetr.<br><br>Cerbydau<br>Heb ei bennu. | Holl fangreoedd a cherbydau<br>Heb ei bennu. |

| | | |
|---|---|---|
| Rhybudd ysgrifenedig | <u>Mangreoedd</u><br>Rhaid cynnwys y geiriau canlynol – "Mae ysmygu yn y fangre hon yn erbyn y gyfraith / It is against the law to smoke in these premises".<br><br><u>Cerbydau</u><br>Amherthnasol. | <u>Mangreoedd a cherbydau caeedig a sylweddol gaeedig</u><br>Heb ei bennu.<br><br><u>Tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus</u><br>**[Fel Opsiwn Dau]**<br>Rhaid cynnwys rhybudd dwyieithog sy'n hawdd ei ddarllen yn Gymraeg ac yn Saesneg na chaniateir ysmygu yn y fangre sy'n cael ei chwmpasu gan y gofynion di-fwg gyda neges rhybudd benodol yn unol â'r math o fangre.<br><br>Er enghraifft: *"Mae ysmygu yn nhir yr ysbyty hwn yn erbyn y gyfraith/ It is against the law to smoke in these hospital grounds";* ar gyfer meysydd chwarae sydd heb ffiniau clir *"Mae ysmygu o fewn 5 metr i'r cyfarpar chwarae hwn yn erbyn y gyfraith/It is against the law to smoke within 5 metres of this play equipment".* |
| Lleoliad | <u>Mangreoedd</u><br>Rhaid ei arddangos mewn lle amlwg wrth neu'n agos at bob mynedfa i fangre ddi-fwg.<br><br><u>Cerbydau</u><br>Rhaid ei arddangos mewn man amlwg ym mhob adran o'r cerbyd, sy'n cael ei orchuddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan do, gan gynnwys caban y gyrrwr. | <u>Mangreoedd a cherbydau caeedig a sylweddol gaeedig</u><br>Heb ei bennu.<br><br><u>Tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus</u><br>**[Fel Opsiwn Dau]**<br>Rhaid ei arddangos mewn lle amlwg wrth neu'n agos at bob mynedfa i fangre ddi-fwg; ar gyfer meysydd chwarae heb unrhyw ffiniau clir, mewn man amlwg ger y maes chwarae. |

Cerbydau Di-fwg

28. Byddai Opsiwn Tri yn ychwanegu at y mathau o gerbydau caeedig y mae'n ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg drwy ei gwneud yn ofynnol i gerbydau caeedig fod yn ddi-fwg wrth gael eu defnyddio at ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol tra'n cario person sy'n derbyn nwyddau neu wasanaethau gan y sawl sy'n defnyddio'r cerbyd. Nid yw'r darpariaethau presennol ar gerbydau di-fwg yn cwmpasu cerbydau o'r fath oherwydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion gwaith neu drafnidiaeth gyhoeddus ac nad ydynt yn cael eu defnyddio'n breifat ar adeg eu defnyddio. Er enghraifft, car a ddefnyddir wrth ofalu am blant i fynd â phlant i/o'r ysgol ond a ddefnyddir fel arall at ddibenion preifat, cymdeithasol neu ddomestig; car sy'n cael ei ddefnyddio'n rhan-amser yn unig i ddarparu gwasanaethau hurio preifat. Ni fyddai'n ofynnol i'r cerbydau hyn fod yn ddi-fwg drwy'r amser, dim ond pan fydd person yn y cerbyd sy'n derbyn nwyddau neu wasanaethau gan y person sy'n defnyddio'r cerbyd.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

29. Byddai cost yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn wrth weithredu'r ddeddfwriaeth a chynhyrchu canllawiau cysylltiedig.

30. Byddai angen hysbysebu'r ddeddfwriaeth newydd gydag ysgolion, ysbytai, awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant, gwestai, etc, gweithredwyr twristiaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol. Ar gyfer rheolwyr mangreoedd a swyddogion gorfodi, byddai hyn yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r llwybrau cyfathrebu arferol. Byddai ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus hefyd ar ddarpariaethau newydd y gwaharddiad ar ysmygu.

31. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cefnogi Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, y dull o ddarparu canllawiau oedd diweddaru'r canllawiau di-fwg presennol. Fodd bynnag, ers yr ymgynghoriad, daeth yn amlwg y bydd angen ailwampio'r canllawiau'n fwy helaeth felly mae'r costau wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r gwaith ychwanegol. Amcangyfrifir bod y costau hyn tua £9,000 er mwyn talu costau staffio i ysgrifennu'r canllawiau (yn seiliedig ar 6,000 o eiriau) ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau'n addas at y diben. Mae hyn yn seiliedig ar tua phum wythnos o swyddog gweithredol uwch cyfwerth ag amser llawn (£5,500) i ddatblygu'r canllawiau, a phum wythnos o gymorth tîm cyfwerth ag amser llawn ar gyfer cymorth gweinyddol (tua £3,500).

32. Rhagwelir y byddai angen wythnos o waith swyddog gweithredol 0.5 cyfwerth ag amser llawn ar ddylunio a chysodi, a fyddai'n costio tua £600. Amcangyfrifir y byddai cyfieithu a phrawfddarllen yn costio tua £600. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer y canllawiau gan mai dim ond yn electronig y byddent yn cael eu cynhyrchu. Cyfanswm y gost ar gyfer datblygu, dylunio a chyfieithu'r canllawiau felly fyddai £10,200. Byddai'r costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r canllawiau yn cael eu hysgwyddo yn 2020/21.

33. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Rhagwelir y byddai hyn yn gofyn am tua wythnos o waith swyddog gweithredol uwch

cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n cyfateb i tua £1,100. Byddai costau dylunio a chyfieithu yn gyfystyr â hanner y costau gwreiddiol, cyfanswm o £600. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer yr adolygiad gan mai dim ond yn electronig y byddai'n cael ei gynhyrchu. Felly cyfanswm y gost ar gyfer pob adolygiad fyddai tua £1,700, yn cael ei ysgwyddo bob tair blynedd. Byddai'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal yn 2023-24.

34. Yn yr un modd, byddai angen diweddaru canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[13] sy'n ymwneud â gorfodi'r darpariaethau yn Neddf 2006 a Rheoliadau 2007 i gynnwys dull cymorth a gorfodi cyffredin o ymdrin â'r darpariaethau newydd, gyda chyngor arfer gorau ar gyfer y rhai sy'n gweithredu'r ddeddfwriaeth.

35. Ystyriwyd y costau ar gyfer yr ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2017. Yn seiliedig ar yr asesiad hwnnw, amcangyfrifir bod y gost i Lywodraeth Cymru yn 2020-21 rhwng £51,400 a £72,500 (mae costau wedi'u cynyddu i brisiau 2019-20).

<u>Gorfodaeth</u>

36. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r ddyletswydd i atal ysmygu yn cael ei chymhwyso ar gyfer tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus. Darperir canllawiau i reolwyr y mangreoedd hyn i'w cynorthwyo i weithredu'r ddyletswydd, i ddangos cydymffurfiaeth ac i sicrhau cysondeb wrth gymhwyso unrhyw gamau gorfodi. Bydd hyfforddiant ar gael i swyddogion gorfodi ar yr elfen hon hefyd.

37. Roedd cyllid o £2,000,000 y flwyddyn ar gael i awdurdodau lleol pan ddaeth Rheoliadau 2007 i rym. Gan fod y gofynion di-fwg presennol bron yn gweithredu eu hunain, byddai disgwyl i'r gwaith o orfodi'r gofynion di-fwg estynedig gael eu cynnwys yn y gyllideb bresennol hon.

<u>Anheddau sy'n weithleoedd</u>

38. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i anheddau sy'n weithleoedd o dan yr opsiwn hwn gan na ddisgwylir i anheddau wneud unrhyw addasiadau i'r fangre er mwyn bod yn ddi-fwg yn ystod yr amser y maent yn cael eu defnyddio fel gweithle. Nid oes gofyniad cyfreithiol i arddangos arwyddion dim ysmygu oherwydd bod anheddau wedi'u hesemptio o'r gofynion ar arwyddion gan Ddeddf 2017; o ganlyniad nid oes unrhyw gostau cysylltiedig ar gyfer arwyddion.

<u>Cerbydau di-fwg</u>

39. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i berchnogion cerbydau di-fwg o dan yr opsiwn hwn. Nid yw'n ofynnol i gerbydau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion gwaith, ond y mae'n ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg pan fo person yn y cerbyd yn derbyn nwyddau neu wasanaethau gan berson arall hefyd yn y cerbyd, ddangos arwyddion dim ysmygu. O ganlyniad, nid oes unrhyw gostau cysylltiedig ar gyfer

**13** www.wlga.gov.uk/download.php?id=1235&l=1

arwyddion.

Gwestai, Tai llety, Tafarnau, Hostelau a Chlybiau Aelodau a llety gwyliau a llety dros dro.

40. Efallai y bydd rhai costau i reolwyr gwestai, etc, o ran cael gwared ar unrhyw ystafelloedd a ddynodwyd ar gyfer ysmygu o dan Reoliadau 2007, yn ogystal ag i berchnogion/rheolwyr llety hunangynhwysol a ddefnyddir at ddibenion dros dro neu wyliau. Byddai'r rhain yn gostau sy'n gysylltiedig ag adolygu'r canllawiau newydd, diweddaru eu polisi ysmygu a glanhau'r llety a'i ddodrefn meddal yn drylwyr.

41. Nid oes data cadarn ar faint o westai etc a llety hunangynhwysol a ddefnyddir at ddibenion dros dro neu wyliau yng Nghymru sy'n caniatáu ysmygu. Wrth chwilio ar y we, gwelwyd mai ychydig iawn o westai etc yng Nghymru sy'n darparu ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu neu garafannau sefydlog a llety rhent gwyliau (bythynnod etc) sy'n caniatáu ysmygu; er ei bod yn bosibl nad yw pob mangre sy'n caniatáu ysmygu yn hysbysebu hyn yn benodol, ymddengys nad yw'r esemptiad a ddarperir gan Reoliadau 2007 yn cael ei ddefnyddio'n eang.

42. Mae data diweddaraf Llywodraeth Cymru ar stoc[14] gwelyau yn dangos bod 96,386 o leoedd gwely ar gael yng Nghymru yn y sector Gwasanaeth (gwestai, tai llety a sefydliadau gwely a brecwast) a hostelau yn 2013. Gan dybio bod y rhan fwyaf o ystafelloedd gwely mewn gwestai, etc yn ystafelloedd dwbl, rydym wedi seilio amcangyfrifon cost fesul ystafell wely yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ar fod tua 48,193 o ystafelloedd gwely ledled gwestai, etc yng Nghymru. O ystyried prinder data cadarn ar ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu mewn gwestai, etc a'r nifer fach a restrir ar y we, rydym wedi seilio amcangyfrifon cost ar ystod o 1% i 2% o ystafelloedd gwely mewn gwestai, etc sef tua 482 i 964 o ystafelloedd gwely ledled Cymru lle caniateir ysmygu. Mae'r un set o ddata yn dangos bod 3,429 o lety â gwasanaeth a gwestai yng Nghymru yn 2013. Felly, rydym wedi seilio amcangyfrifon cost fesul mangre ar yr un amrediad o 1% a 2%, (sy'n cyfateb i tua 34 i 68 o fangreoedd) ledled Cymru sydd ag un neu fwy o ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu.

43. Dangosodd data stoc gwelyau Llywodraeth Cymru hefyd fod 7,067 o sefydliadau hunanarlwyo (bythynnod, rhandai ac ati), a 1,322 o sefydliadau yng Nghymru yn cynnig safle carafannau/gwersylla. Deellir bod amrywiaeth mawr rhwng parciau/safleoedd gwyliau, gyda rhai'n lletya cannoedd o garafanau ac eraill yn lletya dim ond ychydig. Nid yw'r data ychwaith yn gwahaniaethu rhwng sefydliadau sy'n darparu gwersylla a'r rhai sy'n darparu carafannau, nac yn wir y rhai sy'n cynnig carafannau i'w rhentu ar gyfer gwyliau, yn hytrach nag i'w defnyddio fel annedd. O ganlyniad, nid yw'n bosibl amcangyfrif yn gywir nifer y mathau hyn o fangreoedd sy'n caniatáu ysmygu ar hyn o bryd ac y bydd y darpariaethau'n effeithio arnynt. Felly, mae amcangyfrifon cost yn seiliedig ar ystod o 1% i 2% o sefydliadau hunangynhwysol a sefydliadau gwersylla carafannau sy'n cyfateb i 84 i 168

---

**14** Crynodeb o Ddata Stoc Gwelyau Cymru: Sefyllfa ym mis Mawrth 2013. Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/stoc-llety-mawrth-2013

o fangreoedd dros dro neu wyliau hunangynhwysol ledled Cymru sy'n caniatáu ysmygu.

44. Byddai angen i reolwyr gwestai, etc ystyried y ddeddfwriaeth yn erbyn eu polisi ysmygu presennol a darllen unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei gyfyngu i'r mangreoedd hynny sydd ar hyn o bryd yn caniatáu ysmygu mewn ystafelloedd gwely dynodedig gan na fyddai llawer o gamau gofynnol ar gyfer gwestai, etc sydd eisoes yn gweithredu polisi dim ysmygu llwyr. Bydd gwestai, etc gydag ystafelloedd ysmygu yn amrywio o ran faint o amser y maent yn ei neilltuo i wneud y gwaith hwn ac felly tybir y byddai pob mangre, ar gyfartaledd, yn treulio awr arno. Gan dybio mai rheolwr neu berchennog gwesty, etc fyddai'n ymgymryd â'r gwaith hwn, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost fyddai rhwng £548 a £1,096 yn y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfraddau cyflog cymedrig fesul awr i reolwyr gwestai a llety[15] a rhwng 34 a 68 o fangreoedd lle mae angen gwneud y gwaith hwn. Gwnaed tybiaethau tebyg mewn perthynas â llety dros dro neu wyliau hunangynhwysol yng Nghymru. Byddai cyfanswm y gost yn yr ystod o £1,354 i £2,708 yn y flwyddyn gyntaf.

45. Mae'r costau i lanhau unrhyw ystafelloedd gwely ysmygu yn drwyadl wedi'u seilio ar y rhai sydd ar gael ar gyfer fflatiau stiwdio, gan y byddai'r rhain yn gyffredinol yn cynnwys ystafell ymolchi a chegin fach ac felly'n debyg i ystafell wely en-suite. Wrth chwilio ar wefannau darparwyr gwasanaethau glanhau[16], gwelwyd bod y costau tua £125 i £150 fesul fflat stiwdio; cost ychwanegol glanhau stemio neu sych-lanhau carped ystafell wely o faint cyfartalog, un matres dwbl, un gadair freichiau ac un pâr o lenni hir yw tua £125 i £175, gan roi cyfanswm cost fesul ystafell wely o rhwng £250 a £325. Mae llety hunangynhwysol, fel carafannau a bythynnod, yn tueddu i fod yn fwy nag ystafell wely en-suite mewn gwesty, ond mae'r amrywiaeth o'r mathau hyn o lety yn ei gwneud yn anodd cynhyrchu amcangyfrifon cost. At y dibenion hyn, amcangyfrifir bod y costau rhwng £400 a £500.

46. Yn seiliedig ar ystod o 482 i 964 o ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu ar hyn o bryd mewn gwestai, etc sydd angen eu glanhau'n drwyadl am gost fesul ystafell wely o rhwng £250 a £325, amcangyfrifir bod y gost i westai, etc i fynd yn gwbl ddi-fwg rhwng £120,500 a £313,300 ym mlwyddyn gyntaf y broses weithredu. Ystyrir bod y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ystafelloedd gwely o'r pwynt hwnnw yn rhan o fusnes arferol ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn ffigurau'r blynyddoedd nesaf. Ar gyfer llety hunangynhwysol a ddefnyddir at ddibenion gwyliau neu dros dro, yr amcangyfrif ar gyfer costau glanhau yw rhwng £33,600 ac £84,000.

47. Byddai'n rhaid cael gwared ar unrhyw arwyddion 'caniateir ysmygu' ac ystyrir bod y costau ynghlwm wrth hynny yn fach iawn. Ni fyddai unrhyw

**15** Rhanbarth Gwaith Galwedigaeth SOC10 (4) Tabl 15.6a Tâl Fesul Awr (cymedr £16.12) – Heb gynnwys goramser 2019. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/regionbyoccupation4digitsoc2010ashetable15

**16** Ystyriwyd mai fflat stiwdio oedd yr eiddo mwyaf tebyg i ystafell wely mewn gwesty, etc sy'n aml yn cynnwys ystafell ymolchi en-suite. Costau wedi eu dyfynnu o http://www.bdcleaning.co.uk/prices.html, http://www.clean-and-dusted.co.uk/cleaning_services_pricelist.php, http://busyhandscleaners.co.uk/prices/#1494394796419-1ccb5461-ea08

ofyniad cyfreithiol i roi arwyddion dim ysmygu yn lle'r rhain yn yr ystafelloedd gwely/mangreoedd a ddynodwyd yn flaenorol ar gyfer ysmygu, er y gall rheolwyr mangreoedd ddewis arddangos arwyddion newydd. Mae'n ofynnol i ardaloedd caeedig eraill y gwestai, etc fod yn ddi-fwg ac felly tybir y byddai gwestai, etc eisoes yn arddangos arwyddion dim ysmygu wrth y brif fynedfa/prif fynedfeydd i'r fangre yn unol â gofynion Rheoliadau 2007. Felly, nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig ag arwyddion newydd nac ychwanegol.

48. Gall gwestai, etc sydd â nifer o ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu /sefydliadau sy'n darparu llety hunangynhwysol sy'n caniatáu ysmygu golli peth busnes os yw cwsmeriaid yn dewis aros yn y fangre dim ond oherwydd eu bod yn darparu llety lle caniateir ysmygu. Fodd bynnag, efallai y byddant yn ennill rhywfaint o fusnes gan gwsmeriaid na fyddent yn dewis aros yno fel arall oherwydd bod ysmygu yn cael ei ganiatáu mewn rhai o'r ystafelloedd gwely. Felly, ystyrir bod yr effaith gyffredinol ar fusnes gwestai, etc a'r sector twristiaeth gwyliau a llety dros dro, yn niwtral o ran cost.

Unedau iechyd meddwl

49. Bydd costau ar gyfer unedau iechyd meddwl sydd wedi dynodi ystafelloedd ysmygu o dan yr esemptiad a ddarperir gan Reoliadau 2007. Mae'r costau o gael gwared ar yr ystafelloedd ysmygu yn cynnwys adolygu canllawiau newydd a diweddaru polisïau ysmygu. Nid yw costau sy'n gysylltiedig â glanhau ystafell lle caniateir ysmygu mewn uned iechyd meddwl wedi'u cynnwys gan ein bod yn deall nad oes llawer o ddodrefn mewn ystafelloedd o'r fath gan amlaf oherwydd y risg o dân (h.y. dim carped na llenni; dodrefn plastig yn unig).

50. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru holiadur i unedau iechyd meddwl yng Nghymru (ysbytai iechyd meddwl y GIG, unedau iechyd meddwl preifat i oedolion a chartrefi gofal gydag unedau iechyd meddwl). Mae'r ymatebion a gafwyd gan unedau iechyd meddwl preifat a rhai'r GIG, ynghylch a yw ystafelloedd ysmygu dan do wedi'u dynodi, yn dangos bod y niferoedd yn isel, bod gan y rhan fwyaf bolisïau ysmygu dan do ar waith a bod gan y rhan fwyaf ohonynt fannau ysmygu dynodedig yn yr awyr agored. O'r holl ymatebion, nodwyd mai cyfanswm yr ystafelloedd ysmygu dynodedig oedd un ar ddeg.

51. Byddai'n rhaid i reolwyr unedau iechyd meddwl ystyried y ddeddfwriaeth o'i gymharu â'u polisi ysmygu presennol a darllen unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Byddai hyn yn cael ei gyfyngu i'r unedau iechyd meddwl hynny sydd ar hyn o bryd yn caniatáu ysmygu mewn ystafelloedd dynodedig gan na fyddai llawer o gamau'n ofynnol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn gweithredu polisi cwbl ddi-fwg dan do. Tybir y byddai pob uned iechyd meddwl yn treulio awr ar y gwaith. Gan dybio mai'r rheolwr fyddai'n diweddaru'r canllawiau; amcangyfrifwn y byddai'r gost tua £200 yn y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau

Gwladol ar gyfraddau cyflog fesul awr ar gyfer rheolwyr a pherchnogion gofal preswyl, gofal dydd a gofal cartref[17].

52. Byddai'n rhaid cael gwared ar arwyddion presennol sy'n dangos bod ysmygu'n cael ei ganiatáu mewn ystafell ddynodedig. Ni fyddai unrhyw ofyniad cyfreithiol i osod arwyddion dim ysmygu yn lle hynny. Bydd eisoes yn ofynnol i'r unedau iechyd meddwl ddangos arwyddion dim ysmygu sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau gan y bydd rhannau o'r fangre yn ddi-fwg yn barod.

53. Efallai y bydd costau i'r unedau iechyd meddwl sy'n dewis dynodi ardal ar gyfer ysmygu ar eu tir. Fodd bynnag, ni fyddai dynodi ardaloedd ysmygu ar y tir yn un o ofynion gorfodol y ddeddfwriaeth ac felly ni fyddai costau o'r fath, gan gynnwys codi cysgodfeydd ysmygu ac arwyddion, yn cael eu cynnwys yn yr arfarniad hwn.

54. Nododd yr ymatebion i holiadur Llywodraeth Cymru a anfonwyd i unedau iechyd meddwl hefyd fod pob un ac eithrio un yn cynnig therapi disodli nicotin neu gyngor a chymorth i roi'r gorau i ysmygu. Efallai y bydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n manteisio ar y gwasanaethau hyn ond dylid tybio bod y ddarpariaeth honno eisoes ar gael i bob claf o fewn cyllidebau presennol ac felly ni fyddai hynny'n gynnydd gwirioneddol. Gellid lleihau yr amser y mae staff yn ei dreulio yn mynd â chleifion i ardaloedd ysmygu tu allan drwy sicrhau bod unrhyw fannau ysmygu dynodedig ar diroedd ysbytai wedi'u lleoli mor agos â phosibl at yr uned iechyd meddwl a thrwy gyfyngu pob egwyl ysmygu i adegau penodol.

<u>Tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus</u>

55. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i reolwyr tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion na meysydd chwarae cyhoeddus o dan yr opsiwn hwn y tu hwnt i'r rhai a nodwyd eisoes yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017 (mae tabl 4 yn cynnwys y costau hyn wedi'u cynyddu i brisiau 2019-20). Dim ond ychydig o arwyddion di-fwg ychwanegol fyddai eu hangen i'w gwneud yn glir bod ysmygu ar y tir yn erbyn y gyfraith, a bod y costau sy'n gysylltiedig â'r rhain wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r Ddeddf (mae tabl 4 yn cynnwys y costau hyn wedi'u cynyddu hyd at brisiau 2019-20). Gellir cadw arwyddion presennol sy'n ymwneud â gwahardd ysmygu yn wirfoddol ar diroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus a gall rhai hyd yn oed gydymffurfio â'r gofynion sylfaenol arfaethedig ar y rhybudd graffig yn dibynnu ar y dyluniad; er y bydd angen arwydd sy'n dwyn y rhybudd ysgrifenedig ym mhob achos. Efallai y bydd rhai ysgolion eisoes yn gweithredu gwaharddiadau ysmygu gwirfoddol ar eu tir a gellid cadw'r arwyddion hyn hefyd.

56. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â chanllawiau'r gofynion newydd, diweddaru polisïau a thalu unrhyw hysbysiadau cosb benodedig y gellir eu cyflwyno

---

**17** Rhanbarth Gwaith Galwedigaeth SOC10 (4) Tabl 15.6a Tâl Fesul Awr (cymedr £17.33) – Heb gynnwys goramser 2019. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/regionbyoccupation4digitsoc2010ashetable15

mewn perthynas â throseddau di-fwg yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2017 (mae tabl 4 yn cynnwys y costau hyn a gaiff eu codi i brisiau 2019-20).

57. Gall y bydd costau i reolwyr tiroedd ysbytai ac ysgolion sy'n darparu llety preswyl i ddisgyblion, sy'n dewis dynodi ardal ar gyfer ysmygu ar eu tir. Byddai'r rhain yn gysylltiedig â chydymffurfio â gofynion dynodiad o'r fath fel marcio'r ardal ar gyfer ysmygu yn glir, cofnodi'r dynodiad a'i gyfathrebu i'r rhanddeiliaid perthnasol, ynghyd ag unrhyw gostau eraill fel gosod biniau ar gyfer sbwriel ysmygu. Fodd bynnag, gan nad yw gwneud dynodiad o'r fath yn ofyniad cyfreithiol, nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yma.

Rheolwyr mangreoedd a cherbydau di-fwg caeedig a sylweddol gaeedig

58. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i reolwyr mangreoedd a cherbydau di-fwg caeedig a sylweddol gaeedig o dan yr opsiwn hwn gan y byddai arwyddion dim ysmygu presennol yn cydymffurfio â'r darpariaethau newydd. Nid oes angen i gerbydau sydd ddim yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwaith cyflogedig neu wirfoddol, oni bai pan fydd aelodau'r cyhoedd yn dod i dderbyn nwyddau neu wasanaethau, fod yn ddi-fwg i arddangos arwyddion dim ysmygu, ac felly nid oes unrhyw gostau cysylltiedig.

59. Pe bai rheolwyr yn dewis newid eu harwyddion dim ysmygu oherwydd gwaith adnewyddu neu wrth baratoi mangre newydd, bydd ganddynt hyblygrwydd i ddewis maint a lliw yr arwydd dim ysmygu ar yr amod bod y rhybudd graffig yn cydymffurfio. O ganlyniad, efallai y bydd rhai arbedion cost, er nad yw'r rhain wedi'u meintioli yma.

Y Cyhoedd

60. Gallai dileu'r gofynion penodol ar faint a lleoliad arwyddion di-fwg arwain at arwyddion nad yw'r cyhoedd yn sylwi arnynt mewn mangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig, a gallai hynny gynyddu'r risg o ysmygu mewn lle di-fwg. Fodd bynnag, mae lefelau uchel o gydymffurfiaeth gyda'r gwaharddiad presennol ar ysmygu[18] ac mae newidiadau i ofynion yr arwyddion yn annhebygol o effeithio ar hyn. Yn ogystal, byddai'r gofyniad eglurdeb arfaethedig, i ryw raddau, yn pennu maint cyffredinol yr arwydd gan sicrhau nad yw mor fach fel na ellir ei ddarllen. Er lles rheolwyr mangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig, dylid arddangos arwyddion di-fwg effeithiol er mwyn cyflawni eu dyletswydd i atal ysmygu yno.

61. Gallai cael gwared ar y gofynion penodol ar liw'r rhybudd graffig olygu nad yw pobl yn cydnabod yr arwydd fel arwydd di-fwg. Fodd bynnag, mae'r risg o hyn yn isel gan fod y symbol 'dim ysmygu' eisoes wedi ennill ei blwyf ac felly'n hawdd ei adnabod hyd yn oed pan nad yw'n arwydd coch/gwyn. Pan fo angen arwydd er mwyn cyfleu neges ar iechyd a diogelwch yn y gweithle[19], mae deddfwriaeth ar wahân yn mynnu bod yr arwyddion hyn yn

18 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/216319/dh_124959.pdf

19 Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr wneud asesiad risg; lle mae'r asesiad hwnnw'n canfod na ellir osgoi risg na'i leihau'n ddigonol, dylai'r cyflogwr ddarparu arwyddion diogelwch priodol i rybuddio neu roi cyfarwyddyd, neu'r ddau, i weithwyr o natur y risgiau hynny a'r mesurau i'w cymryd i ddiogelu yn eu herbyn.

goch[20] ac ni fyddai hyn yn newid.  Felly, tybir bod nifer a gwerth yr hysbysiadau cosb benodedig a'r dirwyon a roddir yr un fath ag yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2017.

Iechyd

62. Byddai olion mwg o unrhyw ardaloedd ysmygu a ddynodir o bosib yn rhoi pobl sy'n agos at yr ardaloedd hynny mewn cysylltiad â mwg ail-law. Dylai'r amodau dynodi leihau hyn drwy orfodi i'r ardaloedd dynodedig gael eu lleoli o leiaf 10 metr o unrhyw fangre ddi-fwg arall heblaw'r mangreoedd di-fwg lle mae'r ardal wedi'i dynodi. Mewn mannau awyr agored, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y niwed o fwg ail-law yn disgyn o un sigarét ar ôl 2 fetr[21], ac yn parhau i ostwng nes bron cyrraedd sero ar bellteroedd sy'n fwy na hyn, yn enwedig y tu hwnt i 5 metr. Bydd ardal ddynodedig sydd wedi'i marcio'n glir yn sicrhau bod gan y cyhoedd y wybodaeth ynglŷn â lle caniateir ysmygu ar y tiroedd, ac felly'n lleihau'r risg y bydd pobl nad ydynt yn ysmygu yn crwydro i'r ardal mewn anwybodaeth. Bydd maint mwyaf yr ardal ddynodedig yn atal ardaloedd mawr o'r tiroedd, a fyddai fel arall yn ddi-fwg, rhag cael eu dynodi fel rhai sydd ddim yn ddi-fwg. Felly, ystyrir bod yr effaith gyffredinol ar iechyd pobl nad ydynt yn ysmygu mewn mannau ysmygu dynodedig ar diroedd ysbytai a thiroedd ysgolion perthnasol yn gyfyngedig ac nid ydynt wedi'u costio yma.

63. Gall cleifion unedau iechyd meddwl ystyried yr effeithir ar eu llesiant yn negyddol drwy eu gorfodi i fynd y tu allan i ysmygu; fodd bynnag, mae ganddynt y dewis o gael therapi disodli nicotin neu gyngor ar sut i roi'r gorau i ysmygu a allai helpu i liniaru hyn. At hynny, mae hyn yn anodd ei fesur, felly nid oes unrhyw amcangyfrif wedi'i gynnwys.

*Tabl 4. Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn Tri a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (mae costau wedi'u cynyddu i brisiau 2019-20).*

| | **2020/21 (£)** | **21/22 (£)** | **2022/23 (£)** | **2023/24 (£)** | **2024/25 (£)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Ymgyrch Gyfathrebu | £51,400 - £72,500 | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Cynhyrchu canllawiau ar gyfer sefydliadau, busnesau a'r cyhoedd. | £9,000 | **£0** | **£0** | **£1,600** | **£0** |
| Dylunio a chyfieithu'r canllawiau newydd | £1,200 | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |

20 http://www.legislation.gov.uk/uksi/1996/341/schedule/1/made
21 http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/17518219

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Diweddaru canllawiau CLILC sy'n ymwneud â gorfodi'r darpariaethau yn Neddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Di-fwg 2007. | £1,600 | **£0** | **£0** | **£1,600** | **£0** |
| Sesiynau hyfforddi gorfodaeth | £2,500 | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **£65,700 - £86,800** | **£0** | **£0** | **£3,200** | **£0** |
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Adolygu arferion neu bolisïau gwirfoddol presennol yn erbyn deddfwriaeth | **£40,900** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Hyfforddiant gorfodaeth | **£9,900** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Arwyddion – Ysgolion | **£17,400 - £68,000** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Arwyddion – Meysydd Chwarae | **£24,000 - £66,700** | **£6,100 - £16,675** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **£92,200 - £185,500** | **£6,100 - £16,700** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Ysgolion (Gwirfoddol a gynorthwyir, sefydledig ac annibynnol)** | | | | | |
| Adolygu arferion neu bolisïau gwirfoddol presennol yn erbyn deddfwriaeth | **£6,600** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Arwyddion | **£3,400 - £11,200** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Cyfanswm y costau i ysgolion | **£10,000 - £17,800** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Byrddau Iechyd** | | | | | |
| Adolygu arferion neu bolisïau gwirfoddol | **£3,500** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| presennol yn erbyn deddfwriaeth | | | | | |
| Arwyddion | **£17,500 - £22,000** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| Cyfanswm y costau i Fyrddau Iechyd | **£21,000 - £25,500** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Ysbytai Annibynnol** | | | | | |
| Adolygu arferion neu bolisïau gwirfoddol presennol yn erbyn deddfwriaeth | **£900** | | | | |
| Arwyddion | **£3,400 - £4,000** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Cyfanswm y costau ar gyfer ysbytai annibynnol** | **£4,300 - £4,900** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Unedau Iechyd Meddwl** | | | | | |
| Adolygu canllawiau a diweddaru polisïau ysmygu mewn unedau iechyd meddwl | £200 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Cyfanswm y gost i unedau iechyd meddwl** | £200 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Gwestai, etc, llety gwyliau a llety dros dro** | | | | | |
| Glanhau ystafelloedd ysmygu presennol | £120,500 i £313,000 (gwestai, etc)<br><br>£34,000 i £84,000 (llety gwyliau a llety dros dro) | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Adolygu canllawiau a diweddaru polisïau ysmygu mewn gwestai | £500 i £1,000 (gwestai, etc.)<br><br>£1,300 i £2,700 (llety gwyliau a llety dros dro) | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Cyfanswm y gost i Westai ac ati.** | **£156,300 i £400,700** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |

| Y Cyhoedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hysbysiadau cosb benodedig | **£3,100** | **£4,200** | **£4,000** | **£2,000** | **£2,000** |
| Dirwyon | **£2,000** | **£1,800** | **£2,200** | **£600** | **£600** |
| Cyfanswm y costau i'r cyhoedd | **£5,100** | **£6,000** | **£6,200** | **£2,600** | **£2,600** |
| **Cyfanswm y costau** | **£354,800 i £726,500** | **£12,100 - £22,700** | **£6,200** | **£5,800** | **£2,600** |

64. Amcangyfrifir fod cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn rhwng £354,800 a £726,500 yn y flwyddyn gyntaf, cyn gostwng yn sydyn o'r ail flwyddyn ymlaen.

**Manteision**

Gorfodaeth

65. Bydd y gwelliant i ystyr 'sylweddol gaeedig' yn mynd i'r afael â'r dryswch presennol ynghylch a ddylai strwythurau sydd ddim yn rhan o'r fangre ond sy'n gweithredu fel ffiniau, ac felly'n rhan o berimedr y fangre, gael eu hystyried wrth asesu a yw'r fangre'n 'gaeedig' neu'n 'sylweddol gaeedig'. Bydd hyn yn helpu i orfodi'r darpariaethau drwy egluro y dylid cynnwys strwythurau eraill sy'n rhan o berimedr y fangre wrth wneud ystyriaeth o'r fath.

66. Byddai'r gofynion mwy llac ar arwyddion dim ysmygu yn caniatáu i'r darpariaethau ymdrin â phob math o fangreoedd a cherbydau di-fwg caeedig, sylweddol gaeedig neu sydd ddim yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig. Bydd adolygu'r rhybudd ysgrifenedig penodedig a'r gofynion ynglŷn â lleoliad arwyddion ar diroedd ysbytai ac ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus ar ôl pedair blynedd o ddod i rym, gyda'r bwriad o gael gwared â'r gofyniad hwn os bydd cydymffurfiaeth â'r gwaharddiad ysmygu yn y mannau hynny ar lefelau derbyniol, yn arwain at drefn symlach yn gyffredinol ar gyfer arwyddion dim ysmygu ar draws pob math o fangreoedd.

Anheddau sy'n weithleoedd

67. Byddai gan aelodau'r cyhoedd sy'n gweithio gartref eglurder ynghylch a ddylai eu hannedd fod yn ddi-fwg wrth ei ddefnyddio fel gweithle. Pan fydd yn ofynnol i'r annedd fod yn ddi-fwg, byddai budd i'r aelwyd oherwydd na fyddai'n rhaid i'r annedd fod yn ddi-fwg drwy'r amser (fel yn achos gofynion Rheoliadau 2007) heb unrhyw gostau cysylltiedig.

Gweithwyr mewn gwestai, etc, llety gwyliau neu lety dros dro ac unedau iechyd meddwl

68. Cyflwynwyd y gwaharddiad ysmygu i amddiffyn gweithwyr a'r cyhoedd rhag effeithiau niweidiol mwg ail-law. Byddai Opsiwn Tri yn cynnig manteision iechyd i weithwyr mewn gwestai, etc, unedau llety gwyliau a dros dro ac

unedau iechyd meddwl na fyddai'n rhaid iddynt bellach fynd i mewn i ystafell neu ystafell wely a ddynodwyd ar gyfer ysmygu wrth i'r ysmygu ddigwydd neu yn fuan wedi hynny i ymgymryd â'u dyletswyddau gwaith. Mae'n hysbys bod mwg ail-law yn allyrru dros 50 o gemegion sy'n cael eu hadnabod fel carsinogenau, yn ogystal â nifer o gyfryngau llidiog gwenwynig[22]. Yn ogystal, mae ymchwil a wnaed ers Rheoliadau 2007 yn dangos y gall olion mwg tybaco sy'n loetran mewn amgylchedd dan do, sydd hefyd yn cael ei alw'n fwg trydydd-llaw, fod yn ffynhonnell o gysylltiad hirdymor â llygryddion niweidiol[23].

Unedau iechyd meddwl

69. Bydd dileu'r esemptiad yn dod â'r gyfraith yn gyfartal â defnyddwyr gwasanaethau ysbytai yn gyffredinol a bydd yn anelu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar gyfer pobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd meddwl. Bydd hefyd yn dod â chyfraith Cymru yn gyfartal â Lloegr, sydd ers 1 Gorffennaf 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ardal gaeedig neu sylweddol gaeedig mewn unedau iechyd meddwl preswyl yn Lloegr fod yn ddi-fwg.

Rheolwyr mangreoedd a cherbydau di-fwg

70. Byddai cael gwared ar y manylebau ar liw a maint arwyddion dim ysmygu o Reoliadau 2007 yn caniatáu i fangreoedd gydymffurfio'n hyblyg â'u harwyddion eu hunain, ar yr amod eu bod yn bodloni'r egwyddorion dylunio sylfaenol a nodwyd.

71. Mae nifer o'r arwyddion sydd eisoes yn bodoli i wahardd ysmygu yn wirfoddol ar diroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus yn cynnwys fersiwn o'r symbol rhyngwladol dim ysmygu; efallai y bydd y rhain yn cydymffurfio ag isafswm y gofynion newydd ar gyfer arwyddion dim ysmygu. Felly, byddai parhau i ddefnyddio'r arwyddion hyn yn cael ei ganiatáu ar yr amod eu bod yn cynnwys y rhybudd ysgrifenedig arfaethedig.

Iechyd

72. Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig yng Nghymru yn 2007 i ddiogelu'r cyhoedd rhag y niwed sy'n gysylltiedig â mwg ail-law. Mae'r gwaharddiad ysmygu wedi bod yn llwyddiant o ran iechyd y cyhoedd. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod ansawdd aer mewn mannau cyhoeddus caeedig wedi gwella'n sylweddol ers cyflwyno'r gwaharddiad ysmygu[24]. Mae nifer y bobl sydd ddim yn ysmygu ac sy'n agored i fwg ail-law hefyd wedi gostwng o 66% yn 2005-06 i 42% yn 2007, ac mae wedi aros yn weddol sefydlog[25]. Mae ymestyn y mannau lle na chaniateir ysmygu felly yn debygol o gael effeithiau positif tebyg ar iechyd pobl Cymru. Gall lleihau'r cyfleoedd i ysmygu a'i gwneud yn broses anoddach hefyd annog y rhai sy'n ysmygu'n barod i roi'r gorau iddi.

---

22 http://www.surgeongeneral.gov/library/reports/secondhandsmoke/fullreport.pdf
23 Inhalable Constituents of Third hand Tobacco Smoke: Chemical Characterization and Health Impact Considerations. Environ. Sci. Technol., 2014, 48 (22), tudalennau 13093–13101 DOI: 10.1021/es5036333 http://pubs.acs.org/doi/abs/10.1021/es5036333
24 http://gov.wales/topics/health/improvement/smoking/legislation/ban/?lang=en
25 Tybaco ac Iechyd yng Nghymru 2012 – http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/tybaco-ac-iechyd-yng-nghymru-2012

### Crynodeb a'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio

73. Byddai Opsiwn Un yn cynnal y sefyllfa bresennol ac ni fyddai'n cyfrannu at ddadnormaleiddio parhaus ysmygu mewn cymdeithas nac yn hyrwyddo newid ymddygiad pobl i roi'r gorau i ysmygu.

74. Byddai Opsiwn Dau yn cefnogi gorfodi'r gwaharddiadau gwirfoddol presennol ar diroedd ysgolion, tiroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus a byddai'n gweithredu darpariaethau'r Ddeddf ond heb unrhyw effaith bellach ar y ddeddfwriaeth ddi-fwg bresennol.

75. Opsiwn Tri yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y byddai'n ymestyn y llefydd sy'n ddi-fwg yng Nghymru ymhellach ac felly'n gam tuag at nod Llywodraeth Cymru o gael cymdeithas ddi-fwg. Efallai y bydd adfywio ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwaharddiad ysmygu o fudd ychwanegol er mwyn annog mwy o ysmygwyr i roi'r gorau iddi.

76. Ar gyfartaledd, amcangyfrifir bod atal rhywun rhag dechrau ysmygu yn arwain at gael byw am flwyddyn ychwanegol fesul unigolyn[26]. Mae'r flwyddyn ychwanegol hon gwerth £60,000 y pen[27]. Wrth gymhwyso'r ffigurau hyn, byddai angen i Opsiwn Tri felly atal o leiaf saith plentyn ac uchafswm o dri ar ddeg o blant yng Nghymru rhag dechrau ysmygu tybaco dros y cyfnod o bum mlynedd er mwyn i'r mesur hwn fod yn niwtral o ran cost.

### Asesiad o'r Gystadleuaeth

77. Ni ragwelir unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth hon. Mae Tabl 4 isod yn nodi casgliadau prawf hidlo'r gystadleuaeth ac nid yw'r prawf yn dynodi angen am asesiad cystadleuaeth llawn. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth.

---

**26** Age of Sale for Nicotine Inhaling Products: Impact Assessment. https://www.gov.uk/government/consultations/nicotine-inhaling-products-introducing-a-minimum-age-of-sale
**27** HM Treasury Green Book, Atodiad A2, tudalen 73
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/685903/The_Green_Book.pdf
Rhoddir gwerth o £60,000 ar Ansawdd Bywyd Blwyddyn Addasedig. Lle nad yw amcangyfrifon Ansawdd Bywyd Blwyddyn Addasedig ar gael yn hawdd, ac yn briodol, defnyddir y gwerth hwn ar gyfer Blynyddoedd Bywyd. Mae hyn yn gyson â phrisiad tebyg o bolisïau sy'n lliniaru risg marwolaeth neu afiechyd gan adrannau eraill y Llywodraeth, yn seiliedig ar astudiaethau o'r hyn y mae aelodau'r cyhoedd, ar gyfartaledd, yn barod i'w wario i leihau risg eu marwolaeth eu hunain, neu i wella eu canlyniadau iechyd eu hunain.

Tabl 4 - *Prawf hidlo'r gystadleuaeth*

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb ✓ neu x** |
| **C1**: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% yn y farchnad? | x |
| **C2**: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 20% yn y farchnad? | x |
| **C3**: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan y tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, gyfran o 50% o leiaf yn y farchnad? | x |
| **C4**: Fyddai'r costau rheoleiddio'n cael llawer mwy o effaith ar rai cwmnïau na'i gilydd? | x |
| **C5**: Ydy'r broses reoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | x |
| **C6**: Fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau sefydlu i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posib, a'r rheini'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo? | x |
| **C7**: Fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau parhaus i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posib, a'r rheini'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo? | x |
| **C8**: A yw hwn yn sector sy'n gweld newidiadau technolegol cyflym? | x |
| **C9**: Fyddai'r broses reoleiddio'n cyfyngu gallu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch? | x |

**Adolygiad ôl-weithredu**

78. Gan y bydd y darpariaethau yn Neddf 2017 a Rheoliadau 2020 yn cael eu gweithredu ar yr un pryd, bydd adolygiad o'r ddeddfwriaeth ysmygu hon yn cael ei gynnal dair blynedd ar ôl ei gweithredu i bennu'r costau a'r manteision gwirioneddol a hefyd a yw'n cyflawni'r effeithiau a ddymunir.

79. Bydd effaith Rheoliadau 2020, yn ogystal â Deddf 2017, yn cael ei monitro fel rhan o wyliadwriaeth iechyd ehangach ar ymddygiadau ysmygu yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, bydd yn anodd priodoli rhai tueddiadau ar lefel poblogaeth yn llawn (fel y gellir eu nodi drwy'r math hwn o ddata) i effeithiau'r ddeddfwriaeth. Er bod y darpariaethau'n ceisio gwneud cyfraniad cyffredinol tuag at leihau cyfraddau ysmygu a'r nifer sy'n dechrau ysmygu, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc drwy gyfyngu ymhellach ar amlygrwydd ysmygu, ni fyddai'n bosibl priodoli tuedd o'r fath i'r ddeddfwriaeth yn unig. Y rheswm am hyn yw y bydd meysydd eraill o ddeddfwriaeth megis cyflwyno cyfyngiadau oedran ar werthu cynhyrchion nicotin, deunydd pacio safonol ar gyfer cynhyrchion tybaco, a Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016, sy'n trosi Cyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco'r UE, hefyd yn cael effaith, ochr yn ochr â dylanwadau cymdeithasol eraill.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gweithredu'r gofynion di-fwg ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg 2020** |
| **DYDDIAD** | **29 Medi 2020** |
| **GAN** | **Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017") yn disodli cyfyngiadau ar smygu mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig, a gafwyd yn flaenorol yn Neddf Iechyd 2006 ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau ar smygu i fangreoedd neu gerbydau ychwanegol. Mae Deddf 2017 yn gosod cyfyngiadau ar smygu ar diroedd ysgolion, tiroedd ysbytai, meysydd chwarae cyhoeddus a lleoliadau gofal awyr agored i blant. Bydd Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020") yn ategu darpariaethau penodol ym Mhennod 1 o Ran 3 i Ddeddf 2017 ac yn disodli Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007. Gyda'i gilydd, bydd darpariaethau Deddf 2017 a rheoliadau 2020 yn cyflwyno trefn ddi-fwg newydd yng Nghymru sy'n anelu at ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag niweidiau mwg ail-law. Byddant hefyd yn anelu at ddadnormaleiddio ymddygiad smygu ymhellach drwy gyfyngu ar smygu mewn mwy o fannau cyhoeddus, yn enwedig lle mae plant yn debygol o fod yn bresennol yn rheolaidd (megis tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus).

Ar 23 Mehefin 2020 o dan Gyfarwyddeb Safonau Technegol 2015/1535/EU, hysbysodd Llywodraeth Cymru Gomisiwn yr UE a'r Aelod-wladwriaethau ynghylch Rheoliadau drafft 2020. Daeth y cyfnod segur gofynnol o dri mis i ben ar 24 Medi 2020 heb unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu mynegi. Felly rwyf wedi llofnodi Gorchymyn Cychwyn, sy'n dod â darpariaethau galluogi a geir ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 2017 i rym at ddiben gosod Rheoliadau 2020 gerbron y Senedd heddiw. Edrychaf ymlaen at y ddadl ar y Rheoliadau hyn, a drefnwyd ar gyfer 20 Hydref 2020.

Yn fy Natganiad Ysgrifenedig i'r Cabinet a gyhoeddwyd ar 24 Mehefin 2020, er fy mod yn awyddus i'r mesurau yn Neddf 2017 a Rheoliadau 2020 fod ar waith, esboniais fy mod yn deall bod eu llwyddiant yn dibynnu ar ymdrechion rhanddeiliaid allweddol. Mae swyddogion wedi cynnal cyfnod ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall eu safbwyntiau ar gyflwyno gofynion y ddeddfwriaeth a'r hyn y byddai ei angen arnynt i gefnogi eu gweithredu. Rwy'n ddiolchgar i'r holl randdeiliaid a gymerodd ran yn y broses hon. Rwyf wedi fy nghalonogi hefyd gan y gefnogaeth a fynegwyd a'r safbwyntiau a roddwyd ynghylch sut y gellir manteisio i'r eithaf ar y mesurau. Yn seiliedig ar yr adborth hwn ac er mwyn rhoi amser digonol i randdeiliaid baratoi ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth penderfynais ddod â'r drefn ddi-fwg newydd i rym ar 1 Mawrth 2021, yn amodol ar gytundeb y Senedd ar Reoliadau 2020. Mae fy swyddogion yn datblygu manylion y pecyn gweithredu, gan gynnwys dogfennau canllawiau, a byddant yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid yn ystod y broses hon. Os hoffai Aelodau neu randdeiliaid gael rhagor o wybodaeth am y broses hon neu ynghylch ei gweithredu, cysylltwch â: PolisiTybaco@llyw.cymru**.**

**https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld13531-em/sub-ld13531-em-w.pdf**

**https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld13531/sub-ld13531-w.pdf**

# SL(5)626 – Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020

## Background and Purpose

Prior to each Senedd general election an Order in Council under section 16 of GOWA 2006 is made, that specifies offices whose holders are disqualified from membership of the Senedd.

At present, the National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015 is still in force, therefore persons holding any of the offices specified in the 2015 Order are disqualified from membership of the Senedd.

This will revoke the 2015 Order and set out an updated list of disqualifying offices before the next Senedd general election. The Order will take effect at the first Senedd election on or after 5 April 2021. It will sit alongside the disqualifications set out in section 16 of and Schedule 1A to the Government of Wales Act 2006, as amended by the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 and any other specific disqualifications provided for in other legislation to produce the full list of disqualifying offices. The Explanatory Note to the Order makes clear that it should be read alongside section 16 of, and Schedule 1A to, the Government of Wales Act 2006.

Its purpose is to disqualify the holders of certain offices from membership of the Senedd (but not from being a candidate to be a Member of the Senedd) where this is necessary to protect the independence of the electoral process, prevent conflicts of interest, or to protect particular public offices from political bias.

## Procedure

Draft Affirmative.

## Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

## Merits Scrutiny

The following points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

**1. Standing Order 21.3(ii) - that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

The Explanatory Memorandum that accompanies this Order notes that the criteria used to form the basis of the list of disqualified offices emanates from this Committee's

recommendations in 2014 following its inquiry into the rules pertaining to disqualification from membership of the Senedd .

The Explanatory Memorandum states the following:

> *"In 2014 the Constitutional and Legislative Affairs (CLA) Committee carried out an inquiry into the rules pertaining to disqualification from membership of the Senedd. This included 21 recommendations and proposed an overhaul of the legislative framework surrounding disqualifications from membership of the Senedd. The Welsh Government agreed with the overall thrust of the CLA Committee's report.*
>
> *In its response to the CLA Committee's report the Welsh Government made a commitment to consult on the National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015 and by consulting on the draft Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020 we continued to honour that commitment.*
>
> *The consultation for the draft Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020 was carried out between 22 June 2020 and 1 September 2020, and the draft Order takes account of the outcome of that consultation.*
>
> *The criteria for determining which offices were to be included in the National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015 were based on the principles set out in the CLA Committee's report with some additional considerations by the Welsh Government. This same criteria has continued to be used for the draft Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020. This criteria was published in the Welsh Government's consultation on the draft Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020."*

**2. Standing Order 21.3(ii) - that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

As a result of the consultation carried out between the 22nd June and 1st September 2020, the Explanatory Memorandum lists the following offices that have been added to the draft Order as disqualified offices:

> *"The Chief Executive of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales is currently a joint post with the Boundary Commission for Wales. However, this arrangement may not always be in place, and therefore we have included the Secretary of the Boundary Commission for Wales in the draft Order, as the Secretary would be the head of the Commission if the Boundary Commission for Wales became a standalone organisation with its own Secretariat.*
>
> *After considering the response requesting that consideration should be given to the inclusion of the Information Commissioner the Welsh Government has concluded that as there is a need for the Information Commissioner to be able to make objective and impartial judgements about the conduct of the Welsh Government and Welsh Ministers in respect of data and information the Information Commissioner will be added to the draft Order.*

*It had been brought to our attention that the Commissioners and Non-Executive Board Members of the Law Commission should be included in the draft Order. The Wales Act 2014 allowed Welsh Ministers to refer projects to the Law Commission. The same Act also obliges the Welsh Ministers to report on Law Commission proposals in Welsh devolved areas, and required a Protocol to be established between the Law Commission and the Welsh Ministers.*

*Commissioners of the Judicial Appointments Commission (JAC) were also added to the draft Order as the JAC conducts appointments to devolved tribunals on behalf of Welsh Ministers by means of an agreement under Section 83 of the Government of Wales Act 2006.*

*The Judicial Appointments and Conduct Ombudsman will also be included in the draft Order as the Ombudsman can be involved in disciplinary cases for judges and members of the Welsh Tribunals."*

## Implications arising from exiting the European Union

None.

## Government Response

A Welsh Government response is not required.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**8 October 2020**

*Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   D R A F F T

# 2020 Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11eg Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym* | *12fed Tachwedd 2020* |

Yn y Llys ym Mhalas Buckingham, ar yr 11eg dydd o Dachwedd 2020

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**) gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adrannau 16(1) a (5) a 157(2) o'r Ddeddf honno, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

(2) Daw i rym ar 12fed Tachwedd 2020 ond nid yw erthyglau 2 a 3 ond yn cael effaith at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5ed Ebrill 2021.

**Dynodi swyddi sy'n anghymhwyso**

**2.** Mae'r swyddi a ddisgrifir yn yr Atodlen wedi eu dynodi'n swyddi sy'n anghymhwyso deiliaid y swyddi hynny rhag bod yn Aelodau o'r Senedd.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015(**2**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 2006 p. 32. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 16 gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).
(**2**) O.S. 2015/1536.

*Enw*
Clerc y Cyfrin Gyngor

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## Swyddi sy'n anghymhwyso'r deiliaid rhag bod yn Aelodau o'r Senedd

| *Swyddi a chyrff y mae swyddi sy'n anghymhwyso mewn cysylltiad â hwy* | *Y swyddi sy'n anghymhwyso* |
|---|---|
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Yr Ymddiriedolwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru |
| Yr Archwilydd Achosion Annibynnol dros yr Adran Gwaith a Phensiynau | Yr Archwilydd Achosion Annibynnol |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Cyllid Cymru | Y Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill |
| Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn cysylltiad â Chymru | Y Cadeirydd a'r holl aelodau, ac eithrio aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Awdurdod |
| Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Twristiaeth Prydain | Yr aelod a benodwyd gan Weinidogion Cymru |
| Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol | Yr holl aelodau |
| Bwrdd Canolwyr Meddygol | Yr holl aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru(1) |
| Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru | Y Cadeirydd a'r aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 34(1)(dd) o Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010(2) |
| Y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru | Yr holl aelodau |
| Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol | Yr holl aelodau |
| Bwrdd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig | Yr holl aelodau |
| Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal yng Nghymru | Yr holl aelodau, ac eithrio aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Bwrdd |
| Y Bwrdd Ystadegau a sefydlwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007(3) | Yr holl aelodau |

| | |
|---|---|
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | Y Comisiynwyr |
| Y Comisiynydd Gwybodaeth | |
| Comisiwn y Gyfraith | Y Comisiynwyr ac aelodau anweithredol y Bwrdd |
| Y Comisiwn Ffiniau i Gymru | Y Comisiynwyr a'r Ysgrifennydd |
| Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol | Y Comisiynwyr |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Y Panel Cynghori |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel y'i sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011(4), ac unrhyw Ddirprwy a benodir gan y Comisiynydd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno | |
| Corff Adnoddau Naturiol Cymru a adwaenir fel Cyfoeth Naturiol Cymru | Y Prif Weithredwr, Y Cadeirydd a'r aelodau |
| Corff Llais y Dinesydd | Aelodau anweithredol |
| Corfforaeth Deledu Channel Four | Yr holl aelodau |
| Corfforaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Gynilion Cyflogaeth | Yr holl aelodau |
| Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur | Yr holl aelodau |
| Cynghorau Iechyd Cymuned | Yr holl aelodau a benodwyd o dan reoliadau 3(1), 6, 7 ac 8, ac aelodau a gyfetholwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 3(3A), o Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010(5) |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Yr holl aelodau |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Yr holl aelodau, ac eithrio aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Cyngor |
| Cyngor Chwaraeon Cymru a adwaenir fel Chwaraeon Cymru | Yr holl aelodau |
| Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr | Holl aelodau'r Cyngor a phob pwyllgor rhanbarthol o'r Cyngor a sefydlwyd o dan adran 27A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(6) |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | Yr holl aelodau |
| Cyngor Partneriaeth y Gymraeg | Yr holl aelodau |
| Y Cyngor Prydeinig | Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr |
| Cymwysterau Cymru | Yr holl aelodau |
| Development Bank of Wales Public Limited Company neu unrhyw is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Development Bank of Wales Public Limited Company | Yr holl Gyfarwyddwyr |
| Dyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru | |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Yr holl aelodau |
| Y Gronfa Diogelu Pensiynau | Yr holl aelodau, a'r Ombwdsmon ar gyfer Bwrdd y Gronfa Diogelu Pensiynau a benodwyd o dan adran 209 o Ddeddf Pensiynau 2004(7) ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 210 o'r Ddeddf honno |
| Y Gronfa Loteri Fawr | Yr holl aelodau a benodwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 4A i Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993(8) neu holl aelodau pwyllgor a sefydlwyd o dan baragraff 7(1)(b) o'r Atodlen honno |
| Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau | Y Cyfarwyddwyr |

| | |
|---|---|
| Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu | Holl aelodau'r Cyngor |
| Y Gwasanaeth Tân ac Achub | Arolygydd neu Arolygydd Cynorthwyol a benodwyd o dan adran 28 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(9) |
| Y Gweinyddwr Annibynnol Cwynion Dŵr Daear a benodwyd o dan adran 21 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993(10) a pharagraff 27 o Atodlen 7 iddi | |
| Hybu Cig Cymru | Yr holl aelodau |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Yr Ymddiriedolwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru |
| Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol | |
| Yr Ombwdsmon Pensiynau a benodwyd o dan adran 145 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993(11) ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 145A o'r Ddeddf honno | |
| Panel Dyfarnu Cymru | Yr holl aelodau |
| Person sy'n dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(12), a hynny mewn:<br>(a) awdurdod lleol yng Nghymru, o fewn ystyr y Rhan honno,<br>(b) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru | |
| Y Pwyllgor Cynghori ar Bathogenau Peryglus | Yr holl aelodau |
| Y pwyllgor cynghori i Gymru a sefydlwyd o dan adran 5(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999(13) | Yr holl aelodau |
| Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys | Y Cadeirydd |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Y Cadeirydd |
| Pwyllgorau asesu rhenti ar gyfer ardal neu ardaloedd y mae pob rhan ohoni neu ohonynt yng Nghymru | Holl aelodau panel a sefydlwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977(14) |
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau | Yr holl aelodau, ac aelodau'r pwyllgorau a sefydlwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o dan adran 9 o Ddeddf Pensiynau 2004(15) |
| Y Sefydliad Rheoli Morol | Yr holl aelodau |
| Sianel Pedwar Cymru | Yr holl aelodau |
| Student Loans Company Limited | Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr |
| Y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu | Yr holl aelodau |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Yr holl staff a'r archwilwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio i Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Y Swyddfa Gyfathrebiadau | Yr holl aelodau |
| Swyddog Ardystio ac unrhyw swyddog ardystio cynorthwyol a chanddo swyddogaethau o dan Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(16) | Swyddog Ardystio ac unrhyw swyddog ardystio cynorthwyol |

| | |
|---|---|
| Trafnidiaeth Cymru | Y Cyfarwyddwyr |
| Tribiwnlys a gyfansoddwyd o dan adran 27 o Ddeddf Addysg 2005(17) ac Atodlen 3 iddi | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys y Gymraeg | Yr holl aelodau |
| Y Tribiwnlys Haen Gyntaf | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys y cyfeirir ato ym mharagraff 10 o Atodlen 26 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(18) | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth | Yr holl aelodau |
| Yr Uwch Dribiwnlys | Yr holl aelodau, ac eithrio Barnwyr yr Uwch Dribiwnlys(19) |
| Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae pob un o'i hysbytai, neu ei chyfleusterau eraill, neu rai ohonynt, yng Nghymru | Y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Anweithredol |

(1) *Gweler* paragraff 3 o Atodiad 2 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1072 (Cy. 110)) a pharagraff 3 o Atodlen 5 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1073 (Cy. 111)).

(2) O.S. 2010/288 (Cy. 37). Mewnosodwyd rheoliad 34(1)(dd) gan reoliad 23(7) o Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/509 (Cy. 43)).

(3) 2007 p. 18.

(4) 2011 p. 13. Gwnaed diwygiadau i adran 1 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(5) O.S. 2010/288 (Cy. 37). Mewnosodwyd rheoliad 3(3A) gan reoliad 4(4), a diwygiwyd rheoliad 6 gan reoliad 6(2) a (3), o Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/509 (Cy. 43)).

(6) 1991 p. 56. Mewnosodwyd adran 27A gan adran 35(1) o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37).

(7) 2004 p. 35. Gwnaed diwygiadau i adran 209 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(8) 1993 p. 39.

(9) 2004 p. 21. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 28 o'r Ddeddf hon gan adran 11 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (p. 3).

(10) 1993 p. 42. Gwnaed diwygiadau i baragraff 27 o Atodlen 7 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(11) 1993 p. 48. Gwnaed diwygiadau i adran 145 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(12) 1989 p. 42.

(13) 1999 p. 28.

(14) 1977 p. 42. Gwnaed diwygiadau i Atodlen 10 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(15) 2004 p. 35. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi ei sefydlu gan adran 1 o'r Ddeddf hon.

(16) 1992 p. 52.

(17) 2005 p. 18. Gwnaed diwygiadau i Atodlen 3 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(18) 1998 p. 31. Gwnaed diwygiadau i baragraff 10(2) o Atodlen 26 i'r Ddeddf hon gan adran 53 o Ddeddf Addysg 2005 a pharagraffau 8 ac 16(1) a (2) o Ran 2 o Atodlen 7 iddi.

(19) Mae barnwyr yr Uwch Dribiwnlys wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd, a rhag bod yn ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd, yn rhinwedd adran 16(A1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A iddi.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi, at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021, swyddi y mae eu deiliaid wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Mae'r swyddi wedi eu disgrifio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae swyddi eraill sy'n anghymhwyso a chategorïau o berson sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ac mewn rhai achosion rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd) wedi eu rhagnodi gan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ac Atodlen 1A iddi. Dylai'r Gorchymyn hwn gael ei ddarllen gyda'r darpariaethau hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 (O.S. 2015/1536), er bod y Gorchymyn hwnnw yn parhau i gael effaith ar gyfer etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais cyn 5 Ebrill 2021.

**Memorandwm Esboniadol** i Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Weinidog ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

29 Medi 2020

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Orchymyn yn y Cyngor ddynodi swyddi penodol fel bod person sy’n dal un o'r swyddi hynny yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cyfyngu anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl, rydym yn cydnabod bod gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol i ddeiliaid swyddi penodol. Yn benodol, mae angen diogelu rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol, a sicrhau bod annibyniaeth y broses etholiadol yn cael ei chadarnhau.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

2. Yn 2014 cynhaliodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLA) ymchwiliad i'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd[1]. Roedd hyn yn cynnwys 21 o argymhellion ac yn cynnig ailwampio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud ag anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd. Cytunodd Llywodraeth Cymru â byrdwn cyffredinol adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol[2].

3. Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 a thrwy ymgynghori ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 parhawyd i anrhydeddu'r ymrwymiad hwnnw.

4. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 rhwng 22 Mehefin 2020 a 1 Medi 2020, ac mae'r Gorchymyn drafft yn cymryd canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw i ystyriaeth.

5. Roedd y meini prawf ar gyfer penderfynu pa swyddi a oedd i'w cynnwys yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyda rhai ystyriaethau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r un meini prawf wedi parhau i gael eu defnyddio ar gyfer Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

---

[1] Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i Anghymhwyso rhag Bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru Gorffennaf 2014

[2] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Ymchwiliad i Anghymhwyso rhag Bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyhoeddwyd y meini prawf hyn yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

6. Egwyddorion cyffredinol, fel y'u nodir yn argymhelliad 1 o adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:

<u>Egwyddor 1:</u> Mae hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll fel aelod o'r Senedd yn hollbwysig.

<u>Egwyddor 2:</u> Dylid cyfyngu anghymhwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl.

<u>Egwyddor 3:</u> Mae gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol i rai dinasyddion er mwyn:
i. diogelu annibyniaeth y broses etholiadol;
ii. atal gwrthdaro buddiannau rhag codi adeg etholiad; ac
iii. diogelu rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol

<u>Egwyddor 4:</u> Dylai gorchymyn anghymhwyso effeithio ar y dinasyddion canlynol:
i. y rhai y mae eu rôl yn ymwneud â gofyniad gor-redol i fod yn yn ddiduedd,
ii. gan gynnwys y rhai y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys y broses etholiadol ei hun;
iii. y rhai sydd ag unrhyw swydd gyhoeddus sy'n dod â budd ariannol sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru;
iv. y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus ac yn y rôl honno yn rhoi cyngor ffurfiol i Lywodraeth Cymru;
v. y rhai sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus sy'n destun craffu gan y Senedd

<u>Egwyddor 5:</u> Pan fo angen anghymhwysiadau rhaid iddynt:
i. gydymffurfio â'r egwyddorion hyn;
ii. fod yn glir a diamwys;
iii. fod yn gymesur.

- Dylai'r swyddi a ddisgrifir yn argymhelliad 12 gael eu hanghymhwyso, a dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso oni bai eu bod eisoes wedi'u hanghymhwyso o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

- Dylai aelodau o dribiwnlysoedd barnwrol gael eu hanghymhwyso.

- Fel arfer, dylai personau a benodir gan Weinidogion Cymru gael eu hanghymhwyso, ond gall fod achosion lle na ddylid anghymhwyso personau o'r fath (ac os felly bydd ystyried y pum egwyddor y cyfeirir atynt uchod yn bwysig).

- Ni ddylid anghymhwyso staff cyhoeddus fel y disgrifir yn argymhelliad 13 (e.e. staff Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yr Heddlu, Tân ac Achub, staff Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru) – gellir tybio'n ddiogel y byddai staff o'r fath yn rhoi'r gorau i'w cyflogaeth pe baent yn cael eu hethol, gan y byddai parhau â chyflogaeth ar yr un pryd â chyflawni cyfrifoldebau aelodau'r Senedd yn gwneud galwadau amhosibl ar yr unigolyn.

**Y Cefndir Deddfwriaethol**

7. Mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhestru personau sydd wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd. Yn ogystal â'r swyddi hynny a restrir yn adran 16, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer Gorchymyn yn y Cyngor ("Gorchymyn Anghymhwyso") i ddynodi swyddi pellach, y byddai eu deiliaid yn cael eu hanghymhwyso rhag dod yn Aelodau o'r Senedd. Ni all Gorchymyn o’r fath gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn ei Chyngor, ond os oes drafft wedi cael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo gan benderfyniad gan y Senedd.

   *Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020*

8. Argymhellion eraill adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn 2014 oedd diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddarparu y dylai anghymhwyso rhag swydd gyhoeddus benodol, mewn perthynas â swyddi penodol, ddod i rym adeg tyngu llw neu gadarnhau teyrngarwch fel Aelod o'r Senedd. Yn yr un modd, dylai’r darpariaethau perthnasol yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr, wrth dderbyn enwebiad, ddatgan, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred, nad oes ganddynt swydd anghymhwyso gael eu diwygio i adlewyrchu hyn

9. Mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd lle cynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021[3], mae Rhan 4 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn diwygio adran 16 o Ddeddf 2006 i greu gwahaniaeth rhwng anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd a rhag bod yn ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd, ac anghymhwyso rhag bod yn aelod yn unig.

10. Mae adran 16 wedi’i diwygio hefyd i ddarparu nad yw personau sy'n dal swydd a bennir mewn Gorchymyn yn y Cyngor wedi eu hanghymhwyso os bydd y person yn ymddiswyddo o'r swydd cyn tyngu’r llw (neu wneud y cadarnhad cyfatebol) fel Aelod o'r Senedd.

[3]Gweler adran 42 (sy'n dod i rym) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

11. I'r gwrthwyneb, mae darpariaeth newydd wedi ei mewnosod yn adran 16 o Ddeddf 2006 i ddarparu bod person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod, a rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd, os yw'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau o bersonau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006, neu os oes ganddo unrhyw un o'r swyddi a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1A (a fewnosodwyd gan adran 29(7) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020). Os caiff person sydd wedi'i anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd am fod yn aelod o'r Senedd ei enwebu fel ymgeisydd mewn etholiad, mae'r enwebiad yn ddi-rym[4].

12. Mae Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 wedi'i ddrafftio i adlewyrchu'r newidiadau hyn a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r rhain. Felly, os yw swydd bellach wedi'i rhestru yn Atodlen 1A newydd o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i cyflwynwyd gan Atodlen 3 i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020), neu os yw eisoes wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd gan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw'r swyddi hyn wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn drafft newydd 2020.

13. Cyn 5 Ebrill 2021, bydd newidiadau'n cael eu gwneud i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Gorchymyn Cynrychioli'r Bobl) 2007 i ddiwygio'r gofyniad i bobl ddatgan nad oes ganddynt swydd sy'n anghymhwyso cyn derbyn enwebiad fel ymgeisydd.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

14. Cyn pob etholiad cyffredinol yn y Senedd, mae Gorchymyn yn y Cyngor o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei wneud, sy'n pennu swyddi y mae eu deiliaid wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd.

15. Ar hyn o bryd, mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yn dal mewn grym, felly mae personau sy'n dal unrhyw un o'r swyddi a bennir yng Ngorchymyn 2015 wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd.

16. Effaith fwriedig y Gorchymyn drafft hwn, felly, yw dirymu Gorchymyn 2015, a nodi rhestr wedi'i diweddaru o swyddi anghymhwys cyn etholiad cyffredinol nesaf y Senedd. Daw'r Gorchymyn i rym yn etholiad cyntaf y Senedd ar 5 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny. Bydd yn cyd-fynd â'r anghymwysiadau a nodir yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1A iddi, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ac unrhyw anghymwysiadau penodol eraill y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth arall i lunio'r rhestr lawn o swyddi n anghymhwys. Mae'r Nodyn Esboniadol i'r Gorchymyn yn ei gwneud yn glir y dylid ei

[4]Gweler adran 18A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan adran 34 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

ddarllen ochr yn ochr ag adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1A iddi.

17. Ei ddiben yw anghymhwyso deiliaid swyddi penodol rhag bod yn aelod o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd) lle bo angen gwneud hynny er mwyn diogelu annibyniaeth y broses etholiadol, atal gwrthdaro buddiannau, neu ddiogelu swyddi cyhoeddus penodol rhag rhagfarn wleidyddol.
.

**Ymgynghori**

18. Ar 22 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020. Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn am farn ar ba swyddi y dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn newydd a fydd yn dirymu ac yn disodli'r Gorchymyn presennol, sef Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

19. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 1 Mehefin. Yn ogystal â bod ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru, cysylltwyd yn uniongyrchol â swyddi a restrwyd at ddibenion anghymhwyso o dan y Gorchymyn drafft, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i roi eu barn ynghylch a oeddent o'r farn bod eu cynnwys yn y Gorchymyn yn briodol, ac a oedd unrhyw swyddi eraill a ddylai gael eu cynnwys yn eu barn hwy.

20. Cafwyd un ar ddeg o ymatebion sylweddol i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn gan gyrff a gadarnhaodd eu bod yn fodlon ar y bwriad i anghymhwyso'r swyddfi a restrir yn y Gorchymyn drafft a oedd yn berthnasol iddynt. Mae crynodeb o'r newidiadau i'r Gorchymyn drafft ar ôl yr ymgynghoriad fel a ganlyn:

21. Ar hyn o bryd, mae Prif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn swydd ar y cyd â'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Fodd bynnag, efallai na fydd y trefniant hwn ar waith bob amser, ac felly rydym wedi cynnwys Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn y Gorchymyn drafft, gan mai'r Ysgrifennydd fyddai pennaeth y Comisiwn pe bai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn dod yn sefydliad annibynnol gyda'i Ysgrifenyddiaeth ei hun.

22. Ar ôl ystyried yr ymateb yn gofyn am ystyried cynnwys y Comisiynydd Gwybodaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad, gan fod angen i'r Comisiynydd Gwybodaeth allu gwneud penderfyniadau gwrthrychol a diduedd am ymddygiad Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â data a gwybodaeth, y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn cael ei ychwanegu at y Gorchymyn drafft.

23. Tynnwyd ein sylw at y ffaith y dylai Comisiynwyr ac Aelodau Anweithredol Comisiwn y Gyfraith gael eu cynnwys yn y Gorchymyn drafft. Roedd Deddf Cymru 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfeirio prosiectau at Gomisiwn y Gyfraith. Mae'r un Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ar gynigion Comisiwn y Gyfraith mewn meysydd datganoledig yng Nghymru, ac mae'n ofynnol sefydlu Protocol rhwng Comisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru.

24. Ychwanegwyd comisiynwyr y Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) hefyd at y Gorchymyn drafft wrth i JAC gynnal penodiadau i dribiwnlysoedd datganoledig ar ran Gweinidogion Cymru drwy gytundeb o dan Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

25. Bydd yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol hefyd yn cael ei gynnwys yn y Gorchymyn drafft gan y gall yr Ombwdsmon fod yn rhan o achosion disgyblu ar gyfer barnwyr ac aelodau o Dribiwnlysoedd Cymru.

26. Roedd yr ychwanegiadau hyn yn gyson ag Egwyddor 4 o'r meini prawf a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfynu pa swyddi y dylid eu cynnwys.

27. Mae'r holl sefydliadau a amlinellir uchod wedi cael e-bost uniongyrchol i'w hysbysu y bydd y swyddi sy'n berthnasol i'w sefydliad yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn drafft.

28. Tynnwyd ein sylw hefyd at y ffaith bod Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau wedi cau ym mis Mawrth 2017 ac felly mae wedi'i ddileu o'r Gorchymyn drafft.

29. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-09/fersiwn-ddrafft-o-orchymyn-senedd-cymru-anghymhwyso-2020-dogfen-ymatebion.pdf

**Asesiad o Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

30. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn gan fod Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) yn dod o fewn yr esemptiad a geir yn y Cod lle mae angen diwygiadau technegol rheolaidd neu ddiwygiadau ffeithiol i ddiweddaru'r rheoliadau.

31. Cwblhawyd Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020. Mae'r newidiadau a achoswyd gan y Gorchymyn drafft (o'u cymharu â Gorchymyn 2015) yn dechnegol eu natur ac yn benodol wrth eu cymhwyso i'r bobl sy'n meddiannu'r swyddi dynodedig. Drwy gydol y broses hon ni nodwyd unrhyw effeithiau ar bobl, diwylliant a'r Gymraeg, economi ac amgylchedd Cymru o ganlyniad i Orchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

32. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn cael unrhyw effaith ar ddyletswyddau statudol Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â chyfle cyfartal (adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), y Gymraeg (adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru), na datblygu cynaliadwy (adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar lywodraeth leol, y sector gwirfoddol na chynlluniau busnes o dan adran 73, 74 a 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y drefn honno.

33. Mae adran 1 ac Adran 7 o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-09/crynodeb-o-asesiad-effaith-integredig-llywodraeth-cymru-y-gorchymyn-senedd-cymru-anghymhwyso-2020-drafft.pdf

# SL(5)627 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ac yn dynodi bwrdeistrefi sirol Conwy a Wrecsam, a Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn ardaloedd diogelu iechyd lleol sy’n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion lleol.

Yr effaith mewn perthynas â phob un o’r ardaloedd newydd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai’n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwydydd rhag ffurfio aelwydydd estynedig;
- gwahardd personau sy’n byw ym mhob ardal rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd o’r ardal heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw’n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o’r tu allan i’r ardal rhag mynd i’r ardal heb esgus rhesymol;  Nid yw mynd i ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw’n rhesymol ymarferol i’r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i’r ardal.

Rhaid adolygu'r Rheoliadau cyn diwedd 7 Hydref 2020 ac yna o leiaf unwaith bob 7 diwrnod.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn cyflwyno cyfyngiadau coronafeirws tynnach yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau yn ymateb "i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws" ac i'r "bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach".

Credwn, lle mae'r cyfyngiadau coronafeirws yn cael eu tynhau mewn unrhyw ffordd arwyddocaol, y dylai Memoranda Esboniadol nodi'r dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu arni wrth benderfynu bod tynhau o'r fath yn angenrheidiol ac yn gymesur. Credwn y dylai'r un egwyddor fod yn gymwys lle mae cyfyngiadau'n cael eu llacio.

O ran y Rheoliadau hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru roi tystiolaeth sy'n dangos:

(a) y dylid cyflwyno cyfyngiadau lleol yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam yn y modd y gwnaed hynny;

(b) bod cymaint o frys am yr angen am gyfyngiadau lleol yn yr ardaloedd hynny fel nad oedd amser i'r Senedd gymeradwyo drafft o'r Rheoliadau ymlaen llaw;

(c) nad oedd angen cyflwyo cyfyngiadau lleol mewn rhannau eraill o Gymru.

Bydd darparu'r dystiolaeth hon yn cynorthwyo o ran bod yn dryloyw yn ogystal â gwaith craffu'r Pwyllgor ar y cyfyngiadau coronafeirws, yn enwedig os bydd ardaloedd yng Nghymru yn mynd i gyfres o 'gyfyngiadau treigl' yn ystod y misoedd nesaf.

Credwn hefyd y bydd cynnwys tystiolaeth mewn Memoranda Esboniadol yn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o Femoranda Esboniadol a'r offerynnau statudol eu hunain.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Fel y nodwyd uchod, mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno cyfyngiadau coronafeirws tynnach yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Nodwn farn Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol y gellir cyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol mewn perthynas â'r cyfyngiadau newydd hyn oherwydd bod y nod yn ddilys, sef ymateb i'r pandemig coronafeirws.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*
>
> *Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â'r awdurdod lleol a chyrff y GIG ar gyfer ardaloedd Conwy a Wrecsam a Siroedd Ddinbych a Fflint yn ogystal â thrafodaethau parhaus gyda'r Timau Rheoli Digwyddiadau yn yr ardaloedd diogelu iechyd lleol presennol.*
>
> *Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio i Aelodau Seneddol* [sic] *ddoe [29 Medi 2020] fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn; mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael cyhoeddusrwydd eang gan y cyfryngau.*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt rhinweddau cyntaf.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Hydref 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

## 2020 Rhif 1066 (Cy. 240)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Mae'r diwygiad yn dynodi bwrdeistrefi sirol Conwy a Wrecsam, a Sir Ddinbych a Sir y Fflint, yn ardaloedd diogelu iechyd lleol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1066 (Cy. 240)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 3.28 p.m. ar 30 Medi 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 5.30 p.m. ar 30 Medi 2020* |
| *Yn dod i rym* | *am 6.00 p.m. ar 1 Hydref 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020 a deuant i rym am 6.00 p.m. ar 1 Hydref 2020.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4A, ym mharagraff 1, ar ôl paragraff (l) mewnosoder—

"(m) Bwrdeistref Sirol Conwy;

(n) Sir Ddinbych;

(o) Sir y Fflint;

(p) Bwrdeistref Sirol Wrecsam."

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.28 p.m. ar 30 Medi 2020

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224), O.S. 2020/1011 (Cy. 225), O.S. 2020/1022 (Cy. 227), O.S. 2020/1035 (Cy. 229), O.S. 2020/1040 (Cy. 230), O.S. 2020/1043 (Cy. 232) ac O.S. 2020/1049 (Cy. 235).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

30 Medi 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y cyfyngiadau sy’n cael eu gorfodi yn awr mewn perthynas â Bwrdeistrefi Sirol Conwy, a Wrecsam a Siroedd Sir Ddinbych a Sir y Fflint  yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i’r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

<u>Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol</u>

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o’r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu’r gofynion a wnaed gan y Rheoliadau gwreiddiol drwy’r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae’r darpariaethau hyn yn cydbwyso’r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â’r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae’r Rheoliadau’n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol unigol, a fydd yn awr at ddibenion y prif Reoliadau hefyd yn cynnwys pedair  ardal diogelu iechyd leol newydd, sef y Bwrdeistrefi Sirol Conwy a Wrecsam a Siroedd Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Yn benodol, mae’r cyfyngiadau a’r gofynion hyn yn gwahardd gadael yr ardaloedd neu aros i ffwrdd oddi wrthynt neu fynd iddynt heb esgus rhesymol; yn darparu nad oes unrhyw aelwyd o fewn yr ardaloedd yn cael ei thrin fel rhan o aelwyd estynedig ac yn gwahardd aelwydydd o’r fath rhag ffurfio aelwydydd estynedig; ac yn ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd

trwyddedig gau erbyn 11pm bob dydd. Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a’r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o’r farn y gellir cyfiawnhau’r ymyrraeth, i’r graddau bod y cyfyngiadau a’r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â’r hawliau hynny neu’n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i’r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o’r coronafeirws a’i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a’i bod yn gymesur i’r nod hwnnw. Mae’r gofynion i beidio â gadael yr ardaloedd neu fynd iddynt yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy’n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy’n agored i niwed. At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru, erbyn 7 Hydref, adolygu’r angen am y cyfyngiadau a’r gofynion a osodir gan y Rheoliadau a’u cymesuredd o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol, a gwneud hynny o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i’r prif Reoliadau.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio[1] gydag effaith o 8 Medi 2020 i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag ‘ardal diogelu iechyd leol’, Ar hyn o bryd, mae deuddeg ardal diogelu iechyd leol[2] , a'r Rheoliadau hyn yn ymestyn bellach y cyfyngiadau a gofynion i Bwrdeistrefi Sirol Conwy a Wrecsam a Siroedd Sir Ddinbych a Sir y Fflint. .  Effaith hyn mewn perthynas â phob un o'r ardaloedd newydd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai’n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwyd o’r fath rhag ffurfio aelwyd estynedig;

[1] Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 OS 2020/961 (Cy. 215)
[2] sef Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morganwg,  a Bwrdeistref Dinas a Sir Casnewydd,13 ward etholiadol Llanelli, a Dinas a Sir Caerdydd ac o Abertawe.

- gwahardd personau sy’n byw yn yr ardal honno rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd oddi wrthi heb esgus rhesymol;

- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw’n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;

- gwahardd pobl o’r tu allan o’r ardal rhag mynd yno heb esgus rhesymol. Nid yw mynd i’r ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw’n rhesymol ymarferol i’r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i’r ardal.

Daw’r Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 1 Hydref 2020. Rhaid adolygu’r cyfyngiadau a’r gofynion a gyflwynir gan y diwygiadau hyn mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol ar 7 Hydref neu cyn y dyddiad hwnnw, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo’r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy’n deillio o’r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno’r gofynion a’r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i’r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae’r prif Reoliadau’n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i’r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â’r awdurdod lleol a chyrff y GIG ar gyfer ardaloedd Conwy a Wrecsam a Siroedd Ddinbych a Fflint yn ogystal â thrafodaethau parhaus gyda'r Timau Rheoli Digwyddiadau yn yr ardaloedd diogelu iechyd lleol presennol. Bu'r dystiolaeth a'r cyngor a ddarparwyd ganddynt yn allweddol wrth bennu graddau'r ardal diogelu iechyd leol newydd

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio i Aelodau Seneddol ddoe fod bwriad i osod y cyfyngiadau a’r gofynion a gyflawnir

drwy’r Rheoliadau hyn; mae’r newidiadau arfaethedig wedi cael cyhoeddusrwydd eang gan y cyfryngau.

**6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o’r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

30 Medi 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. yfory. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 3 Tachwedd 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Hydref 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# STATEMENT
# BY
# THE WELSH GOVERNMENT

| | |
|---|---|
| **TITLE** | **Update on Local Coronavirus Restrictions** |
| **DATE** | **29 September 2020** |
| **BY** | **Vaughan Gething MS, Minister for Health and Social Services** |

Llywydd, thank you for the opportunity to today update Members about the very latest situation across Wales.

The First Minister, myself and the Minister for North Wales have just come from a meeting of local authority leaders, the police, the NHS and public health experts to discuss the rise in coronavirus in parts of North Wales.

Unfortunately, we are seeing a similar pattern of transmission in coronavirus in Wrexham, Denbighshire, Flintshire and Conwy as we have seen in parts of South Wales. Rates remain low in Gwynedd and Anglesey at the moment.

After extensive discussions, it was agreed by everyone in the meeting that urgent action is needed now to control the spread of the virus in North Wales and to protect people's health.

We will therefore be introducing local restrictions – the same local restrictions which are in place in other parts of South Wales – in Wrexham, Denbighshire, Flintshire and Conwy from 6pm on Thursday October 1.
Llywydd, over the last few weeks, we have seen a significant rise in the number of new cases of coronavirus in Wales overall.

Nationally we must remember that:

1. People are not allowed to meet socially anywhere indoors with people they do not live with and who are not part of an extended household. If people have formed an extended household, they can meet indoors in a group of up to six

people from that extended household at any one time. Under 11s are not included when counting the six as long as they are part of that extended household.

2. People must not gather outdoors in groups of more than 30.

3. Face coverings are mandatory in indoor public spaces (subject to certain exemptions and exceptions)

4. Licensed premises must not sell alcohol after 10pm. This includes pubs, restaurants, Off licenses, supermarkets and other retail outlets.

Whilst case numbers are continuing to rise nationally we have no immediate plans for any further national restrictions. We will of course act if we feel further national restrictions are need to prevent the spread of coronavirus and outweigh the wider harms such restrictions can cause.

We have seen spikes in case numbers in a number of our local authority areas. As a result, a large part of the population of South Wales are now living in areas under local restrictions to protect their health and prevent the spread of coronavirus.

The areas under local restrictions at the moment are:

1. **Caerphilly** (Tuesday 8th September at 6pm)
2. **Rhondda Cynon Taf** (Thursday 17th September 6pm)
3. **Blaenau Gwent, Bridgend, Merthyr Tydfil** and **Newport** (Tuesday 22nd September 6pm)
4. **Llanelli** (Saturday 26th September 6pm)
5. **Cardiff** and **Swansea** (Sunday 27th September at 6pm)
6. **Neath Port Talbot**, the **Vale of Glamorgan** and **Torfaen** (Monday 28th September at 6pm)

The local restrictions are the same in each designated area:

1. People are not be allowed to enter or leave the area without a reasonable excuse.

2. People are not allowed to meet indoors with anyone they do not live with for the time being – this includes extended households (sometimes called a “bubble”) – they have been suspended for the time being.

3. All licensed premises have to stop serving alcohol at 10pm.

4. Everyone must work from home wherever possible.

To be clear, a reasonable excuse to leave or enter an area includes going to work where people cannot work from home, or using public services that are not available locally. It also includes visiting family or close friends on compassionate grounds if necessary.

People who have urgent hospital appointments can leave or enter an area, although we recommend that all non-urgent appointments are postponed.

For those who share parental responsibility for a child, they can continue existing arrangements for access and contact, including leaving or entering a local area if needed.
Similarly childcare arrangements can continue. That includes where this is provided by grandparents although clearly there are increased risks with older people and we recommend that alternative care arrangements are found if possible. As a minimum everyone should ensure they are regularly washing their hands and that wider guidance on managing the virus is followed.

Routine visits to care homes in areas under local restrictions have been suspended at the present time. Visits to care homes may still take place in exceptional circumstances such as end of life, however this should be discussed with the individual care home before travelling.

Children, providing they are well, should continue to go to school, keeping schools open remains our top priority.

This is not a regional lockdown. We have introduced a series of local restrictions in these South Wales local authority areas to respond to a specific rise in cases in each area, all of which have distinct and unique chains of transmission.

The local measures have been selected to maximise the impact on reducing coronavirus transmission and minimise the wider harms such restrictions can cause. The measures are designed to supplement and enhance local responses from the local authority, local health boards and police that are already underway.

We will keep these measures under constant review and we will continue to hold meetings with public health experts, local authority leaders, the NHS, police and police and crime commissioners to assess the latest position in each of these areas.

In Caerphilly and Newport, we have seen real falls in case numbers and we are hopeful that will be able to take action to relax these restrictions in these areas if the case numbers continue to fall.

It is important everyone follows the rules where they live. We need everyone's help to bring coronavirus under control. It is only by working together that we will be able to reduce coronavirus, protect ourselves and our loved ones and keep Wales safe.

**Check against delivery**

# SL(5)629 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau –

(a) yn caniatáu i aelwyd sy'n cynnwys dim mwy nag un oedolyn (pa un a oes plant yn byw yn yr aelwyd hefyd ai peidio) sy'n byw mewn ardal diogelu iechyd leol ac aelwyd arall sydd hefyd yn byw yn yr ardal, ffurfio aelwyd estynedig dros dro;
(b) yn caniatáu i ganolfannau sglefrio agor, ond rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre;
(c) yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol.

Caiff aelwyd ffurfio aelwyd estynedig dros dro yn unol â'r diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn pa un a oedd eisoes wedi ffurfio aelwyd estynedig (gyda hyd at dair aelwyd arall) ai peidio cyn i'w hardal ddod yn ardal diogelu iechyd leol.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*Mae'r Rheoliadau'n caniatáu i aelwyd un oedolyn mewn ardal diogelu iechyd leol i ffurfio aelwyd estynedig gydag un aelwyd arall yn yr un ardal diogelu iechyd leol. Bydd hyn yn cyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch i'r teulu a bywyd preifat) ac yn galluogi pobl i fwynhau'r hawl hon yn fwy, drwy ffurfio aelwydydd estynedig o dan amgylchiadau o'r fath, ac felly'n lleddfu'r ymyrraeth gyfredol â'r hawliau hynny, sydd wedi ei chyfiawnhau ynddi ei hun, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod wedi bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Yn yr un modd, bydd rhestru canolfannau sglefrio fel mangreoedd agored yn caniatáu i hawliau gael eu mwynhau'n fwy, yn benodol o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf.*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*

*Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Amlinellais fod bwriad i wneud y newidiadau hyn mewn datganiad i Aelodau a chynhadledd wasg a gynhaliwyd yn gynharach heddiw; mae'r newidiadau arfaethedig wedi eu hadrodd yn eang gan y cyfryngau.*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Hydref 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1079 (Cy. 242)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

(a) yn caniatáu i aelwyd sy'n cynnwys dim mwy nag un oedolyn (pa un a oes plant yn byw yn yr aelwyd hefyd ai peidio) sy'n byw mewn ardal diogelu iechyd leol ac aelwyd arall sydd hefyd yn byw yn yr ardal, ffurfio aelwyd estynedig dros dro;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) yn caniatáu i ganolfannau sglefrio agor, ond rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre (yn unol â rheoliad 12 o'r prif Reoliadau);

(c) yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol.

Caiff aelwyd ffurfio aelwyd estynedig dros dro yn unol â'r diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn pa un a oedd eisoes wedi ffurfio aelwyd estynedig (gyda hyd at dair aelwyd arall) ai peidio cyn i'w hardal ddod yn ardal diogelu iechyd leol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1079 (Cy. 242)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 1.25 p.m. ar 2 Hydref 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 3.50 p.m. ar 2 Hydref 2020* |
| *Yn dod i rym* | *3 Hydref 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 and a deuant i rym ar 3 Hydref 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2A, ym mharagraff (3)(a), yn lle "a rheoliad 14(1)(b)(i)" rhodder ", rheoliad 14(1)(b)(i) a pharagraff 2 o Atodlen 4A".

(3) Yn rheoliad 12B, hepgorer paragraff (5).

(4) Yn Atodlen 2, hepgorer paragraff 10.

(5) Yn Atodlen 4, ar ôl paragraff 45 mewnosoder—

"**46.** Canolfannau sglefrio."

(6) Yn Atodlen 4A, yn lle paragraff 2 rhodder—

**"Cyfyngiad ar aelwydydd estynedig**

**2.**—(1) Pan fo aelwyd, cyn i'r ardal y mae'r aelwyd yn byw ynddi ddod yn ardal diogelu iechyd leol, wedi cytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig gydag aelwydydd eraill yn unol â rheoliad 2A—

(a) nid yw'r aelwyd honno i'w thrin fel pe bai yn yr aelwyd estynedig o'r adeg y daeth yr ardal yn ardal diogelu iechyd leol, a

(b) mae'r aelwydydd eraill yn parhau i gael eu trin fel aelwyd estynedig (ar yr amod nad ydynt yn byw mewn ardal diogelu iechyd leol) ac mae rheoliad

---

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224), O.S. 2020/1011 (Cy. 225), O.S. 2020/1022 (Cy. 227), O.S. 2020/1035 (Cy. 229), O.S. 2020/1040 (Cy. 230), O.S. 2020/1043 (Cy. 232), O.S. 2020/1049 (Cy. 235) ac O.S. 2020/1066 (Cy. 240).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

2A yn gymwys i'r aelwydydd hynny yn unol â hynny.

(2) Er gwaethaf rheoliad 2A(1), ni chaiff unrhyw aelwyd sy'n byw mewn ardal diogelu iechyd leol gytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig gydag aelwydydd eraill.

(3) Ond caiff aelwyd sy'n cynnwys dim mwy nag un oedolyn (ac unrhyw nifer o blant) sy'n byw mewn ardal diogelu iechyd leol ac aelwyd arall sydd hefyd yn byw yn yr ardal honno, gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig dros dro.

(4) Mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig dros dro—

(a) os yw'r aelwyd yn peidio â byw yn yr ardal diogelu iechyd leol, neu

(b) os yw'r ardal yn peidio â bod yn ardal diogelu iechyd leol.

(5) Mae paragraffau (2) i (6) o reoliad 2A yn gymwys i (ddwy) aelwyd a drinnir fel aelwyd estynedig dros dro o dan is-baragraff (3) fel y maent yn gymwys i (hyd at bedair) aelwyd a drinnir fel aelwyd estynedig o dan reoliad 2A(1).

(6) Ond nid yw rheoliad 2A(4) yn atal—

(a) dwy aelwyd rhag cael eu trin fel aelwyd estynedig dros dro o dan is-baragraff (3)—

(i) pan oedd y naill aelwyd neu'r llall yn cael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig yn unol â rheoliad 2A, a

(ii) pan na fo'r naill aelwyd na'r llall yn cael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig mwyach yn rhinwedd is-baragraff (1)(a);

(b) hyd at bedair aelwyd rhag cael eu trin fel aelwyd estynedig o dan reoliad 2A(1)—

(i) pan oedd o leiaf un o'r aelwydydd yn cael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig dros dro yn unol ag is-baragraff (3), a

(ii) pan fo o leiaf un o'r aelwydydd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig dros dro mwyach yn rhinwedd is-baragraff (4)."

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 1.25 p.m. ar 2 Hydref 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 17) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

2 Hydref 2020

**1. Disgrifiad**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”).

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y gofynion sy’n cael eu cyflwyno yn awr yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i’r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

<u>Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol</u>

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o’r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu’r gofynion a wnaed gan y Rheoliadau gwreiddiol drwy’r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae’r darpariaethau hyn yn cydbwyso’r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â’r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae’r Rheoliadau’n caniatáu i aelwyd un oedolyn mewn ardal diogelu iechyd leol i ffurfio aelwyd estynedig gydag un aelwyd arall yn yr un ardal diogelu iechyd leol. Bydd hyn yn cyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch i’r teulu a bywyd preifat) ac yn galluogi pobl i fwynhau’r hawl hon yn fwy, drwy ffurfio aelwydydd estynedig o dan amgylchiadau o’r fath, ac felly’n lleddfu’r ymyrraeth gyfredol â’r hawliau hynny, sydd wedi ei chyfiawnhau ynddi ei hun, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i’r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o’r coronafeirws a’i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn

ehangach a'i bod wedi bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Yn yr un modd, bydd rhestru canolfannau sglefrio fel mangreoedd agored yn caniatáu i hawliau gael eu mwynhau'n fwy, yn benodol o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Cafodd yr ardaloedd diogelu iechyd lleol eu gosod i ymateb i gynnydd cyflym mewn achosion Covid-19 yn yr ardaloedd hyn yn seiliedif ar dystiolaeth wyddonol, cyngor iechyd ac ar gais y Timau Rheoli Digwyddiadau lleol. Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio[1] gydag effaith o 8 Medi 2020, er mwyn cyflwyno cyfyngiadau mewn cysylltiad ag ardal diogelu iechyd leol. Roedd hyn yn gwahardd unrhyw aelwyd o fewn ardal o'r fath rhag cael ei chynnwys o fewn aelwyd estynedig ac yn gwahardd ffurfio unrhyw aelwyd estynedig newydd. Roedd hyn yn cael yr effaith bod aelwydydd estynedig presennol wedi dod i ben i unigolion a theuluoedd cyn gynted ag y daeth yr ardal yr oeddent yn byw ynddi yn ardal diogelu iechyd leol.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i ganolfannau sglefrio parhaol ailagor, yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, a'i ledaenu, ac maent yn gwneud mân ddiwygiadau technegol a chanlyniadol i'r prif Reoliadau.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 3 Hydref 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r diwygiadau hyn i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

[1] Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 OS 2020/961 (Cy. 215)

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i’r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau.

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Amlinellais fod bwriad i wneud y newidiadau hyn mewn datganiad i Aelodau a chynhadledd wasg a gynhaliwyd yn gynharach heddiw; mae’r newidiadau arfaethedig wedi eu hadrodd yn eang gan y cyfryngau.

**6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o’r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

2 Hydref 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym yfory. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 5 Tachwedd 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Hydref 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **2 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar symud, cynulliadau, a'r ffordd y caiff busnesau eu gweithredu, gan gynnwys cau busnesau. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd ar agor i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r perygl y bydd pobl yn dod i gysylltiad â'r coronafeirws. Maent wedi eu cynllunio i ddiogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Yr wythnos hon, mae Gweinidogion wedi cynnal yr adolygiad tair wythnos o'r rheoliadau coronafeirws i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymesur â'r risg iechyd y cyhoedd yn sgil y feirws.

Ers wythnosau olaf mis Awst, rydym wedi gweld cynnydd mawr a chyflym yn nifer yr achosion ar draws Cymru, gan ddechrau yn y De Ddwyrain ond yn lledaenu i'r rhan fwyaf o'r wlad.

Rydym wedi cyflwyno cyfres o gyfyngiadau lleol i ymateb i'r cynnydd mewn ardaloedd awdurdodau lleol ar draws Cymru ac rydym hefyd wedi cyflwyno rhai mesurau cenedlaethol ychwanegol, gan gynnwys gwahardd gwerthu alcohol ar ôl 10pm.

Mae'r sefyllfa iechyd y cyhoedd sy'n gwaethygu ar draws Cymru'n golygu na fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau mawr i'r rheolau yn genedlaethol. Yr unig newid bychan yw y bydd canolfannau sglefrio yn cael ailagor o 3 Hydref, fel y nodwyd yn yr adolygiad diwethaf.

Fodd bynnag, byddwn yn newid y cyfyngiadau lleol i sicrhau nad yw pobl sengl sy'n byw ar eu pen eu hunain, gan gynnwys rhieni sengl, mewn perygl o fod yn unig neu'n

ynysig o ganlyniad i’r cyfyngiadau lleol mewn ardaloedd lle bu cynnydd mawr a chyflym yn yr achosion o coronafeirws.

O dan y rheolau newydd, a ddaw i rym yfory, bydd hawl gan oedolion sy’n byw ar eu pen eu hunain i ffurfio aelwyd estynedig – neu swigen – dros dro gydag aelwyd arall yn yr un ardal leol, yn ystod cyfnod y cyfyngiadau.

Bydd hyn yn galluogi oedolion sengl a rhieni sengl i gwrdd â phobl eraill dan do yn ystod cyfnod y cyfyngiadau lleol, yn y gobaith o leihau effaith emosiynol y cyfyngiadau lleol arnynt. Bydd y rheol ‘chwech o bobl’ yn berthnasol i’r aelwydydd estynedig newydd hyn ar gyfer pobl sengl.

Yn ystod yr wythnos nesaf, byddwn hefyd yn cryfhau pwerau awdurdodau lleol i gyfyngu ar yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i atal pobl rhag ymgynnull ac yfed mewn ardaloedd penodol lle mae risg y bydd coronafeirws yn cael ei drosglwyddo.

Mae cyfyngiadau lleol yn awr mewn grym mewn 15 o ardaloedd awdurdodau lleol ac yn Llanelli. Mae’r rheoliadau’n ei gwneud yn ofynnol inni adolygu’r cyfyngiadau hyn yn wythnosol. Cynhaliwyd yr ail adolygiad yr wythnos hon ac rydym wedi dod i’r casgliad ei bod hi’n rhy fuan i godi’r cyfyngiadau yn unrhyw un o’r ardaloedd diogelu iechyd lleol.

Mae’n galonogol bod achosion coronafeirws wedi parhau i ostwng ym mwrdeistref Caerffili yn y saith diwrnod diwethaf. Mae’r diolch am hynny i ymdrechion y bobl sy’n byw yn yr ardal. Ond mae angen i’r cyfraddau ostwng ymhellach cyn inni lacio’r cyfyngiadau. Byddwn yn defnyddio’r saith diwrnod nesaf i weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac awdurdodau lleol eraill, meddygon iechyd y cyhoedd, yr heddlu, ac eraill, i gytuno ar lwybr fesul cam o lacio’r cyfyngiadau hyn.

Drwy weithio gyda’n gilydd gallwn ddiogelu ein hunain, diogelu ein teuluoedd a diogelu Cymru.

# SL(5)619 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (**y Prif Reoliadau**).

Mae'r diwygiadau –

(a) yn darparu, mewn mangre sydd wedi ei thrwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed yn y fangre, na chaiff bwyd neu ddiod ond ei weini neu eu gweini i gwsmeriaid sy'n eistedd (yn ddarostyngedig i esemptiadau penodol ar gyfer prydau bwffe, ffreuturau yn y gweithle a mangreoedd mewn sefydliadau addysgol fel ffreuturau mewn prifysgolion), a bod rhaid i gwsmeriaid fod yn eistedd pan fyddant yn bwyta'r bwyd hwnnw neu'n yfed y ddiod honno;

(b) yn darparu na chaiff mangre sydd wedi ei thrwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol (pa un ai i'w yfed yn y fangre neu heb fod yn y fangre) weini na chyflenwi alcohol ar ôl 10.00 p.m. (ac na chaiff weini na chyflenwi alcohol eto cyn 6.00 a.m. y bore canlynol);

(c) yn darparu bod rhaid i fangre sydd wedi ei thrwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed yn y fangre gau am neu cyn 10.20 p.m. (ac na chaiff ailagor cyn 6.00 a.m. y bore canlynol);

(d) yn dileu'r esemptiad sy'n gymwys mewn mangre lle y gwerthir bwyd neu ddiod rhag y gofyniad i wisgo gorchudd wyneb, gan roi yn lle hynny esgus rhesymol i gwsmeriaid beidio â gwisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn eistedd.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn tynhau'r cyfyngiadau yn gyffredinol mewn perthynas â mangreoedd sy'n gwerthu bwyd a diod yng Nghymru.

Rydym hefyd yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y rheoliadau hyn yn nodi:

> *Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas â mangreoedd trwyddedig, gan gynnwys terfyn amser ar gyfer gwerthu alcohol, amseroedd agor a chau (gyda rhai eithriadau, ond mewn achosion o'r fath gwaherddir mangreoedd rhag gwerthu alcohol) a bod gweithredu gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n eistedd yn dod yn fesur rhesymol penodol o dan ddyletswydd y rheini sy'n gyfrifol am y fangre i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronfeirws, a'i ledaenu Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch i'r teulu a bywyd preifat ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd â hwy, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw.*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau hyn a nodwn yr hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei ddweud yn y Memorandwm Esboniadol ynglŷn â hysbysu'r cyhoedd am y Rheoliadau penodol hyn:

> *Amlinellais fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn mewn darllediad ar y teledu fin nos ar 22 Medi; mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael cyhoeddusrwydd eang gan y cyfryngau.*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn gwneud y pwyntiau hyn mewn perthynas â'r Prif Reoliadau yn eu cyfanrwydd, yn hytrach na'r Prif Reoliadau fel y'u diwygiwyd yn benodol gan y Rheoliadau hyn.

3.1 Nodwn ei bod yn dod yn fwyfwy anodd a dryslyd i aelodau'r cyhoedd gadw i fyny â'r holl newidiadau. Nodwn yn benodol y stori newyddion ddiweddar a ganlyn sy'n tynnu sylw at y dryswch ym Mlaenau Gwent: https://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-54269020

Rydym yn pryderu bod dryswch tebyg ledled Cymru.

3.2 Nodwn hefyd, mewn perthynas â'r Prif Reoliadau yn gyffredinol:

(a) Mae dileu rheoliad 12B(3)(b) o'r Prif Reoliadau yn golygu nad oes angen rheoliad 12B(5) mwyach. Fodd bynnag, mae rheoliad 12B(5) yn parhau i fod yn y Prif Reoliadau.

(b) Roedd Rheoliad 4(2) o'r Prif Reoliadau yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r angen am gyfyngiadau lleol erbyn 24 Medi 2020 ac yna bob 7 diwrnod. Cafodd y cyfyngiadau lleol ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd (**Cyfyngiadau Rhif 11**) eu cynnwys yn y Prif Reoliadau ar 22 Medi 2020. Nid yw'n eglur beth oedd dull Llywodraeth Cymru ar gyfer adolygu Cyfyngiadau Rhif 11 yn unol â'r amserlen a oedd eisoes wedi'i gosod, sef erbyn 24 Medi 2020.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r trydydd pwynt rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

## Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 30 Medi 2020.

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Pwynt 3.1: cyflymder newidiadau i'r Rheoliadau*

2. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi bod amlder diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau") yn ei gwneud yn anodd i'r cyhoedd ddilyn y sefyllfa gyfreithiol gyfredol.

3. O dan yr amgylchiadau eithriadol sydd ohoni, mae angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau bod y gyfraith mor glir a hygyrch â phosibl a gwneud newidiadau cyflym i'r ddeddfwriaeth pan fydd amgylchiadau pandemig y coronafeirws yn newid (i gyflwyno cyfyngiadau pan fo'n angenrheidiol o safbwynt iechyd y cyhoedd ac i lacio cyfyngiadau cyn gynted â phosibl pan fo'n gymesur gwneud hynny, er mwyn osgoi gosod cyfyngiadau ar y cyhoedd am unrhyw gyfnod sy'n hwy nag y bo'n angenrheidiol). Er mwyn hwyluso hygyrchedd, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r prif Reoliadau sy'n cael ei diweddaru ar ôl pob diwygiad (https://llyw.cymru/rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-2-cymru-2020-fel-yu-diwygiwyd). Gwneir y diweddariadau hynny ar y diwrnod y gwneir Rheoliadau diwygio er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at y Rheoliadau diweddaraf cyn gynted â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn deall nad yw'r arfer hon yn cael ei hatgynhyrchu mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

*Pwynt 3.2(a): Rheoliad 12B(5)*

4. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi bod rheoliad 12B(5) yn parhau i fod yn y prif Reoliadau er bod rheoliad 12B(3)(b) wedi ei ddirymu. Mae hyn wedi ei gywiro yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 a wnaed ar 2 Hydref 2020.

*Pwynt 3.2(b): Amseru adolygu cyfyngiadau lleol*

5. Mae'r Adroddiad drafft yn ceisio eglurhad o ran yr amserlenni ar gyfer adolygu cyfyngiadau lleol, yn benodol yng ngoleuni cyflwyno cyfyngiadau lleol a osodwyd ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd ar 22 Medi a'r ffaith bod yr adolygiad cyntaf o gyfyngiadau lleol yn ofynnol erbyn 24 Medi. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn bwysig bod pob ardal sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau lleol yn cael ei hadolygu ar sail yr un cylch o 7 niwrnod. Gall hynny arwain at gynnal yr adolygiad cyntaf mewn cysylltiad â rhai ardaloedd yn fuan iawn ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu gosod.

6. Er ei bod yn debygol iawn na fyddai adolygiad cynnar o’r fath yn arwain at unrhyw newid (gan na fyddai unrhyw amser i asesu effaith y cyfyngiadau mewn ffordd ddibynadwy), mae Llywodraeth Cymru yn ystyried, serch hynny, ei bod yn bwysig cynnal cylch adolygu cyson sy’n gorbwyso’r anfantais o gynnal adolygiad diangen, yn ôl pob golwg, o’r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar.

# SL(5)621 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru i ynysu am gyfnod i'w bennu'n unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i rai eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi'u hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt i gael gwared ar Curacao, Denmarc, Gwlad yr Iâ a Slofacia, a gwneud darpariaethau trosiannol cysylltiedig.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn:

1. ychwanegu esemptiad i'r gofynion ynysu ar gyfer athletwyr elitaidd sy'n byw yn y DU (a phersonau sy'n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwyr elitaidd) wrth ddychwelyd o raglenni hyfforddi dramor;
2. gwneud eithriadau o'r gofynion ynysu ar gyfer athletwyr elitaidd a staff cymorth i fynd i sesiynau sgrinio meddygol ac ar gyfer chwaraewyr sydd newydd eu harwyddo er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn cystadlaethau; a
3. mewnosod digwyddiadau ychwanegol at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig yn Atodlen 4, er mwyn eithrio personau sy'n cystadlu yn y digwyddiadau hynny (neu'n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i bobl sy'n cystadlu ynddynt) rhag y gofynion i ynysu.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau, mae croesgyfeiriad anghywir yn y pennawd cyn rheoliad 3, sy'n darllen:

> *'Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 24'.*

Dylai'r cyfeiriad at *'rheoliad 24'* gyfeirio at *'rheoliad 2'*. Mae'r fersiwn Saesneg yn gywir.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am y torri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 25 Medi 2020.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn cadarnhau fel a ganlyn:

> *"Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau technegol a nodwyd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020**

Pwynt Craffu Technegol

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau, mae croesgyfeiriad anghywir yn y pennawd o flaen rheoliad 3, sy'n darllen:

*'Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 24'*.

Dylai'r cyfeiriad at *'rheoliad 24'* gyfeirio at *'rheoliad 2'*. Mae'r fersiwn Saesneg yn gywir.

***Ymateb***

Rydym yn nodi'r pwynt craffu technegol ac yn cadarnhau bod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 ("Rheoliadau Rhif 13"), a wnaed ar 2 Hydref 2020, yn ymdrin â hyn yn rheoliad 4.

Mae rheoliad 4 o Reoliadau Rhif 13 yn diwygio testun Cymraeg Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 i gywiro pennawd rheoliad 3, drwy roi "rheoliad 2" yn lle "rheoliad 24".

# C(5)042 – Gorchymyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Cychwyn) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (y Ddeddf) ac Atodlen 2 iddi, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch trefniadau ariannol a goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol, i rym yn llawn ar 1 Hydref 2020.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn – nid yw'n ofynnol gosod y Gorchymyn gerbron y Senedd.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwn ddarpariaethau'r Ddeddf a gychwynnwyd gan y Gorchymyn hwn, a'r diweddariad a ddarparwyd gan y Prif Weinidog mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 28 Medi 2020, yn benodol:

> *Rwy'n ysgrifennu ymhellach at fy llythyr dyddiedig 4 Mehefin 2020, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes gychwyn gwaith i weithredu'r darpariaethau yn adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ac Atodlen 2 iddi sy'n ymwneud ag ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol.*
>
> *Nodais y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Gorchymyn i ddod â'r darpariaethau hynny i rym, yn amodol ar gwblhau'r newidiadau angenrheidiol i'r Rheolau Sefydlog, sefydlu Pwyllgor y Llywydd, a negodi cytundeb ariannu rhyng-sefydliadol.*
>
> *Gan fod cynnydd digonol wedi'i wneud o ran y gwaith hwnnw, credaf fod yr amodau a nodais yn cael eu bodloni. Felly, mae'n bleser gennyf gadarnhau y byddaf yn dod â'r darpariaethau perthnasol i rym ar 1 Hydref.*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Hydref 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1052 (Cy. 236) (C. 31)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Cychwyn) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adran 28 o'r Ddeddf ac Atodlen 2 iddi, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch trefniadau ariannol a goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol, i rym yn llawn ar 1 Hydref 2020.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1052 (Cy. 236) (C. 31)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Cychwyn) 2020

*Gwnaed* *28 Medi 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 42(3)(b) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Cychwyn) 2020.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

**Y diwrnod penodedig**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 1 Hydref 2020—

(a) adran 28;

(b) Atodlen 2.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
28 Medi 2020

(**1**) 2020 dccc 1.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Llywydd@senedd.cymru

28 Medi 2020

Annwyl Elin

Rwy'n ysgrifennu ymhellach at fy llythyr dyddiedig 4 Mehefin 2020, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes gychwyn gwaith i weithredu'r darpariaethau yn adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ac Atodlen 2 iddi sy'n ymwneud ag ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol.

Nodais y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Gorchymyn i ddod â'r darpariaethau hynny i rym, yn amodol ar gwblhau'r newidiadau angenrheidiol i'r Rheolau Sefydlog, sefydlu Pwyllgor y Llywydd, a negodi cytundeb ariannu rhyng-sefydliadol.

Gan fod cynnydd digonol wedi'i wneud o ran y gwaith hwnnw, credaf fod yr amodau a nodais yn cael eu bodloni. Felly, mae'n bleser gennyf gadarnhau y byddaf yn dod â'r darpariaethau perthnasol i rym ar 1 Hydref.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau Cyllid a Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Cyfansoddiad, at Archwilydd Cyffredinol Cymru ac at Bennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau yr Amgylchedd ( (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **29 Medi 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau yr Amgylchedd ( (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020")**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru. Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn diwygio deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar Loegr yn unig:

Rheoliadau'r UE

- Cyfarwyddeb 2008/50/EC sy'n pennu'r gofynion ar ansawdd aer amgylchynol ac aer glanach ar gyfer Ewrop;
- Cyfarwyddeb Allyriadau Cenedlaethol 2016/2284/EU sy'n gosod targedau cenedlaethol ar gyfer lleihau allyriadau i'r Aelod-wladwriaethau a'r UE.
- Penderfyniad 2019/2010/EU yn sefydlu casgliadau o ran y technegau gorau sydd ar gael, o dan Gyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor, ar gyfer llosgi gwastraff;
- Penderfyniad 2019/2031 yn sefydlu casgliadau o ran y technegau gorau sydd ar gael ar gyfer y diwydiannau bwyd, diod a llaeth, o dan Gyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor; a
- Penderfyniad 2020/4053 (EU) yn sefydlu casgliadau o ran y technegau gorau sydd ar gael ar gyfer triniaeth wyneb gan ddefnyddio toddyddion organig gan gynnwys cadw pren a chynhyrchion pren gyda chemegau, o dan Gyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor.

Is-ddeddfwriaeth

- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010 (Lloegr yn unig);
- Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018;
- Rheoliadau Rheoli Masnach mewn Rhywogaethau sy'n Dod i Ben (Diwygiadau Amrywiol) 2019; a
- REACH ac ati. (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r Rheoliadau yn ymwneud â meysydd lle mae eu cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru'n cael eu cadw cyn belled ag y bo modd mewn cysylltiad â chyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw. Mae pwerau presennol Gweinidogion Cymru, er mwyn mynd i'r afael â diffygion, wedi'u diwygio i sicrhau bod cyfreithiau amgylcheddol penodol yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r cyfnod gweithredu ddod i ben.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2020 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol arfaethedig ac yn gwneud cywiriadau a diwygiadau technegol i Reoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010, Rheoliadau Terfynau Gollyngiadau Allyriadau Cenedlaethol 2018, Rheoliadau Rheoli Masnach mewn Rhywogaethau sy'n Dod i Ben (Diwygiadau Amrywiol) 2019 a Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Amrywiol a Dirymu Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE) (Ymadael yr UE) 2018. Yn ogystal, mae Rheoliad 2020 yn diwygio sawl dyddiad yn REACH ac ati. (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae'n disodli cyfeiriadau at "exit day" gyda chyfeiriadau at "Diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu".

Mae'r Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith y diwygiadau ar gael yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-environment-miscellaneous-amendments-eu-exit-regulations-2020

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gyson ac yn ystyrlon. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **167 – Rheoliadau yr Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 24 Medi 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Ydy |
| Gweithdrefn: | Negyddol Arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 6 Hydref 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 6 Hydref 2020 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 12 Hydref 2020 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 38 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw’n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Cynigir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972; adran 8(1) a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 41(1) i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i gyfreithiau amgylcheddol i fynd i'r afael â mân wallau ac i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu, a hefyd yn gwneud y diwygiadau sydd eu hangen i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n uniongyrchol berthnasol.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn:

- Diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010 a Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithredu cyfraith berthnasol yr UE fel y bwriadwyd;

- Sicrhau bod Rheoliadau Rheoli'r Fasnach mewn Rhywogaethau mewn Perygl (Diwygiadau Amrywiol) 2019 yn parhau i weithredu'n effeithiol;

- Cywiro gwallau a diweddaru offerynnau Ymadael â'r UE blaenorol i sicrhau bod diffygion yn y ddeddfwriaeth a ddiwygiwyd gan yr offerynnau hynny yn cael sylw fel y bwriadwyd.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 29 Medi 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Maeth (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **01 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Maeth (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Rheoliadau Maeth (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Maeth (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn 2016/127, sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 609/2013 o ran y gofynion cyfansoddiadol a'r gofynion gwybodaeth penodol ar gyfer fformiwla babanod a fformiwla ddilynol ac o ran gofynion ar wybodaeth sy'n ymwneud â bwydo babanod a phlant ifanc

Rheoliad 2019/343, sy'n darparu rhanddirymiadau o Erthygl 1(3) o Reoliad (CE) Rhif 1924/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar honiadau am faeth ac iechyd a wneir ar fwyd at ddefnydd disgrifyddion generig penodol

Rheoliad y Comisiwn (UE) 2019/651, sy'n wrthod awdurdodi honiad iechyd a wneir ar fwydydd a chyfeirio at ddatblygiad ac iechyd plant i sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol mewn cyfraith ddomestig ar ddiwedd y cyfnod pontio.

2009/980/EU: Penderfyniad y Comisiwn yn awdurdodi honiadau am iechyd ar effaith crynodiad tomato sy'n toddi mewn dŵr ar agregu platennau a rhoi diogelwch i ddata priodoldeb o dan Reoliad (CE) Rhif 1924/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol na gweithredol.

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon (NIP) drwy ddiwygio Rheoliadau Maeth (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 er mwyn datgymhwyso Rhannau 2, 4, 5 rhag bod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon. Felly, dim ond i Brydain Fawr yn hytrach na'r DU gyfan y bydd Rheoliadau 2020 yn gymwys.
Yn benodol, bydd y Rheoliadau yn:

- Dirymu Rheoliadau Maeth (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) (Ymadael â'r UE) 2019. Diwygiodd y Rheoliadau hynny ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE. O ganlyniad i'r NIP, nid oes angen y gwelliannau hynny mwyach.

- Cyfrif am newidiadau yn y ddeddfwriaeth yr UE ar faeth, labelu, cyfansoddiad a safonau UE sydd wedi dod i rym ers mis Mawrth 2019.

- Cywiro anghysondeb yn y rhestr o hawliadau iechyd a ganiateir yn yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn (UE) Rhif 432/2012 a ddargedwir. Mae hyn yn golygu y bydd honiad iechyd ar effaith crynodiad tomato sy'n toddi mewn dŵr ar agregu platennau yn cael ei gynnwys yn y rhestr o honiadau iechyd awdurdodedig ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad, ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348212549/contents

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) ar y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i Offeryn Statudol ledled y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **168 - Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 29 Medi 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydynt |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 40 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1), 8C(1) a 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraffau 21 a 38 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, ac adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

Cafodd Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/651) a Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Gogledd Iwerddon) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/650), a ddaw i rym yn syth ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu, eu gwneud i gywiro diffygion yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir ar faeth a'r ddeddfwriaeth bresennol ddomestig ar faeth sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE.

Er mwyn adlewyrchu Protocol Gogledd Iwerddon, mae'r offeryn hwn yn diwygio OS 2019/651 ac yn dirymu OS 2019/650, fel na fydd rhai swyddogaethau sydd i'w trosglwyddo o Gomisiwn yr UE ac Awdurdod

Diogelwch Bwyd Ewrop ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu yn cael eu trosglwyddo mwyach mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.

Mae'r offeryn hwn hefyd yn gwneud diwygiadau i gyfrif am newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE ar faeth sydd wedi dod i rym ers mis Mawrth 2019, a mân ddiwygiadau eraill.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 1 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn, heblaw bod y datganiad yn cynnwys y gwallau a ganlyn:

1. O dan y pennawd “Y gyfraith sy’n cael ei diwygio”, yn y cyfeiriad at Reoliad y Comisiwn (UE) 2019/651, nid yw’r geiriad “i sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol mewn cyfraith ddomestig ar ddiwedd y cyfnod pontio” yn disgrifio’r Rheoliad hwnnw a dylid ei hepgor; a
2. O dan y pennawd “Diben y diwygiadau”, yn y paragraff cyntaf, mae enghraifft ychwanegol wallus o “2019” yn yr ail linell a chyfeiriad gwallus at “2020” yn y drydedd linell. Mae'r rheoliadau pwnc yn gymwys (yn rhannol) i Ogledd Iwerddon.

Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1SN

5 Hydref 2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr ar ôl sesiwn y Pwyllgor ar 21 Medi.

Gallaf gadarnhau bod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU wedi'i haildrefnu ar gyfer 6 Hydref. Mae'n anffodus nad yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i gwblhau eto, ac nid dyma'r ffordd y byddem, yn ddelfrydol, wedi dewis gweithredu. Fodd bynnag, o ystyried natur eang y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae'n dal i gael ei ddatblygu, ac o gofio'r amserlen ar gyfer y Bil hwn, roedd yn amhosibl ei rannu cyn penderfyniad cydsyniad y Senedd.

O ran y gorchymyn adran 109, nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi esboniad imi am yr oedi. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cadarnhau ei fod yn parhau'n ymrwymedig i gyflwyno'r Gorchymyn. Mae'n swyddogion yn gweithio i gytuno ar amserlen newydd ac wrthi'n cwblhau'r gwaith drafftio.

Gan droi at fater Covid-19, mae faint o ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ef wedi cael effaith fawr ar amseriad is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE − yn OSau gan Lywodraeth y DU ac yn OSau sydd eu hangen yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig ag ymadael yr UE. Yn achos Llywodraeth Cymru, rydym wedi gwneud nifer mawr iawn o ddarnau o is-ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r coronafeirws a Covid-19, gyda thros 110 wedi'u gwneud hyd yma.

Bu'n rhaid defnyddio llawer iawn o adnoddau Llywodraeth Cymru i wneud y gwaith hwn ac mae hynny, yn anochel, wedi arwain at sefyllfa lle mae mwy nag y byddem yn dymuno o is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE wedi cael ei gwneud yn hanner olaf 2020.

Byddai'r risgiau o beidio â chael yr holl ddeddfwriaeth angenrheidiol yn ei lle ar ddiwedd y cyfnod pontio yn golygu na fyddai gennym lyfr statud gweithredol ac na fyddai modd cyflawni'r Cytundeb Ymadael, cytundebau cysylltiedig a chyfundrefnau domestig ar ôl y cyfnod pontio. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw gytuniad gyda'r UE a Chytundebau Masnach Rydd gyda thrydydd gwledydd.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarferion blaenoriaethu, ac yn dal i’w cynnal, er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y gellir cyflawni'r holl ddeddfwriaeth angenrheidiol erbyn diwedd y flwyddyn.

Gallai ton arall o Covid-19 greu her aruthrol arall o ran cyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. A ninnau’n  Llywodraeth gyfrifol, dyna un rheswm pam y gwnaethom ofyn i Lywodraeth y DU wneud cais am estyniad i'r cyfnod pontio.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, gan mai hi yw Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

UK Government
Llywodraeth y DU

Rt Hon Simon Hart MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Ref: 215SOS20

**Mick Antoniw MS**
Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

3rd October 2020

Dear Mick.

**UK Internal Market Bill**

Thank you for the letter of 18 September regarding application of the Sewel Convention to the UK Internal Market Bill.

The Government remains fully committed to the convention on legislative consent. As you note, the Bill's explanatory notes state clearly that we are seeking consent in relation to all parts of the Bill. In line with usual practice the UK government ministers responsible for the Bill wrote to the Minister for Economy, Transport and North Wales ahead of the Bill's introduction to set this position out in detail and ask that he begin the process for seeking the Senedd's consent.

We are working closely with the Welsh Government as the Bill progresses through Parliament to understand and respond to the concerns outlined in the legislative consent memorandum published on 25 September. It is very much the Government's intention that this work will result in a recommendation that the Senedd supports the Bill.

I am copying this letter to the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy, the Minister of State for the Constitution and Devolution, the Minister for Small Business, Consumers and Labour Markets, the Chairs of the External Affairs and Additional Legislation Committee, Finance and Constitution Committee, Committee for the Executive Office, the Welsh Affairs Committee, the Public Administration and Constitutional Affairs Committee, and the Lords Constitution Committee.

Yours ever -

**Rt Hon Simon Hart MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru



Gwydyr House | Tŷ Gwydyr    1 Caspian Point | Pwynt Caspian
London | Llundain    Cardiff | Caerdydd
SW1A 2NP    CF10 4DQ
www.gov.uk/wales    www.gov.uk/cymru

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/3258/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Crughywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Tŷ Crughywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

06 Hydref 2020

Cadeirydd annwyl,

Diolch am eich llythyr ar y cyd, dyddiedig 30 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) a gafodd ei osod mewn cysylltiad â Bil Cam-drin Domestig y Deyrnas Unedig (y Bil). Rydych wedi gofyn tri chwestiwn i mi mewn perthynas â'r LCM.

Rydych wedi gofyn am esboniad pam y bu oedi yn gosod yr LCM hwn gerbron y Senedd, gan y cyflwynwyd y Bil i Dŷ'r Cyffredin ar 3 Mawrth, ond na osodwyd LCM gerbron y Senedd tan 3 Awst. Cyflwynwyd y Bil am ei ddarlleniad cyntaf yn Senedd y Deyrnas Unedig ar 3 Mawrth, ac roedd fy swyddogion mewn trafodaethau parhaus â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig; yn benodol am bwerau'r Comisiynydd Cam-drin Domestig arfaethedig a gallu'r Senedd i graffu ar ei waith. Yna bu'n rhaid i unrhyw waith pellach o edrych ar y Bil yn ei gyfanrwydd ddod i ben wrth i swyddogion yn y Gwasanaethau Cyfreithiol a swyddogion polisi ymateb i'r sefyllfa unigryw yn sgil COVID-19, a gwaith cysylltiedig. Dim ond yn ddiweddar y mae'r gwaith o graffu ar y Bil wedi ailddechrau, ac mae fy swyddogion wedi ailddechrau trafod â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac maent yn ystyried y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'n anffodus na osodwyd yr LCM ar y cychwyn cyntaf oherwydd y gwaith enfawr a grëwyd gan COVID-19, fodd bynnag, rwy'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

credu bellach bod hwn yn amser da i graffu ar y Bil, o gofio bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'n hysbysu yn ddiweddar am eu gwelliannau, a bod y Bil yn symud ymlaen gerbron Tŷ'r Arglwyddi erbyn hyn.

Rydych hefyd wedi gofyn am fanylion y dadansoddiad a wnaed er mwyn penderfynu bod cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a pham nad yw cymalau 1 a 2 wedi'u cynnwys yn yr LCM. Rydych nodi bod Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Bil yn datgan nad yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac felly nad oes angen cydsyniad. Rwy’n parhau i gredu bod achos cryf dros ddadlau bod y darpariaethau a nodwyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Diben cyffredinol y Bil yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddioddefwyr, atal cam-drin domestig, gan gynnwys cryfhau'r cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth a'u teuluoedd, ac mae hyn yn cael effaith glir ar faterion datganoledig. Rhaid ystyried proses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yng nghyd-destun confensiwn Sewell fel y nodir yn adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Canllawiau ar Ddatganoli, sef, ‘Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales’. Mae’r canllawiau hynny’n darparu na fydd y Senedd y Deyrnas Unedig yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru. Mae cam-drin domestig yn gyffredinol yn faes datganoledig, ac mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn brawf o hynny.

Gobeithio bod fy llythyr yn egluro'r materion hyn. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich adroddiad y mis nesaf ac, fel y gwyddoch, rwy’n dal yn benderfynol o ddileu pob elfen ar gam-drin domestig ac rwy’n edrych ymlaen at drafod y Bil hwn gydag Aelodau'r Senedd yn ystod y ddadl ar 10 Tachwedd.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL ARDRETHU ANNOMESTIG (RHESTRAU) (RHIF 2)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at unrhyw bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Medi 2020. Gellir cael copi o'r Bil yn:

   https://bills.parliament.uk/bills/2774

3. Ei ddiben yw symud y dyddiad ar gyfer yr ymarfer prisio nesaf ar ardrethi annomestig i 1 Ebrill 2023 ac addasu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r rhestrau ardrethu annomestig arfaethedig o 30 Medi i 31 Rhagfyr y flwyddyn cyn ailbrisio.

4. Cyflwynwyd Bil blaenorol yn Senedd y DU ym mis Mehefin 2019 i bennu 1 Ebrill 2021 fel dyddiad prisio. Cymeradwyodd Senedd Cymru gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil hwnnw ar 9 Gorffennaf 2019. Serch hynny, methodd y Bil pan addoedwyd Senedd y DU ym mis Medi 2019.

5. Ar 18 Mawrth 2020, cyflwynwyd bil pellach â'r un diben yn Nhŷ'r Arglwyddi, sef y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau). Gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r bil hwnnw gerbron Senedd Cymru ar 28 Ebrill 2020, a gosodwyd MCD diwygiedig ar 8 Gorffennaf.

6. Yng ngoleuni COVID-19, penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â bwrw ymlaen â'r bil hwnnw a phenderfynodd symud dyddiad yr ymarfer ailbrisio nesaf o 1 Ebrill 2021 i 1 Ebrill 2023.

7. Ar 11 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i symud dyddiad yr ymarfer ailbrisio nesaf i 1 Ebrill 2023.

8. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn gweithredu'r newid hwn.

**Amcan(ion) Polisi**

9. Fe wnaeth Llywodraeth y DU ddatgan mai ei hamcan polisi yw sicrhau bod biliau ardrethi annomestig yn adlewyrchiad mwy cywir o werth rhenti cyfredol eiddo.

10. Mae dyletswydd statudol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) i gynnal rhestrau prisio cywir at ddibenion ardrethu annomestig a'r dreth gyngor yng Nghymru a Lloegr. Mae'r VOA yn casglu ac yn cynnal y data prisio a gedwir ar y rhestru. Ar sail y rhestrau hyn caiff dros £2.7 biliwn (net) o refeniw trethi lleol ei gasglu bob blwyddyn yng Nghymru. Defnyddir y refeniw hwn i gyd i gefnogi gwariant llywodraeth leol ar wasanaethau.

11. Mae'n rhaid cynnal prosesau ailbrisio cyfnodol ar gyfer eiddo at ddibenion ardrethu annomestig. Gwneir hynny drwy adolygu gwerthoedd ardrethol yr holl eiddo annomestig ar adeg benodol. Nid ymarfer codi refeniw yw'r broses ailbrisio. Caiff ei chynnal er mwyn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn deg drwy ailddosbarthu cyfanswm yr ardrethi sy'n daladwy rhwng talwyr ardrethi er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y farchnad eiddo. Pan gynhelir proses ailbrisio mae'r VOA yn asesu gwerthoedd ardrethol eiddo annomestig fel eu bod yn adlewyrchu amodau'r farchnad, a'r farchnad rentu yn bennaf, yn well.

12. Pennir y cylchoedd prisio gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988). Ar gyfer ardrethu annomestig, mae'n ofynnol cynnal proses ailbrisio bob pum mlynedd. Gan fod y broses ailbrisio flaenorol wedi cael effaith ar 1 Ebrill 2017, y bwriad yw cynnal y broses ailbrisio nesaf yng Nghymru ar 1 Ebrill 2022.

13. Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y byddai'r ymarfer ailbrisio ardrethu annomestig nesaf ar gyfer Cymru yn cael ei ddwyn ymlaen o 2022 i 1 Ebrill 2021. Roedd hyn yn sicrhau y byddai'r broses ailbrisio yng Nghymru yn digwydd yr un pryd ag yn Lloegr.

14. Yn sgil y coronafeirws, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 11 Awst y byddai'r ymarfer ailbrisio nesaf yn digwydd ar 1 Ebrill 2023. Y bwriad yw sicrhau bod gwerth eiddo yng Nghymru yn adlewyrchu effaith y pandemig ar amodau economaidd. Mae'r newid yn gyson hefyd â'r dyddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.

15. Gan fod hyn yn ymestyn y cyfnod ers y broses ailbrisio flaenorol (yn 2017) o bum mlynedd i chwech, mae angen diwygio Deddf 1988 er mwyn newid y dyddiad ailbrisio. Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud hyn.

**Crynodeb o'r Bil**

16. Noddwr y Bil yw'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

17. Bydd y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn diwygio Deddf 1988 ac yn symud y dyddiad ailbrisio ardrethu annomestig yng Nghymru o 1 Ebrill 2022 i 1 Ebrill 2023.

18. Yn ogystal, bydd y Bil yn ymestyn y terfyn amser ar gyfer y VOA o ran cyhoeddi rhestr ddrafft, a hynny o 30 Medi i 31 Rhagfyr y flwyddyn cyn ailbrisio.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

19. Mae’r Bil yn diwygio Deddf 1988 ac yn gohirio’r broses ailbrisio ardrethi annomestig yng Nghymru a Lloegr o 2022 i 2023 ac yn addasu’r terfyn amser ar gyfer cyflwyno rhestrau ardrethu annomestig arfaethedig o 30 Medi i 31 Rhagfyr y flwyddyn cyn ailbrisio. Nodir y diwygiadau hyn yng nghymalau 1(2)(b), 1(3)(b) ac 1(4) o’r darpariaethau yn y Bil fel y maent yn gymwys i Gymru a gofynnir am gydsyniad mewn cysylltiad â’r darpariaethau hynny. Nid yw’r cymalau diwygiedig yn cynnwys unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

20. Gofynnir am gydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i’r graddau eu bod yn cael yr effaith o addasu swyddogaethau swyddogion prisio y VOA.

21. Asiantaeth weithredol a noddir gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi yw’r VOA ac mae swyddogion prisio, fel deiliaid swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus, yn awdurdod cyhoeddus o dan baragraff 8(4) o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae paragraff 10(1) o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 yn darparu na chaiff darpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru dynnu ymaith nac addasu (na rhoi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i dynnu ymaith nac addasu) unrhyw swyddogaethau sydd gan awdurdod cyhoeddus. Felly, yn unol â pharagraff 10(1) o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006, byddai’n ofynnol cael cydsyniad Trysorlys ei Mawrhydi er mwyn newid dyddiad y broses ailbrisio ardrethu annomestig, neu ba mor aml y’i cynhelir, ac er mwyn addasu’r terfyn amser ar gyfer cyflwyno Rhestrau Ardrethu Annomestig arfaethedig o 30 Medi i 31 Rhagfyr y flwyddyn cyn ailbrisio.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2)**

22. Mae’n rhaid gwneud gwaith sylweddol er mwyn paratoi ar gyfer y rhestrau ardrethu newydd a fydd yn cael effaith ar 1 Ebrill 2023 a gwneud talwyr ardrethi yn ymwybodol o’r newidiadau sydd ar y gweill. Mae cadarnhau’r dyddiad prisio mewn deddfwriaeth yn darparu’r sail statudol ar gyfer y gwaith hwn.

23. Mae’r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi ei ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen ofynnol i alluogi’r VOA i gwblhau’r gwaith prisio angenrheidiol. Hefyd, byddai defnyddio Bil Llywodraeth Cymru diweddarach yn arwain at lai o sicrwydd i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill yng Nghymru yn y cyfamser.

24. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau bod amseriad y broses ailbrisio yng Nghymru yn cyd-fynd â’r broses yn Lloegr a bod prisiadau yn cael eu cynnal mewn modd cyson.

**Goblygiadau ariannol**

25. Mae prosesau ailbrisio cyfnodol yn nodwedd angenrheidiol o system ardrethu annomestig ac mae'r costau wedi eu cynnwys yn y broses o gynllunio'r gyllideb. Amcangyfrifir y bydd y gwaith o baratoi rhestrau ardrethu newydd ar gyfer 1 Ebrill 2023 yn costio cyfanswm o £5.4m dros ddwy flynedd.

26. Mae'r VOA yn asesu gwerth pob eiddo annomestig gan gyfeirio at ddyddiad penodedig, sef y Dyddiad Prisio Rhagflaenol (AVD). Er mwyn caniatáu ar gyfer y gwaith sy'n angenrheidiol i asesu pob eiddo a llunio rhestrau newydd a fydd yn gymwys o 1 Ebrill 2023, bydd angen pennu 1 Ebrill 2021 fel AVD. Gwneir hyn drwy osod Gorchymyn gerbron y Senedd.

**Casgliad**

27. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU hwn am resymau amseriad a chydlyniaeth. Mae'r cysylltiad rhwng systemau Cymru a Lloegr ar gyfer gweinyddu'r broses ailbrisio at ddibenion ardrethu hefyd yn ategu'r achos dros fwrw ymlaen â'r darpariaethau yr un pryd ac yn yr un offeryn deddfwriaethol.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Medi 2020**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes
—
Welsh Parliament
Business Committee

Eitem 13

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Hydref 2020

Annwyl Mick,

**Rheoliadau Covid-19**

Ar 6 Hydref bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod amseriad dadleuon ar y Rheoliadau Covid-19. Yn benodol, ystyriodd y Pwyllgor beth ddylai'r cydbwysedd priodol fod rhwng yr angen i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau fedru craffu ar un llaw, a phwysigrwydd sicrhau bod Aelodau yn cael cyfle i drafod y Rheoliadau mewn modd amserol ar y llaw arall. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod patrwm diweddar Llywodraeth Cymru o amserlennu dadleuon o fewn pythefnos i osod Rheoliadau, ynghyd â gallu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried ac adrodd ar y Rheoliadau hynny o fewn yr amserlen honno, wedi sicrhau cydbwysedd boddhaol. Ailddatganwyd pwysigrwydd rôl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wrth graffu ar ddeddfwriaeth o'r fath.

Bu trafodaeth bellach, fodd bynnag, ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio dull gwahanol o ran y Rheoliadau hynny yr oedd eu diben cyffredinol eisoes wedi'i ystyried wrth graffu ar Reoliadau blaenorol. Teimlwyd bod y pwynt hwn yn arbennig o berthnasol yn achos Rheoliadau sy'n ymwneud â chyfyngiadau lleol, lle mae cyfres o Reoliadau wedi cyflwyno cyfyngiadau penodol mewn nifer o Fwrdeistrefi Sirol yn eu tro ac wedi bod yn destun gwaith craffu manwl. Un opsiwn posibl a godwyd wrth drafod oedd bod Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at Reoliadau newydd lle'r oedd yr egwyddor sylfaenol eisoes wedi bod yn destun craffu, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Busnes i wneud penderfyniad ynghylch lefel y gwaith craffu pellach a allai fod yn ofynnol cyn y ddadl.

Felly mae'r Pwyllgor Busnes yn gofyn barn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y posibilrwydd o alluogi bod rhai Rheoliadau yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cynnal dadl mewn amgylchiadau o'r fath.

Cofion cynnes,



**Elin Jones AS**
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565